

Dyddiad: 26 Mawrth 2003
Amser: 9:00 – 12:30
Lleoliad: Ystafell Bwygora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Arolwg Pum Mlynedd Cyngor Chwaraeon Cymru. Adroddiad Cam II (Drafft)

Dyddiad: Mawrth 2003



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd – Swyddogaethau Allweddol y Cyngor
4. Mynd i'r afael â Blaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
5. Rheolaeth Corfforaethol

Atodiadau

A Cylch Gorchwyl yr Arolwg Pum Mlynedd

B Crynodeb Gweithredol Adroddiad Rhan 1

C Dangosyddion Perfformiad Lefel Uchel

D Dadansoddiad o ariannu chwaraeon

E Ymateb y Cyngor ar weithredu mewn cefnogaeth i'r Cynllun i Gymru 2001 a'r Strategaeth Celfyddydol

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i Gadeirydd ac aelodau Cyngor Cyngor Chwaraeon Cymru, y Prif Weithredwr a'i Dîm o Reolwyr Hŷn, a'r gweithwyr i gyd sydd wedi cymryd rhan yn ail ran yr arolwg hwn. Hoffem hefyd ddiolch i'r athletwyr elite a'r cyrff rheoli chwaraeon sydd wedi gwneud cyfraniadau pellach. Cafodd yr awyrgylch agored y daethom ar ei draws yn Rhan I yr arolwg ei ddyblygu wrth i ni gwblhau'n ymholiadau ar gyfer adroddiad Rhan II. Rydym yn diolch i'r cynghorau chwaraeon eraill sydd wedi bod o gymorth wrth i ni wneud ein ymchwil.

Mae'r diddordeb mawr a ddangoswyd yn y gwaith hwn gan Gyfarwyddiaeth Llywodraeth y Cynulliad wedi bod o gymorth mawr, fel y bu cyfranogaeth weithredol holl aelodau'r grŵp llywio.

Crynodeb Gweithredol

1.1 Nodir cwmpawd Cam II yr Adolygiad Pum Mlynedd yn llawn yn adran 2. I grynhoi mae'r adroddiad hwn yn cynnwys materion effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd strategol Cyngor Chwaraeon Cymru a'r materion sy'n ymwneud â'i lywodraethu.

1.2 Mae'n bwysig nodi ein bod wedi cynnal yr adolygiad hwn yn erbyn cefndir strategaeth a chylch gorchwyl presennol y Cyngor. O ganlyniad i argymhellion a wnaed yng Ngham I yr adroddiad hwn, a chynllunio strategol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg, mae'n debygol y bydd y cefndir yn newid yn sylweddol. Yn benodol mae'n bosib y bydd rhai materion fel iechyd mewn perthynas â chwaraeon yn dod yn fwy arwyddocaol. Mae hefyd yn bosib y bydd blaenoriaethau o safbwynt ariannu mathau unigol o chwaraeon yn newid. Gallai unrhyw newidiadau i statws neu weithrediadau'r ddwy ganolfan genedlaethol hefyd fod yn arwyddocaol (er enghraifft, gallai'r llwyth gwaith gweinyddol newid yn sylweddol). Yn ychwanegol i ganfyddiadau uniongyrchol yr adroddiad hwn, felly, rydym hefyd yn argymhell cynnal adolygiad trefniadaethol o'r Cyngor unwaith y bydd unrhyw flaenoriaethau strategol diwygiedig a chynlluniau ar gyfer newidiadau yn y canolfannau cenedlaethol yn cael eu gweithredu.

1.3 I grynhoi rydym yn casglu bod y Cyngor:

- ❑ Yn cael ei arwain yn dda mewn perthynas ag agendâu sefydledig ond yn araf yn ymateb i newid;
- ❑ Wedi bod yn ddsbarthwr loteri effeithiol ac wedi datblygu'r athletwyr gorau yn effeithiol;
- ❑ Mae angen iddo ganolbwyntio llawer mwy ar eiriolaeth a rheoli'i berthynas gydag ystod eang o fuddiolwyr;
- ❑ Mae angen iddo ail-werthuso'i flaenoriaethau wrth gyflenwi amcanion;
- ❑ Mae angen iddo adolygu, cofnodi a chyfathrebu blaenoriaethau ar gyfer ariannu chwaraeon; ac
- ❑ Mae angen iddo wella ei brosesau cynllunio yn sylweddol a darparu achos ar gyfer ariannu sydd wedi'i gefnogi'n well.

Strategaeth a Chynllunio

1.4 Bydd angen adolygu strategaeth y Cyngor yng ngoleuni'r blaenoriaethau strategol y gweithir arnynt ar hyn o bryd gan y Gyfarwyddiaeth noddi yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cynllun gweithredu drafft ar ddiwedd yr adran hon yn tanlinellu'r argymhelliad yng Ngham I bod angen i'r Gyfarwyddiaeth noddi arwain ar rannau allweddol o strategaeth chwaraeon ar gyfer Cymru, tra bod argymhellion Cam II yn amlygu meysydd penodol y bydd angen eu hail-asesu yn strategaeth y Cyngor, fel materion iechyd, blaenoriaethu ariannu chwaraeon a chefnogaeth ar gyfer ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

1.5 Rydym yn casglu nad yw Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol y Cyngor yn effeithiol wrth gyflenwi golwg glir ar ei flaenoriaethau a sut y mae'n bwriadu cwrdd â hwy, a bod y buddiannau sydd i'w cael o'i weithgareddau yn cael eu tanwerthu. Mae ailadrodd sylweddol yn cuddio thema sylfaenol cynlluniau, ac, yn enwedig mewn perthynas â strategaeth sy'n newid, mae'n hanfodol bod prosesau cynllunio yn cael eu hail-wampio. Mae hi yr un mor bwysig bod trefniadau gweithio agosach, mwy effeithiol yn cael eu sefydlu gyda'r Gyfarwyddiaeth noddi.

Cynnwys Gwaith y Cyngor

1.6 Ar y cyfan mae cyrff llywodraethu chwaraeon amatur yng Nghymru yn canmol y gefnogaeth y maent yn ei derbyn gan y Cyngor ac yn cefnogi'r rhaglen ar gyfer yr athletwyr gorau yn gryf, gyda phryderon bach yn unig. Fodd bynnag, ar draws ystod o fuddiolwyr rydym wedi canfod pryder ynghylch effeithiolrwydd y rôl eirioli sy'n cael ei weithredu. Cefnogir hyn gan amgyffrediad nad yw'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus, o'i gymharu â chynghorau

chwaraeon eraill, wrth gyflawni cydnabyddiaeth eang o werth chwaraeon ac wrth adeiladu perthynas gyda buddiolwyr allweddol nad ydynt yn gysylltiedig â chwaraeon, ac, o ganlyniad wedi cael llai o lwyddiant wrth ennill arian a chyfleoedd buddsoddi ehangach. Mae angen gwelliant sylweddol o ran cynllunio a rheoli gweithgareddau eirioli.

1.7 Mater cysylltiedig yw'r llwyddiant cymysg wrth gynnal perthynas effeithiol gyda'r holl grwpiau buddiolwyr. Mae hyn yn fater sy'n derbyn ychydig iawn o sylw o fewn agendâu a thrafodaethau'r Cyngor, er gwaethaf pwysigrwydd strategol amlwg y mater. Yn benodol nid yw chwaraeon proffesiynol na'r sector addysg uwch yn tueddu i ystyried y Cyngor fel cyfranogwr arwyddocaol ac mae ei berthynas ag awdurdodau lleol Cymru yn un gymysg.

1.8 Mae meysydd penodol o waith tan-ddatblygedig sydd heb os yn ychwanegu at yr amgyffrediaid hyn. Ar hyn o bryd nid oes strategaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer y maes chwaraeon a hamdden yng Nghymru sy'n cynnwys ystod o gyfranogwyr o wirfoddolwyr i chwaraeon proffesiynol. Mae lefel ymwneud y Cyngor â materion iechyd hefyd yn llai na'r hyn y mae llawer o fuddiolwyr yn ei disgwyl. Er gwaethaf gweithredu cychwynnol positif gan y Cyngor, ymddengys mai ychydig o gynnydd a wnaed ac nid yw'r berthynas gyda'r sector iechyd sy'n amlwg yn yr Alban ac yn Lloegr yn ei lle hyd yn hyn.

1.9 Mae hybu chwaraeon i'r goreuon, drwy Elite Cymru yn benodol, wedi bod yn llwyddiant amlwg. Y cyflawniad mwyaf amlwg efallai yw bod Cymru wedi ennill y 4^{ydd} safle yn nhermau medalau fesul pen yng Ngemau'r Gymanwlad 2002.

1.10 Yng Ngham I yr adroddiad nodwyd bod angen yn bodoli o hyd am y swyddogaethau a gyflenwir ym Mhlas Menai ond y dylid archwilio dulliau eraill o gyflenwi ffynonellau ariannu a chymryd cyfrifoldebau rheoli. O safbwynt SChC penderfynasom fod angen o hyd i Sefydliad Chwaraeon Cymru ddarparu cyfleusterau chwaraeon sy'n darparu'n benodol ar gyfer, ac yn canolbwyntio ar, anghenion yr athletwyr gorau a Chyrff Llywodraethu Chwaraeon. Rydym yn argymhell y dylid egluro amcanion, chwaraeon â blaenoriaeth a swyddogaethau'r ganolfan ac y dylid nodi canlyniadau clir. Yr ymagwedd ddymunol byddai ailddatblygu ac adnewyddu'r cyfleusterau presennol yn SChC. Dylid seilio atebion mwy hir dymor ar y chwaraeon â blaenoriaeth a nodir, archwilio safleoedd eraill yng Nghymru yn ogystal â'r safle presennol, ac archwilio'r opsiwn o gwmni annibynnol ar gyfer perchnogaeth a rheoli yn y dyfodol, y byddai o bosib yn cynnwys Cyrff Llywodraethu Chwaraeon allweddol.

1.11 Yn yr ail gam hwn o'r adolygiad rydym wedi ystyried effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Canolfannau yn erbyn amcanion gweithredol presennol. Rydym yn casglu bod y canolfannau cenedlaethol yn SChC a Phlas Menai yn cael eu rhedeg yn dda yn erbyn eu briffiau presennol gyda'r pryderon sy'n codi yn rhai bach yn unig.

Gweithgareddau Datblygu

1.12 Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cymhwyso blaenoriaethau i ariannu chwaraeon yng Nghymru ond nid yw hyn yn seiliedig ar bolisi a hysbyswyd. Mae adolygiad o ymagweddau eraill yn dangos gwerth blaenoriaethu yn y tymor canolig yn erbyn meini prawf clir y gellir eu deall gan y cyrff llywodraethu chwaraeon. Canlyniad pwysig fyddai creu polisi y gellir ei gyfathrebu'n hawdd gyda nodau clir. Mae'r Cyngor wedi dechrau edrych ar y mater hwn.

1.13 Mae staff datblygu cenedlaethol ar y cyfan yn cael eu gwerthfawrogi gan gyrff llywodraethu chwaraeon ond mae ganddynt bryderon ynghylch y Cyngor yn cadw staff, ac mae materion hyfforddi cychwynnol sydd angen mynd i'r afael â hwy. Ystyrir staff rhanbarthol y gwasanaeth datblygu lleol yn effeithiol ac yn wybodus ac maen nhw wedi bod yn effeithiol yn darparu ac yn cynnal nifer o raglenni nodedig. Mae datblygiad Chwaraeon y Ddraig mewn ysgokion a datblygiad rhaglenni Chwaraeon i'r Anabl a chwaraeon i Wragedd a Phlant yn enghreifftiau da o'u hymdrechion. Fodd bynnag, mae materion gwirioneddol ynghylch blaenoriaethau, llwyth gwaith a sgiliau'r grwpiau hyn o staff sydd angen mynd i'r afael â hwy. Rydym yn argymhell bod cynlluniau gwaith rhanbarthol gwell yn cael eu datblygu er mwyn mynd i'r afael â'r angen hwn.

Gweinyddu Grantiau

1.14 Mae'r rheolau ar gyfer gweithrediadau SPORTLOT a'r strwythurau pwyllgor dyfarnu sydd yn eu lle yn sicrhau bod cywirdeb ariannol yn cael ei weithredu. Cymerwyd camau positif i symleiddio ariannu refeniw cymunedol ac i arbed ymgeiswyr rhag treulio amser ar brosiectau nad ydynt yn debygol o gwrdd â meini prawf y cynllun. Mae ansawdd y gweinyddu ar y cyfan wedi bod yn uchel ac mae datblygiad y Gist Gymunedol yn rhoi'r Cyngor ar flaen y gad o weithredu penderfyniadau lleol ar ariannu grant cymedrol. Fodd bynnag mae lle i leihau lefel manyldeb y cynllun, ar gyfer prosiectau cyfalaf yn benodol, ac i wneud mwy o ddefnydd o ddirprwyo o fewn strwythurau'r pwyllgor. Mae'r amser a dreulir ar weinyddu a gwerthuso grantiau yn fater allweddol i staff datblygu lleol a dylid ystyried dulliau eraill o werthuso. Dylai'r Cyngor ymgymryd ag ymgynghori pellach â'i bartneriaid er mwyn nodi sut y gellir mynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â thryloywder gwneud penderfyniadau.

Gwasanaethau Canolog

1.15 Mewn nifer o feysydd rydym yn ystyried bod diffyg eglurdeb ynghylch blaenoriaethau ac, o ganlyniad, mae'n anodd asesu gwerth yr hyn a gyflawnir a ph'un a bod y gwasanaethau yn cynnig gwerth am arian. Rydym felly yn argymhell adolygiad manwl o AD, y gofrestrfa a chofnodion, ymchwil a gwerthuso, gwasanaethau gwybodaeth a gwasanaethau ysgrifenyddol.

1.16 Mae gwasanaethau TGCh yn effeithiol ac mae'n debygol y bydd pwysau ychwanegol arnynt wrth weithredu'r system wybodaeth traws-gorfforaethol newydd GIFTS.

1.17 Dylai'r Cyngor adolygu'r angen i ddau gyfarwyddwr anweithredol adrodd i'r Prif Weithredwr a'r amrywiaeth o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rheoli'r maes hwn.

Mesurau Perfformiad a Chwrdd â Blaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1.18 Nid ydym yn ystyried dangosyddion perfformiad lefel uchel a'r gweithdrefnau casglu data cysylltiedig yn ddigonol ar gyfer cyflwyno darlun cyfan o berfformiad corfforaethol a chyflawniad y Cyngor yn erbyn amcanion allweddol. Hefyd, gan gadw mewn cof y lefel ddiweddar o gyflawniad, nid yw rhai dangosyddion wedi'u gosod ar lefelau digon heriol. Awgrymwn ffyrdd y gall y Cyngor adolygu'r maes hwn.

1.19 Mae gan y Cyngor hanes da wrth gwrdd â thargedau lefel uchel penodol o fewn ei gylch gorchwyl fel a nodwyd yn llythyr cylch gorchwyl y Gweinidog. Fodd bynnag, mae'r hanes ynghylch cynnal partneriaethau effeithiol gyda'r holl gyrrff buddiolwyr, ac yn enwedig y Gyfarwyddiaeth nodd, yn datgelu lefel o lwyddiant sy'n llawer fwy cymysg, ac fe adlewyrchir hyn yn 1.3 a 1.4 uchod. Hefyd rydym yn casglu bod y lefelau llwyddiant ar yr agenda addysg a dysgu gydol oes yn dda mewn rhannau - yn bennaf mewn addysg ysgol. Fodd bynnag, nid oes rôl wedi ei diffinio mewn perthynas ag addysg uwch ac addysg i oedolion hyd yn oed os nad yw'r rhain yn elwa'n sylweddol o arian y Cyngor. Rydym yn casglu bod y Cyngor yn dda wrth gyrraedd targedau caled ond yn llawer llai llwyddiannus wrth gwrdd â thargedau meddal sy'n llawn cyn bwysiced.

Llywodraethu

1.20 Mae angen i rôl strategol y Cyngor gwmpasu cynnal perthynas strategol a chefnogaeth ar gyfer y rôl eirioli. Gellid ffocysu ei waith yn fwy effeithiol o ran ffurf a chyflwyniad papurau mewn cyfarfodydd.

1.21 Gwnaed llawer o waith da yn ddiweddar er mwyn gosod y Pwyllgor Archwilio ar lwybr arfer gorau. Gwnaed cynnydd da ar asesu risg a'i gysylltiadau â'r rhaglen archwilio mewnol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried newidiadau strwythurol i gynlluniau tâl yn unig. Dylai hefyd ystyried ac adrodd i'r Cyngor ar dâl uwch reolwyr ac oblygiadau dyfarniadau cyflog blynyddol ar sail blynyddol o leiaf.

1.22 Mae gwaith archwilio mewnol yn casglu bod systemau'r Cyngor yn gweithredu mewn modd boddhaol ond mae'n nodi nifer o doriadau yn y Memorandwm Ariannol gyda'r Cynulliad y mae'r Cyngor wedi cymryd camau i'w hosgoi yn y dyfodol.

1.23 Yn Adroddiad Cam I nodwyd y cynnydd yn lefel cronfa dosbarthu'r loteri i lefel sy'n uwch na thair gwaith yr incwm blynyddol ar ddiwedd 2001/2. Rydym wedi adolygu hyn ac o'r farn ei fod yn ganlyniad anochel adeiladu cynlluniau cyfalaf arfaethedig o ansawdd da, nid canlyniad gweinyddu gwael. Cynllunnir gostyngiadau sylweddol yn y balans yn y ddwy flynedd nesaf.

1.24 Nid oes gan y Cyngor fframwaith effeithlonrwydd i hybu adolygiad rheolaidd o werth am arian. Mae adolygiadau gwerthuso yn canolbwyntio ar gyflawni'r mentrau a gynlluniwyd ond nid yw hyn yn cwmpasu materion o gost effeithiolrwydd yn sylweddol. Rydym yn argymhell gosod y fath fframwaith yn ei le.

1.25 Mae'r Cyngor yn cwrdd â'i ofynion cyfreithiol o safbwynt Deddf yr Iaith Gymraeg ond dylai bellach fod yn fwy uchelgeisiol o ran ymestyn rôl y Gymraeg wrth gyflenwi ei wasanaethau.

1.26 Yng Ngham I nodwyd y byddem yn darparu cynllun gweithredu drafft yn seiliedig ar yr holl argymhellion yn nau gam yr adroddiad, yn amodol ar y rhain yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Diwylliant a'r Gweinidog. Cysylltir hyn yn Atodiad E. Yng ngoleuni natur a nifer yr argymhellion hoffwn argymhell bod y Cyngor yn ystyried penodi rheolwr prosiect newydd i gydlynu'r gwaith y byddai ei angen.

1.27 Ar ffurf cynllun gweithredu mae'r tablau canlynol yn crynhoi'r argymhellion o Gam I a Cham II y prosiect hwn.

Cyngor Chwaraeon Cymru. Adolygiad Pum Mlynedd - Cynllun Gweithredu Drafft

Argymhellion Cam I - Strategol a Chynllunio

Argymhellion	Cyfeirnod yn yr adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Dylid cadw corff chwaraeon cenedlaethol annibynnol i Gymru er mwyn cwmpasu rhaglenni datblygu chwaraeon a dosbarthu arian SPORTLOT. Rhaid iddo hefyd ddangos ei allu i dynnu'r holl ddiddordebau chwaraeon yng Nghymru at ei gilydd a'u cynrychioli yn effeithiol.	Cam 1 8.15	Uchel - dim gweithredu penodol				
Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Corff Annibynnol gydweithio'n agos er mwyn datblygu cynlluniau gweithredu ac ariannu sy'n caniatáu cyflenwi strategaeth lawn ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Dylai Adran Celfyddydau'r Loteri a Chwaraeon gymryd y brif rôl wrth osod y canllawiau strategol ac wrth gydlynu a monitro rhaglenni lle mae cydweithredu traws-adrannol ac ymroddiad i gyd-nodau yn hanfodol i lwyddiant a lle mae chwaraeon yn elfen bwysig yn eu cyflenwi.	Cam 1 8.15	Uchel	Y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg Cyngor	Cyn gynted â phosibl	Ch 2003/4	Ei angen ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2004/5
Dylai'r Cyngor: <input type="checkbox"/> gyflawni rôl gynllunio strategol ar gyfer chwaraeon, ond dylid gosod hyn o fewn cyd-destun strategol ehangach, fel a nodir uchod. <input type="checkbox"/> gyfrannu at ddatblygu nodau, cynigion, digwyddiadau mawr a phrosiectau uchelgeisiol a blaengar ar gyfer chwaraeon o fewn Cymru.	Cam 1 6.51	Uchel	Cyngor	Ch 1 2003/4	Cyfredol	Yn deillio o waith Cyfarwyddiaeth y noddwyr
Dylai'r Cyngor arfarnu yn feirniadol yr angen iddo ddatblygu rhaglenni a mentrau cyfranogi yn y dyfodol yn erbyn yr egwyddorion o annog hunan ddibyniaeth, datganoli a'r Cyngor fel y datblygwyr rhaglenni neu gyflenwr y dewis olaf.	Cam 1 6.51	Canolig	Datblygu Lleol	Cyfredol	Cyfredol	
Dylai'r Cyngor barhau i ddosbarthu arian a chefnogi'r broses ymgeisio.	Cam 1 6.51	Uchel	Cyngor	Cyfredol	Cyfredol	

Cam I Argymhellion – Perthnasau

Argymhellion	Cyfeirnod yn yr adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Dylai'r Cyngor adolygu effeithiolrwydd ei berthynas a chyfathrebu gydag adran newydd y Cynulliad a Gweinidogion.	Cam 1 6.51	Uchel	Cyngor/Prif Weithredwr	Cyn gynted â phosibl	Cyfredol	Gweler gweithredu Cam II isod

Cam I Argymhellion – Gweithredol

Argymhellion	Cyfeirnod yn yr adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Dylid cynnal y cyfleusterau yn SChC nes bod anghenion tymor hir a galluoedd y farchnad yn cael eu cadarnhau yn dilyn argymhellion yn 7.75 (gweler isod).	Cam 1 7.18	Canolig	Cyngor	Cyfredol	Cyfredol	
Argymhellion ae gyfer Sefydliad Chwaraeon Cymru (SChC) 1. Dylid cadarnhau amcanion SChC fel canolfan genedlaethol a dylid eglurhau'r canlyniadau disgwylidig. Y swyddogaethau â blaenoriaeth yn SChC dylai fod i ddarparu cyfleusterau a chefnogaeth i Gyrrff Llywodraethu Chwaraeon a chyfleusterau a gwasanaethau i gwrdd ag anghenion yr athletwyr gorau. 2. Dylid archwilio'r opsiwn o ffocysu defnydd yn y ganolfan genedlaethol i nifer llai o gyrrff llywodraethu a gweithgareddau â blaenoriaeth a'i gysylltu â'r adolygiad o flaenoriaethau a ffocws y cyngor fel corff cyfan. 3. Dylid ymgymryd â gwaith pellach, sy'n ganolog i'r achos buddsoddi, i eglurhau y cyfleusterau chwaraeon, anghenion gweinyddu a swyddfa a llety angenrheidiol. Dylid cysylltu hyn ag eglurhau defnyddwyr a swyddogaethau â blaenoriaeth y ganolfan	Cam 1 7.75	Uchel	Cyngor	Ch 2 2003/4	Ch 4 2003/4	Mae angen mynd i'r afael â materion yr Ymddiriedolaeth ar fwy o frys na datblygu'r strategaeth tymor hir.

<p>a dylai ganiatáu rhesymoli rhai cyfleusterau a gwella eraill.</p> <p>4. Dylai opsiynau'r dyfodol, sy'n ganolog i'r achos buddsoddi, geisio cynnal y gwasanaethau hynny a ddarperir fel rhan o UKSI Cymru fel gwasanaeth canolog yn y ganolfan genedlaethol.</p>						
Argymhellion	Cyfeirnod yn yr adroddiad	Pwysigrwyd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
<p>Argymhellion SChC parhad....</p> <p>5. Dylid cynnwys cadw'r gofod swyddfa i'r Cyngor yn SChC dim ond os yw'n ategu'r prif ddefnyddiau, os yw'n gost effeithiol ac yn ystyried y penderfyniad a wnaed o safbwynt yr ymagwedd ddymunol o ran perchnogaeth a rheoli'r cyfleuster. Dylid archwilio hyn fel rhan o argymhelliad 4.</p> <p>6. Mae'n rhaid penderfynu ar y strategaeth ar gyfer cefnogi cyrff llywodraethu chwaraeon yn y dyfodol ac o ran cael hyd i gyfleusterau ar gyfer digwyddiadau gan y Cyngor Chwaraeon ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru cyn y gellir mynd ar ôl ateb hir dymor dymunol.</p> <p>O safbwynt yr opsiynau perchnogaeth a rheoli rydym yn argymhell:</p> <p>7. Rhaid archwilio oblygiadau cyfreithiol ac ariannol tynnu SChC o Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru gyda'r Comisiwn Elusennau. Rhaid sefydlu y gellir dychwelyd asedau o'r Ymddiriedolaeth i'r maes cyhoeddus.</p> <p>8. Dylid archwilio manteision ac anfanteision sefydlu cwmni annibynnol ymhellach.</p> <p>9. Dylid datblygu ymagwedd gynlluniedig i leihau dibyniaeth y Cyrff Llywodraethu ar y Cyngor a chynyddu eu rhan ym mherchnogaeth a rheoli'r canolfannau, a'i gosod ochr yn ochr ag unrhyw strategaeth fuddsoddi.</p>	Cam 1 7.75	Uchel	Cyngor	Cyn gynted â phosibl	Ch 4 2003/4	Rhaid i hyn gael ei wneud cyn dod i unrhyw benderfyniadau ar ganolfanau cenedlaethol
Dylid cadw Plas Menai fel cyfleuster chwaraeon dŵr gwerthfawr i Gymru a'r DU yn amodol ar argymhellion yn 7.108.(Gweler isod)	Cam 1 7.83	Canolig	Cyngor	Cyfredol	Cyfredol	

Argymhellion	Cyfeirnod yn yr adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Nodiad au
<p>Dylid archwilio tair ymagwedd i berchnogaeth a rheoli Plas Menai yn y dyfodol. Nid yw'r rhain i gyd yn annibynnol ar ei gilydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ❑ Archwilio sefydlu cwmni annibynnol fyddai'n gallu ceisio arian masnachol i gefnogi datblygiadau yn y dyfodol. ❑ Gwerthu'r ganolfan i weithredwr masnachol yn erbyn cytundeb gwasanaeth a anelir at sicrhau ei bod yn parhau â'i rôl fel canolfan genedlaethol. ❑ Os hybir gallu rheoli Sefydliad Hwyllo Cymru drwy drosglwyddo staff rheoli o'r Cyngor, mae'n bosib y gallant ymgymryd â rhedeg y ganolfan yn y dyfodol. 	Cam 1 7.108	Isel	Cyngor	Ch 4 2003/4	Ch 2 2004/5	

Cynhwysir yr Argymhellion canlynol o gam un o fewn gweithrediadau cam dau isod:

Dylai'r Cyngor osod mwy o bwyslais ar addysg a hyfforddiant, gan gynnwys, recriwtio, cadw a hyfforddi gwirfoddolwyr a phobl broffesiynol, i gefnogi chwaraeon amatur a'r diwydiant hamdden ehangach.	Cam 1 6.51					Gweler Cam II isod
Dylai'r Cyngor barhau i nodi'r meysydd hollbwysig lle mae angen cyngor a chymorth ar ddarparwyr chwaraeon er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn chwaraeon ac i annog arfer da ymysg cyfranogwyr ac arweinwyr chwaraeon.	Cam 1 6.51					Gweler Cam II isod
Dylai'r Cyngor roi blaenoriaeth uwch i'w raglen ymchwil a gwerthuso, yn benodol casglu'r sylfaen wybodaeth angenrheidiol er mwyn dangos effaith chwaraeon, a chymryd rôl fwy gweithredol wrth rannu tystiolaeth ac arfer da.	Cam 1 6.51					Gweler Cam II isod

Argymhellion Cam II – Strategol a Chynllunio

Argymhellion	Cyfeirnod Adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Yn dilyn cwblhau strategaeth diwygiedig ar gyfer chwaraeon yng Nghymru y mae'n angenrheidiol ailedrych strategaeth y Cyngor fel bod strwythur adnodd a threfniadol y Cyngor sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r gwasanaethau angenrheidiol yn cael ei adolygu	Cam II 3.149	Uchel	Cyngor	Ch 2 2003/4	Ch 4 2003/4	
Y Cyngor, mewn trafodaeth â Swyddogion y Cynulliad (Iechyd a Chwaraeon) ac asiantaethau allweddol eraill, yn ailedrych ei rôl ac amcanion parthed iechyd. Byddai hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> □ ystyried lleu amcanion cyfranogi'r Cyngor i adlewyrchu eu bod yn edrych am wastadau uwch o gyfranogiad er mwyn cael effaith positif ar iechyd a lles pobl Cymru. □ egluro rôl y Cyngor parthed hyrwyddo gweithgaredd corfforol, yn hytrach na chwaraeon yn unig. □ ailedrych ar gynllun gweithredu Gweithlu Dulliau Byw Gweithredol ac egluro disgwyliadau a rôliau ar gyfer y dyfodol. 	Cam II 3.28	Uchel	Cyfarwyddiaeth Hyrwyddo Iechyd Cyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon & Chymraeg Cyngor	CGASB	Ch 1 2003/4	Pwnc allweddol i'r Cynllun Corfforaethol
Fod y Cynulliad a'r Cyngor yn adolygu rhinweddau blaenoriaethu chwaraeon/Cyrff Llywodraethol dethol i dderbyn gwastadau uwch o ariannu a chefnogaeth ar gyfer cyfnod penodol o amser, gyda strategaeth cynnydd eglur ac amcanion a nodau penodol i'w cyflawni yn y tymor byr (e.e.4 blynedd) a'r tymor hwy (e.e. 10+ blwyddyn). Dylai hyn ofyn am ymroddiad i gyfrannu at gyfranogiad cynyddol, canfod dawn a'i ddatblygu a sicrhau llwyddiant y goreuon. Dylid rhoi blaenoriaeth i geisio buddsoddiad uwch yn y chwaraeon blaenoriaethol o adnoddau sydd eisoes gan y Cyngor a thrwy bleidio manteision buddsoddiad ychwanegol gyda'r Cynulliad a phartneriaid eraill.	Cam II 3.67	Uchel	Cyngor/Datblyg-iad Cenedlaethol (Cyngor)	Ch 2 2003/4	Ch 4 2003/4	Adwaith i amodau a ddangos odd Gyfarwyddiaeth noddwr
Dylai'r Cyngor gadarnhau'r meysydd Cymunedau Gyntaf y bydd yn cydweithio â hwy dros y 2-3 mlynedd nesaf a dylai'r Cynulliad geisio gydweithio â'r Cyngor i hwyluso gwell gweithio a buddsoddi ar draws y sectorau mewn chwaraeon yn y meysydd hyn.	Cam II 3.115	Uchel	Cyngor/Datblyg-iad Cenedlaethol (Cyngor)	Ch 2 2003/4	Ch 4 2003/4	Adwaith i amodau a ddangos

						odd Gyfarwyd diaeth noddwr
--	--	--	--	--	--	----------------------------

Argymhellion	Cyfeirnod Adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Dylid adolygu'r broses Cynllun Corfforaethol er mwyn lleihau ailadrodd a gweithio o gadarnhad o amcanion strategol a ddatgenir yn fwy manwl mewn man arall. Y mae angen mwy o eglurhad ar y cysylltiadau rhwng prosiectau ac amcanion strategol ac ar y manteision a ddeillia o fuddsoddiad. Yn benodol, dylasai ddangos y gwastadau ariannu, staffio ac allbynnau parthed bob un. dylai ddatgan yr effaith ar effeithiolrwydd a maint gwaith ar y gweithbwn presennol a bod yn benodol iawn ar berwyl, allbynnau a blaenoriaethau gweithgareddau newydd. Dylai'r oll weithgareddau newydd arddangos eu heffaith yn eu crynswth ar gostau a derbyniadau, boed hynny o natur gyfalafol neu gyfredol.	Cam II 5.36	Uchel	Cyngor	CGASB	Ch1 2003/4	Angen diwyg newydd i gynllun tair mlynedd 2004/5. Y mae'r nod hwn yn angenrheidiol i gyfarfod â'r dyddiad cyhoeddi arferol (Mehfein)
Dylai'r Cyngor goethi'r dangosyddion cyfranogiad strategol ac ymchwilio a allasai mesuryddion rhagoriaeth amgen ddarparu gwell darlun yn ei grynswth o berfformiad. Dylid gweithio ymhellach i ganfod cyfres eglur o fesuryddion perfformiad wedi eu canoli ar allbynnau ar gyfer pob rhaglen a ffrwd grantiau, a ategwyd gan fethodoleg wedi ei gostio. Bydd angen i hwn fod yn rhan annatod o strategaeth ymchwil a gwerthuso adolygedig. Dylid datblygu cyfres newydd o fesuryddion ar gofnodi perfformiad corfforaethol.	Cam II 3.10	Canolig	Cyngor	Ch 1 2003/4	Ch 4 2003/4	Cynllun Corfforaethol 2004/5 i gynnwys newidiadau gwreiddiol.

						Angen amser pellach am ystyriaeth lawn.
Dylai adolygiad blynyddol perfformiad ystyried yr amgylchiadau a'r llwyddiannau cyfredol, ystyried gwerth parhaol y mesur a ddefnyddir, a lle bo hynny'n briodol, osod nodau mwy uchelgeisiol i'r dyfodol.	Cam II 3.11	Isel	Cyngor	Ch 3 2003/4	Ch 1 2004/5	Dylai canoli fod ar adolwg 2004/5
Dylid adolygu'r Cynllun Gweithredol i gynnwys yr hanfodion moel yn unig fel cyflwyniad i ddogfen a ddylasai fod yn sail i reolaeth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ond dylai hefyd gynnwys cyllideb staffio yn ôl pob adran, wedi ei amserlennu am y flwyddyn gyfan.	Cam II 5.37	Uchel	Cyngor	Ch 2 2003/4	Ch 3 2003/4	Amseru yn unol ag anghenion adolygu ar gyfer 2004/5
Dylai pob rhanbarth gynhyrchu cynllun gwaith blynyddol blaenoriaethol yn dangos y meysydd a'r mudiadau hynny a fydd yn derbyn mwy, ac o bosib, llai o gefnogaeth a sicrhau ei fod yn cael ei gyfleu yn eglur i staff a phartneriaid.	Cam II 3.106	Uchel	Datblygiad Lleol	Ch 1 2003/4	Ch 3 2003/4	Allbwn cynnar i Cynllun Corfforaethol 2004/5

Cam II Argymhellion - Perthnasau

Argymhellion	Cyfeirnod Adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Dylid datblygu ymdriniaeth cynlluniedig tuag at pleidio mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr o asiantaethau allweddol eraill sydd yn ceisio pleidio gwerth chwaraeon sydd yn nodi:	Cam II 3.20	Uchel	Cyngor	Ch 1 2003/4	Ch 3 2003/4	Mewnbynau cyntaf i

<ul style="list-style-type: none"> ❑ Yr asiantaethau allweddol y mae'r Cyngor ac eraill yn ceisio dylanwadu arnynt. ❑ Yr allbynnau a ddymunir. ❑ Y gweithgaredd cydlynol i'w gymryd ar wastad strategol, rhanbarthol a lleol. ❑ Pwy sydd yn y man gorau i weithredu yn y rôl o eiriolwr ar gyfer gwahanol asiantaethau y tu mewn i'r Cyngor (Aelodau, Rheolwyr a Staff) neu asiantaethau eraill. ❑ Sut y gellir cymell partneriaid eraill hefyd i eiriol gyda'r mudiadau a'r unigolion a nodwyd fel rhan o ymdriniaeth cydlynol. ❑ Yr adnoddau y mae eu hangen i gynorthwyo'r rôl eiriol a chyflawni'r allbynnau allweddol. 						Gynllun Corfforaethol
Wrth hyrwyddo ei rôl eiriolaeth gallai'r Cyngor ystyried y syniad o gynnal cyfarfod blynyddol a anelwyd yn benodol at ddenu cynulleidfya arwyddocaol o'r rhai sydd â diddordeb mewn chwaraeon yng Nghymru.	Cam II 5.1	Isel	Cyngor	Ch 4 2003/4	Ch 4 2003/4	Ystyried fel sail i gyflwyno adroddia d 2003/4
Dylid gwneud yr adolygiad o reolaeth y perthnasau â grwpiau diddordeb allweddol yn amlwg fel pwnc gan y Cyngor a dylai dderbyn monitro cyson. Y mae angen lledaenu'r pwyslais ar y pwnc hwn o gyrff llywodraethol chwaraeon i grwpiau â diddordeb eraill megis llywodraeth leol a'r sector addysg, ill dau yn hyrwyddwyr ac arianwyr chwaraeon sylweddol yng Nghymru. Y mae'n bwysig fod pryderon gwahanol sectorau ac adrannau o bartneriaid yn cael eu hystyried yn fanwl yn ystod y gweithgaredd hwn.	Cam II 5.4	Uchel	Cyngor	Ch 1 2003/4	Ch 2 2003/4	
Yn unol â'r argymhellion isod ar gyfer blaenoriaethu, dylai'r Cyngor geisio cryfhau perthnasau gyda chwaraeon proffesiynol a gadarnhawyd fel blaenoriaethau.	Cam II 3.49	Uchel	Cyngor	Ch 1 2003/4	Parhaus	

Cam II Argymhellion – Gweithredol

Argymhellion	Cyfeirnod Adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Dylai'r Cyngor gymryd camau i ganfod strategaeth tymor hir i recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr a rhai proffesiynol,	Cam II 3.34	Uchel	Cyngor	Ch 1 2003/4	Ch 4 2003/4	Bwydo Cynllun

<p>gydag allbynnau wedi eu diffinio yn eglur sydd yn cysylltu'r rhaglen addysgu ehangach yn ogystal â chyflawni allbynnau chwaraeon. Dylid rhoi blaenoriaeth uwch yn rhaglen waith y Cyngor i'r dyfodol i sicrhau'r allbynnau a geisir yn y maes hwn. Awgrymwn fod maes o'r fath bwysigrwydd yn haeddu un swyddog arweiniol yn y rheolaeth uwch a dylid ystyried y posibilrwydd o gael uned fach bwrpasol yn y maes hwn.</p>					<p>Corfforaethol 2005/6 gyda chynigion cynnar yn Cynllun Corfforaethol 2004/5</p>
<p>Dylai'r Cyngor gwblhau ei waith gyda'r CLl'au ar ganfod athletwyr blaenoriaeth a gweithredu ymdriniaeth mwy gweithredol ar gyfer darparu cefnogaeth. Dylai hyn hefyd ystyried yr argymhellion uchod parthed chwaraeon blaenoriaethol.</p>	<p>Cam II 3.45</p>	<p>Uchel</p>	<p>Cyngor</p>	<p>Ch 2 2003/4</p>	<p>Ch 4 2003/4</p> <p>Wedi eu hystyried yn llwyr-ganoli ar Gynllun Corfforaethol 2005/6</p>
<p>Dylai'r Cyngor adolygu'r gyfundrefn gyfredol ar gyfer ceisiadau am grantiau Cefnogaeth Datblygu a Hyfforddwyr Cymru a'i fod yn benodol yn ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> ❑ Symleiddio'r broses ceisiadau i Gyrrff Llywodraethol sydd yn derbyn cyllid o £100,000 neu lai. Gallai hyn olygu ffurflen gais a chynllun arfaethedig symlach, i'w gyflwyno ar sail bob dwy flynedd gyda swyddog dirprwyedig yn gwneud penderfyniadau. ❑ Dylai bod gofyn i'r prif Gyrrff Llywodraethol gyflwyno cynlluniau pedair blynedd, ond gydag adolygiad bob dwy flynedd. Cefnogwn yr opsiwn a cynigir gan y Cyngor bod hyn yn cynnwys adolygiad manwl a arweinir gan swyddog gyda meysydd pryder neu gyfleoedd yna yn cael eu trafod gan y Panel. Byddai hyn hefyd yn cwtogi ar y nifer o gyfarfodydd o'r panel y byddai'n rhaid eu cynnal bob blwyddyn. ❑ Datblygu ymdriniaeth llai argymhellol at GLl'au sydd yn dangos eu gallu i gyflawni'r allbynnau a ofynnir ac i reoli eu mudiad a'u 	<p>Cam II 3.51</p>	<p>Canolig</p>	<p>Cyngor</p>	<p>Ch 3 2003/4</p>	<p>Ch 1 2004/5</p> <p>Dylid eu trafod ar sail adolygu barhaus gyda newidiad au ar sail cynnydd.</p>

cyllid yn effeithlon.						
Argymhellion	Cyfeirnod Adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Dylai'r Cyngor gwblhau ei adolygiad o'r ffurflen gais cam cyntaf a cheisio lleihau gwastad y wybodaeth manwl a geisir.	Cam II 3.113	Canolig	Cyngor	Ch 2 2003/4	Ch 3 2003/4	
Dylai'r cyngor adolygu'r camau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar wastad cenedlaethol a rhanbarthol gyda golwg ar ddirprwyo gwneud penderfyniad ar y prosiectau oll nad ydynt o arwyddocad cenedlaethol, i bwyllgorau rhanbarthol.	Cam II 3.119	Canolig	Cyngor	Ch 2 2003/4	Ch 4 2003/4	
Dylai'r Cyngor ymgymryd ag ymgynghori pellach â phartneriaid i ganfod sut y gellid ymdrin â materion parthed eglurdeb gwneud penderfyniadau.	Cam II 3.120	Uchel	Cyngor	Ch 1 2003/4	Ch 4 2003/4	
Dylai'r Cyngor archwilio yn feirniadol weithbwn a sgiliau cyfredol staff rhanbarthol a chanolog a herio'n nerthol: a) os yw'r adnodd staff gyfredol yn canolbwyntio yn ddigonol ar weithio ar y meysydd a'r pynciau sydd yn fwyaf arwyddocaol b) os yw cydbwysedd o adnodd rhwng staff cefnogi canolog a'r rhanbarthau yn sicrhau fod adnoddau yn cael eu dosrannu i'r meysydd hynny lle gellir cyflawni'r effaith mwyaf. C) a oes angen estyn sgiliau a gwybodaeth gyfredol y staff drwy hyfforddiant, yn arbennig parthed cysylltu â datblygu cymunedol ehangach a rhaglenni adfywio d) a roddir sylw digonol i estyn sgiliau a gallu mudiadau eraill (gweler argymhellion ar recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr a rhai proffesiynol ac ar eiriolaeth).	Cam II 3.16/ 1	Uchel	Cyngor/ Datblygiad Lleol	Ch 1 2003/4	Ch 3 2003/4	
Dylai'r Cyngor fonitro'r trosiant staff yn adrannau Gwasanaethau'r Corff Llywodraethol a Meddygaeth a Gwyddoniaeth Chwaraeon a chysylltu hwn â gwaith y pwyllgor tâl (gweler argymhelliad isod 5.10). Dylid adolygu camau hyfforddiant a chyflwyno swyddogion cyswllt newydd, mewn ymgynghoriad â CLLau, i ddarganfod a oes ymdriniaeth 'ffordd gyflym' ar gael i ddatblygu eu gwybodaeth a'u crybwyll o'r CLLau y mae ganddynt gyfrifoldeb pennaf drostynt a phynciau perthnasol eraill.	Cam II 3.48	Canolig	Cyngor	Ch 2 2003/4	Ch 4 2003/4	

Argymhellion	Cyfeirnod adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Dylid chwilio i bosibiliadau pellach Pwllheli gan Blas Menai, yn arbennig fel ffynhonnell incwm tymor tawel a chyfle datblygu cymunedol.	Cam II 3.76	Isel	Rheolydd Plas Menai	Ch 1 2003/4	Q4 2003/4	
Er bod ymdrin â'r gytundeb arlwygo yn flaenoriaeth amlwg, dylid hefyd brofi'r cytundeb glanhau ar y cyfle cyntaf - byddem yn argymhell ei fod yn digwydd yn y flwyddyn ariannol 2003/4. (Plas Menai)	Cam II 3.78	Isel	Rheolydd Plas Menai	Ch 3 2003/4	Ch 4 2003/4	
Dylai canolfan Plas Menai symud ymlaen i ddewis cyfundrefn i ryngwynebu â 'Sun financials' gyda golwg ar weithredu yn 2003/4.	Cam II 3.79	Canolig	Rheolyddion Plas Menai/ TG	Ch 2 2003/4	Ch 4 2003/4	
Ar seiliau busnes da dylai'r Cyngor ailystyried y penderfyniad i beidio a chreu gwefan cysylltiedig ar wahân i Blas Menai ac adeiladu cynllun am gyfleuster diogel i'r ganolfan yn ei strategaeth TG. Dylai hefyd adolygu anghenion y cyfleusterau ar gyfer e-farchnata. Dylai rheolydd y ganolfan a'r rheolydd TG gydweithio gyda golwg ar ddatrys mater hygyrchedd rhyngwyd hyfforddwyr mewn dull sydd yn gost-effeithiol ac yn dderbyniol gan y Cyngor	Cam II 3.81	Canolig Isel	Cyngor Rheolyddion Plas Menai/ TG	Ch 2 2003/4	Ch 2 2003/4	
Dylid gweithredu'r cynigion i wella'r wefan i Sefydliad Chwaraeon Cymru, gan gynnwys cyfleusterau archebu electonig i Gyrrff Llywodraethol.	Cam II 3.86	Canolig	Cyngor	Ch 2 2003/4	Ch 4 2003/4	
Dylid gwneud penderfyniadau allweddol ynghylch dyfodol Sefydliad Chwaraeon Cymru a'i adnewyddu gan y Cynulliad a'r Cyngor cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gweithredol mewn cyd-destun deallusol. Yn ddibynnol ar y ffordd o symud ymlaen a ddewiswyd, dylid rhoi ystyriaeth i gynnal prawf marchnad ar y cytundebau arlwygo a diogelwch nos.	Cam II 3.92	Uchel	Cyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon & Cymraeg. Cyngor	Ch 2 2003/4	Ch 4 2003/4	Rhaid iddo ddilyn gwaith ar statws elusen

Argymhellion	Cyfeirnod Adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Dylai'r Cyngor ymgymryd ag adolygiad sylfaenol o flaenoriaethau ac amcanion ymchwil a gwerthuso. Dylid rhoi sylw arbennig i ddatblygiad adeiladwaith gwerthuso cadarn ar gyfer chwaraeon a fydd yn ymgorffori casglu a dosbarthu'r dystiolaeth i ddangos gwerth chwaraeon yng Nghymru mewn cysylltiad â phartneriaid o Gymru a'r DU, ac ymarfer da.	Cam II 3.131	Uchel	Cyngor	Ch 1 2003/4	Ch 3 2003/4	
Dylid rhoi ystyriaeth pellach i'r gyllideb a ddyrennir i ymchwil a gwerthuso ar gyfer prosiectau a ariannir gan SPORTLOT ac is-gytundebu monitro prosiectau a ariannir gan SPORTLOT. Dylai hyn gynnwys peth ymchwil ansoddol.	Cam II 3.130	Canolig	Cyngor	Q2 2003/4	Q3 2003/4	
Dylai'r Cyngor gadarnhau amcanion a blaenoriaethau'r gwasanaeth gwybodaeth ac adolygu ei effeithiolrwydd wrth gyflawni anghenion defnyddwyr. Dylid ymchwilio i opsiynau amgen i rôl y Cyngor fel darparwr uniongyrchol y gwasanaeth, er enghraifft, rheolaeth bas-data.	Cam II 3.133	Canolig	Cyngor	Q2 2003/4	Q4 2003/4	
Dylai'r Cyngor gynhyrchu strategaeth marchnata newydd unwaith y bydd penderfyniadau allweddol wedi eu gwneud ynghylch cyfeiriad strategol y Cyngor a'i wasanaethau. Dylai unrhyw gynllun i'r dyfodol fod yn eglur ynghylch sut y bydd yr amcanion ac erfynau marchnata a ddefnyddir yn cyfrannu tuag at amcanion strategol a busnes y Cyngor a dylent ymgorffori'r cynllun eirioli fel y'i amlinellir yn argymelliad 3.19. Dylid cynhyrchu cynllun gweithredu ac adolygu perfformiad ar sail blynyddol, gan gynnwys asesu y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.	Cam II 3.145	Uchel	Cyngor	Q3 2003/4	Q4 2003/4	
Dylai'r Cyngor adolygu strwythur ei weithgareddau gweithredol uwch yn y meysydd sydd yn cynnwys gwasanaethau corfforiaethol gyda golwg ar gyfuno gweithgareddau gyda synergeddau arwyddocaol ac egluro llinellau gwasanaethau cofnodi.	Cam II 3.147	Canolig	Cyngor	Ch 1 2003/4	Ch 2 2003/4	
Dylai'r Cyngor gynnal adolygiad manwl o'r adrannau [HR], cofrestfa a chofnodion er mwyn cadarnhau fod gwastad a strwythur staffio yn briodol i'w anghenion ar hyn o bryd ac i'r dyfodol (yn arbennig os digwydd newidiadau sylweddol yn Sefydliad Chwaraeon Cymru).	Cam II 3.139	Isel	Cyngor	Ch 2 2003/4	Ch 3 2003/4	

Argymhellion	Cyfeirnod Adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Dylai'r Cyngor gynnal adolygiad o weithgareddau'r grŵp ysgrifenyddol er sicrhau'r gymysgedd orau o staffio i gyflawni'r anghenion cefnogi gyda golwg ar gost-ffeithiolrwydd y gweithgaredd. Fel rhan o'r adolygiad hwn, dylid craffu ar yr arferion cyfredol wrth gefnogi'r pwyllgorau a'r paneli gwahanol. Dylid defnyddio'r adolygiad hefyd fel dull i benderfynu pa fodd y gellir orau reoli'r rhan hwn o'r gwaith yn y dyfodol.	Cam II 3.141	Isel	Cyngor	Ch 2 2003/4	Ch 3 2003/4	
Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i ffurf a chyflwyniad papurau'r Cyngor er mwyn gwella effeithiolrwydd y Cyngor fel corff, i amgyffred: <ul style="list-style-type: none"> □ Natur manwl y mewnbwn a ddisgwylir oddi wrth aelodau; □ Eglurhad o'r pynciau allweddol ar ffurf crynodeb yn achos papurau mwy maith a chymhleth; □ Rhybudd eglur o ddylanwad unrhyw benderfyniad neu gyfeiriad a argymhellir gan y Cyngor ar yr allbynnau, yn arbennig yn y materion tebyg i drosglwyddiad arian, lle gall penderfyniad gael effaith ar yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn y Cynllun yn y flwyddyn honno. 	Cam II 5.5	Canolig	Cyngor	Ch 1 2003/4	Ch 2 2003/4	
Dylai'r Pwyllgor Tâl, er mwyn cydymffurfio ag arfer gorau, gyfarfod o leiaf yn flynyddol i ystyried a gwneud argymhellion i'r Cyngor ar y cytundeb tâl blynyddol y Prif Weithredwr (gan gynnwys taliadau unwaith-ac-am- byth) a'r goblygiadau i'r dyfodol ac ar dâl y tîm rheoli uwch, yn ogystal a chyfarfod, yn ôl yr angen, i drafod newidiadau arfaethedig i strwythurau tâl y tu mewn i'r Cyngor. Dylai'r Cynulliad ystyried mabwysiadu ymarfer gorau ar gyfer Pwyllgorau Taliadau yr holl Gyrrff Cyhoeddus a Ariennir gan y Cynulliad er mwyn ystyried y taliadau a roddir i'r tim rheolwyr hŷn.	Cam II 5.10	Uchel	Cyngor/Pwyllgor Taliadau Y Cynulliad Cenedlaethol			Amseru i gyd-ddigwydd â'r cytundeb tâl blynyddol nesaf
Mae angen cymryd camau i wella ansawdd darogan llif arian, yn arbennig dros dymor yr haf.	Cam II 5.13	Canolig	Cyfarwyddwr Cyllid (Cyngor)	Cyn gynted â phosibl	Ch 1 2003/4	
Dylai'r Cyfarwyddiaeth Nawdd ystyried y cydbwysedd y carai i'r Cyngor ei sicrhau rhwng dargadw neu ymrwymo arian loteri i'r dyfodol.	Cam II 5.19	Isel	Cyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Chymraeg	Ch 3 2003/4	Ch 4 2003/4	

Argymhellion	Cyfeirnod adroddiad	Pwysigrwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad dechrau	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Dylai'r Pwyllgor Archwiliadau, mewn cysylltiad â'r archwilwyr mewnol ystyried ystod ehangach o waith archwilio mewn meysydd mentr nad ydynt yn bennaf yn ariannol eu natur.	Cam II 5.22	Isel	Pwyllgor Archwiliadau	Ch 1 2003/4	Ch 2 2003/4	Amseru i gyd-fynd â chytuno ar y diwygiad nesaf i'r cynllun IA
Dylai'r Cyngor ddim ond ystyried trosglwyddo arian o wariant cyfalafol i wariant cyfredol fel gweithred pan fo popeth arall wedi methu yn llwyr. Nid yw hyn yn arfer cyfrifo da mewn unrhyw fudiad, ac y mae ei ddefnyddio fel ateb i brinder arian cyfredol yn codi pryderon oddi wrth y noddwr, a iawn hynny, ynghylch materion cynllunio a rheolaeth. Dylai'r Cyngor fabwysiadu polisi o ddatrys unrhyw broblemau drwy gymhwyso'r gwastadau gwariant cyfredol cyn eu bod hyd yn oed yn ystyried y dull hwn o weithredu, ac ar yr un pryd, bod yn ddarbodus i hysbysu'r noddwr am effaith unrhyw gymhwysiadau cyllidebol potensial. Dylai'r Cynulliad ystyried geiriad memoranda ariannol ar y mater hwn.	Cam II 5.24	Uchel	Cyngor Cyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg	Parhaus	Parhaus	
Dylid ystyried unrhyw wariant i eraill am nwyddau neu wasanaethau a ddarperir i'r Cyngor fel gwariant cytundebol, beth bynnag fo'r berthynas manwl rhwng y Cyngor a'r darparwydd. Yr ydym o'r farn y byddai'r math hwn o wariant yn dod o dan adain Cyfarwydddeb Caffaeliad yr UE. Yna, dylid gweithredu'r cyfyngiadau yn y Memorandwm Cyllidol yn achos y gwariant hwn. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried geiriad y Memorandwm er mwyn egluro fod holl gyflenwadau nwyddau a gwasanaethau wedi eu cynnwys o dan adran 3.9 ac na ellir ei hysgoi drwy'r defnydd o arian	Cam II 5.24	Canolig	Cyngor Cyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Chymraeg	Parhaus	Parhaus Ch 3 2003/4	

grant mewn sefyllfaoedd lle bo'r cyflenwr hefyd yn derbyn grantiau yn gyson.						
Dylid sefydlu gweithgor bychan, yn gweithio ar draws y sectorau, i ddatblygu ac i asesu'r cofrestr menter, gan gyfarfod ar amllder addas, pob chwe mis, dyweder. Dylai'r tim rheoli uwch ymdrin â'r angen i ddatblygu agweddau eraill o'r cynllun ar ganllawiau ymarfer gorau fel amcan barhaus.	Cam II 5.27	Isel	Y Tîm Rheoli Hŷn (Y Cyngor)	Ch 1 2003/4	Parhaus	

Argymhellion	Cyfeirnod adroddiad	Pwysig-rwydd	Cyfrifoldeb	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Nodiadau
Dylai'r Cyngor lunio adeiladwaith y gellir adolygu adrannau drwyddo yn gyfnodol i weld a oes opsiynau i gyflawni gwasanaethau yn fwy effeithlon, ac i gymharu'r adnoddau sy'n bodoli gyda symudiadau yn y gweithbwn sydd i'w gyflawni oddi mewn i'r adran. Dylai hyn gynnwys asesiad o'r dulliau amgen o gyflawni gwasanaethau ac ai dull staffio neu dull cyntundebu yw'r dull mwyaf addas. Dylid cynnwys crynodeb o'r gwaith hwn yn y Cynllun Corfforaethol er mwyn cynnig tystiolaeth eglur am symudiadau gwastadau effeithiolrwydd dros gyfnod y cynllun.	Cam II 5.33	Uchel	Cyngor Tîm Rheoli Uwch	Ch 1 2003/4 Ch 1 2003/4	Ch 1 2003/4 Ch 2 2003/4	Adeiladwaith Cynllun
Am resymau ymarferol, byddai'n ddefnyddiol petai'r adolygiad blynyddol o'r cynllun parhad busnes yn nodi cyfleusterau swyddfeydd yn Ne Cymru a allasai fod yn addas fel cyfleusterau brys petai trychineb llwyr yn digwydd yn Sefydliad Chwaraeon Cymru..	Cam II 5.42	Isel	Rheolydd TG		Erbyn diwedd 2003/4	
Y mae'n amser bellach i fynd i'r afael â'r polisi i'r Gymraeg a chredwn yn dylai'r Cyngor wynebu'r her o godi'r nodau ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl, gan ganolbwyntio ar weithgareddau sydd yn ymwneud â chwsmeriaid wyneb-yn-wyneb. Y mae hyn yn debyg o greu manau o ofyn dwys a fydd yn galw am sylw mewn manau megis Sefydliad Chwaraeon Cymru a De Orllewin Cymru, drwy ricriwtio ac hyfforddiant.	Cam II 5.59	Canolig	Cyngor	Ch 2 2003/4	Ch 3 2003/4	

Dylai'r Gyfarwyddiaeth nawdd adolygu ei brosesau trafod ceisiadau am gymeradwyaeth gan y Cyngor i sicrhau fod cyflymder yr ymateb yn briodol i fanylion yr achos, a bod cyfathrebu yn gweithio yn effeithiol gyda'r adrannau eraill y mae gofyn iddynt ymhel â'r ymateb.	Cam II 5.63	Uchel	Cyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Chymraeg	Ch 1 2003/4	Ch 2 2003/4	
Y mae Cyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Chymraeg yn datrys materion labelu nwyddau sy heb eu penderfynu ar ddatblygiadau a ariennir gan y loteri gyda CGMC er mwyn rhoi arweiniad pendant i'r Cyngor ar sut i reoli labelu prosiectau newydd.	Cam II 5.64	Canolig	Cyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Chymraeg	Ch 1 2003/4	Ch 2 2003/4	

2. Cyflwyniad

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn trafod ail ran yr Arolwg Pum Mlynedd Cyngor Chwaraeon Cymru (Y Cyngor). Mae cylch gorchwyl yr arolwg wedi ei atodi yn Atodiad A. Roedd Rhan I yn sôn am agweddau galw'r gwasanaethau gan geisio penderfynu pa fodd fyddai'r mwyaf addas ar gyfer eu cyflenwi. Mae Rhan II yn ymwneud yn fwy â'r ochr gyflenwi o gyflenwi effeithlonrwydd strategol ac mae'n ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

- *Pa rai yw prif gyflawniadau strategol y Cyngor? I ba raddau mae'n cwrdd â'l amcanion a pha faterion yn ymwneud â pherfformiad sydd angen delio â nhw?*
- *Pa mor effeithiol yw'r berthynas strategol rhwng y Cyngor a Llywodraeth y Cynulliad mewn cwrdd ag amcanion strategol, y themâu arweiniol a gwerthoedd y Cynulliad?*
- *Pa mor effeithiol mae cynllunio corfforaethol y Cyngor wedi bod wrth ddatblygu cyfeiriad strategol clir, yn gosod targedau a dosbarthu adnoddau? A yw'r broses gynllunio'n adlewyrchu dull integredig wrth ddelio â'l swyddogaethau?*
- *A yw'r Cyngor yn ddigon ymatebol i bartneriaid a chwsmeriaid? A oes modd i gryfhau'r berthynas rhyngddynt?*
- *A yw'r trefniadau adrodd rhwng y Cyngor a Llywodraeth y Cynulliad yn addas?*

2.2 Yn ychwanegol at hyn mae Rhan II'r adroddiad yn edrych ar nifer o faterion Llywodraeth Corfforaethol er mwyn darparu atebion i'r cwestiynau canlynol:

- *A yw'r trefniadau presennol yn addas – a oes ateblorwydd cyhoeddus digonol?*
- *A yw'r trefniadau rheolaeth ariannol a rheolaethol yn cwrdd â gofynion sefydledig?*
- *A yw'r adroddiadau archwilio yn creu hyder yn y modd mae'r Cyngor yn cael ei redeg? A yw'r pwyllgor archwilio yn gweithio'n effeithiol?*
- *A yw'r arian a'r asedau'n cael eu rheoli'n effeithiol mewn perthynas â'r gwerthusiadau polisi a cheisio gwerth-am-arian?*
- *A yw'r safonau'n cael eu cwrdd wrth drafod caffaeliadau, natur agored a thrafod cwynion?*
- *A oes gan y Cyngor drefniadau da ar gyfer monitro ansawdd ac effeithlonrwydd darparu gwasanaeth?*
- *A oes hanes da o wella effeithlonrwydd a chynlluniau cadarn ar gyfer y dyfodol?*

Materion i'w hadolygu ymhellach yn Rhan II yr Arolwg

2.3 Yn rhan I yr arolwg hwn, nodwyd nifer o faterion ar gyfer gwaith pellach yn rhan II. Mae'r tabl isod yn rhestru'r materion hyn ac yn cyfeirio at y paragraffau yn yr adroddiad hwnnw.

➤	6.52 y peirianwaith cyflenwi fydd yn galluogi'r Cyngor i ymestyn ei rôl adfocatiaeth a chryfhau ei waith mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant pobl broffesiynol a gwirfoddolwyr.
➤	y gefnogaeth a ddarperir gan y Cyngor i bartneriaid allweddol, gyda'r bwriad o ganolbwyntio'r fath gefnogaeth ar nifer cyfyngedig o feysydd sy'n hanfodol i'r partneriaid ac na all sefydliadau eraill eu darparu.
➤	y dull o ddarparu cefnogaeth i athletwyr elite mewn cysylltiad â chynigion ar gyfer y dyfodol ar gyfer y canolfannau cenedlaethol ac ariannu mwy penodol.

➤	y blaenoriaethau ar gyfer ariannu a rhinweddau canolbwyntio adnoddau ar lai o raglenni cymorth grant ac, ar lefel elite, o bosib ar llai o chwaraeon ac/neu ymgeiswyr.
➤	effeithlonrwydd ei rôl bresennol o godi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth.
6.53	Dylid rhoi ystyriaeth i'r sgiliau a'r profiad sydd ei angen i ddarparu yn erbyn agenda o newid.
8.17	Bydd angen adolygu'r broses gynllunio er mwyn sicrhau y gall gynnal amgylchedd mwy agored a chyfrannog.
8.24	Bydd angen adolygu gweithrediad y pwyllgorau sydd ddim yn bwyllgorau'r Loteri yn enwedig y Pwyllgor Taliadau.
8.25	Dylid adolygu rôl Aelodau'r Cyngor mewn Llywodraeth

2.4 Mae Crynodeb Weithredol adroddiad Rhan I wedi ei atodi er mwyn dibenion cyfeirio, yn atodiad B.

3. Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd – Swyddogaethau Allweddol y Cyngor

Arolwg o fesuriadau a thargedau perfformiad

3.1 Rydym wedi ystyried y broses o ddethol a defnyddio mesuriadau perfformiad a phennu targedau perfformiad. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol a ddefnyddir gan y Cyngor yn cynnwys:

- ❑ 13 dangosydd strategol sy'n mesur yr amcanion cyffredinol yn gysylltiedig â lefelau cyfranogaeth a rhagori.
- ❑ 10 dangosydd perfformiad lleol a 13 o rai cenedlaethol yn ymwneud â rhaglenni penodol ac agweddau ar berfformiad y Canolfannau Cenedlaethol.
- ❑ 8 dangosydd gwasanaeth ar gyfer datblygiad corfforaethol, marchnata a materion cyhoeddus, a gwasanaethau ariannol.

3.2 Mae'r Cyngor yn monitro'i berfformiad yn erbyn rhai neu'r cwbl o'r dangosyddion "lefel uchel" hyn ac yn adrodd arno mewn adroddiadau cyflawniad blynyddol a'r cynllun corfforaethol. Mae tabl yn crynhoi ei berfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn yn Atodiad C.

3.3 Mae'r cynllun gweithredol yn nodi set ychwanegol o ddangosyddion perfformiad a targedau rheolaeth ar gyfer pob rhaglen a phob maes gwasanaeth. Mae rhai rheolwyr gwasanaethau wedi cynhyrchu eu cynlluniau gweithredol manwl eu hunain hefyd, sy'n cynnwys y rhain a mesuriadau a thargedau mwy manwl.

3.4 Mae'r Cyngor wedi monitro tueddiadau mewn perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol yn y blynyddoedd diwethaf, a nodi ei berfformiad yn erbyn targedau'r gorffennol, ynghyd â thargedau'r flwyddyn gyfredol, lle bo gwybodaeth ar gael. Dylai'r arfer da hwn barhau.

3.5 Rydym wedi canolbwyntio ein harolwg ar y dangosyddion lefel-uchel ac ar y cwestiynau a ganlyn:

- ❑ A yw'r dangosyddion perfformiad a ddetholwyd yn mesur y canlyniadau allweddol mae'r Cyngor yn ceisio eu sicrhau?
- ❑ A yw'r dangosyddion perfformiad unigol yn ystyrion?
- ❑ A ydynt, gyda'i gilydd, yn rhoi darlun cyflawn o berfformiad?
- ❑ Sut mae'r Cyngor wedi perfformio yn erbyn y targedau a bennwyd?
- ❑ A yw'r targedau a bennwyd yn ddigon o her?

3.6 Mae'r dangosyddion strategol yn mesur perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau "Pobl Ifanc yn Gyntaf – Strategaeth ar gyfer Chwaraeon Cymru" y Cyngor, a fabwysiadwyd gan y Cyngor a'r Cynulliad ym 1999. Yng nghyfnod cyntaf yr arolwg pum-mlyneddol hwn, cawsom fod Pobl Ifanc yn Gyntaf yn strategaeth ar gyfer datblygu chwaraeon, ond nid yn strategaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Yng ngoleuni'r drafft cyfredol o strategaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru sy'n cael ei baratoi gan Lywodraeth y Cynulliad, argymhellion yr arolwg hwn a datblygiadau diweddar o ran deall sut i fesur perfformiad mewn chwaraeon, bydd rhaid adolygu Strategaeth Pobl Ifanc yn Gyntaf a'i mesuriadau perfformiad cysylltiedig.

3.7 O ran y mesuriadau a ddefnyddir ar hyn o bryd, credwn fod gwerth i'r mesuriadau cyfranogaeth strategol. Mae'r rhai cyfredol yn dynodi'n gyffredinol a yw'r canlyniadau a ddymunir, sef mwy o gyfranogaeth gan bobl o wahanol oedrannau, rhywiau a rhanbarthau, yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, gellid caboli'r wybodaeth a gynhyrchir a'r ffordd mae'n cael ei mynegi ymhellach. Byddai cynnwys mesuriadau amledd cyfranogaeth yn gysylltiedig â buddiannau i iechyd, a chysylltu hynny â chyfranogaeth fesul grŵp cymdeithasol, yn creu gwell dolen gyswilt rhwng chwaraeon a chanlyniadau ehangach hefyd. Er enghraifft, byddai mesur cyfranogaeth pobl ifanc mewn gweithgareddau all-gwricwlaidd, a chyfranogaeth oedolion ym mhob maes yn fwy ystyrion pe cyfeirid at amledd y gyfranogaeth honno, a phe mesurid lefel y gyfranogaeth yn erbyn y targed amledd cyfranogaeth yn ychwanegol at y mesuriad cyfredol, neu yn ei le. Byddai gallu dangos gwahaniaethau mewn lefelau cyfranogaeth fesul rhyw a grŵp cymdeithasol yn cynyddu gwerth y wybodaeth hefyd.

3.8 Mae diffinio a mesur llwyddiant ym maes rhagoriaeth yn fwy anodd. Mae'r mesuriadau cyfredol yn ymddangos yn rhesymol, er y gellir ystyried rhai o'r gwahanol ddulliau a nodir yn yr adroddiad diweddar, "Government Plan for Sport" yn Lloegr, e.e. defnyddio mesuriadau perfformiad ynghlwm wrth GDP/poblogaeth y pen mewn digwyddiadau mawr, neu ddatblygu trefn rhagoriaeth berthnasol i Gymru. Fel y nodwyd uchod, byddai adroddiadau mwy manwl yn gwneud y mesuriadau'n fwy ystyrion. Er enghraifft, nid yw'r mesuriad "y nifer o unigolion sydd wedi cynrychioli Prydain" yn dweud mewn unrhyw fodd a

yw hyn yn cyfeirio at oedolion neu bobl ifanc, ac nid yw'n dynodi a ydynt yn gynrychiolwyr yn y campau sydd o fwyaf o bwys i bobl.

3.9 Mae'r dangosyddion perfformiad a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau datblygu lleol a chenedlaethol yn canolbwyntio'n fwy ar gynnyrch nag ar ganlyniadau. O'r safbwynt hwnnw, does dim o'i le ar y dangosyddion a ddefnyddir, ond er bod nodi'r nifer o grantiau a roddwyd neu'r nifer o bobl a gefnogwyd yn cynnig lefel sylfaenol o wybodaeth nid yw'n dweud wrthym a wnaeth hynny'r argraff ddisgwyliedig. Dylai fod gan bob rhaglen neu ffrwd gyllid set glir o fesuriadau perfformiad, yn mesur cynnyrch a'r canlyniadau a ddymunir, a dylai casglu data meintiol ac ansoddol fod yn rhan o'r rhaglen ymchwil a gwerthuso. Efallai bydd angen rhoi cyfarwyddyd cliriach i rai sy'n derbyn grantiau o safbwynt eu rhan mewn casglu data a gwaith ymchwil.

3.10 Prin yw gwerth y dangosyddion perfformiad corfforaethol, marchnata a gwasanaethau cyllidol ac eithrio fel dangosyddion lefelau gwasanaeth. O ran nodi perfformiad corfforaethol, gellid gosod mesuriadau ehangach yn lle'r rhain, a fyddai'n mesur perfformiad y Cyngor yn ei grynswth, rhywbeth tebycach i'r Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau Corfforaethol y disgwylir i gynghorau lleol ei ddefnyddio. Mae angen dull cytbwys o fynd ati i fesur agweddau pwysicaf y busnes (cwsmeriaid, staff, ecwiti, cost-effeithiolrwydd, ac ati). Gallai mesuriadau o'r fath gynnwys lefelau boddhad ymhlith partneriaid, trosiant staff, neu lefel costau cyffredinol fel canran o'r buddsoddiad uniongyrchol mewn chwaraeon.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor gaboli'r dangosyddion cyfranogaeth strategol ac ystyried a allai mesuriadau rhagoriaeth amgen gynnig gwell darlun cyffredinol o berfformiad. Dylid gwneud gwaith pellach i lunio set glir o fesuriadau perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pob rhaglen a ffrwd gyllid, ar sail methodoleg yr amcangyfrifwyd ei chost. Dylai hyn fod yn rhan gynhenid o strategaeth ymchwil a gwerthuso ddiwygiedig. Dylid datblygu set newydd o fesuriadau er mwyn mynegi perfformiad corfforaethol.

3.11 Rydym wedi archwilio'r targedau a bennwyd ar gyfer dangosyddion perfformiad y Cyngor. Mae'r amrywiadau mawr mewn perfformiad yn erbyn rhai targedau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, e.e. y nifer o ganolfannau rhagoriaeth lleol, yn bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd y dangosydd a'r targed a bennwyd, a'u gallu i fesur perfformiad mewn modd defnyddiol ac ystyrlon, er ein bod yn cydnabod y gall hynny weithiau fod oherwydd ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Nid yw rhai o'r targedau a bennwyd yn ymddangos yn ddigon o her ychwaith, nac yn adlewyrchu yr hyn a gyflawnwyd eisoes, e.e. mae'r targed ar gyfer y canran o blant 11-16 oed sy'n aelodau o glybiau chwaraeon yn dal yn 73% ar gyfer 2003/04 a 75% ar gyfer 05/06, er gwaetha'r ffaith y cyrhaeddwyd y nod o 73% yn 2001/02.

Argymhelliad: Dylai'r arolwg perfformiad blynyddol bwysu a mesur amodau a llwyddiannau cyfredol, ystyried gwerth cyfredol y mesuriadau sy'n cael eu defnyddio a, lle bo hynny'n briodol, pennu targedau mwy anodd ar gyfer y dyfodol.

Y Gwasanaethau

3.12 Wrth archwilio effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth rydym wedi ystyried dau fater cyffredinol sy'n berthnasol i'r holl wasanaethau datblygu cenedlaethol a lleol – eiriolaeth, a recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr a hyfforddwyr proffesiynol – ynghyd â meysydd gwasanaeth unigol. Mae'r rhain yn cynnwys y meysydd y darganfu cyfnod cyntaf yr arolwg fod angen eu harchwilio ymhellach ynghyd ag arolwg cyffredinol o bob gwasanaeth i ddarganfod a ydynt yn bodloni ac yn ymateb i ofynion partneriaid a chwsmeriaid, ac a yw'r dulliau darparu a'r lefelau o adnoddau a ymrwymir yn debyg o sicrhau'r canlyniadau a fyynnir. Ymdrinnir â materion yn ymwneud ag ymchwil a gwerthuso a marchnata yn yr adrannau sy'n ymdrin â gwasanaethau corfforaethol.

Eiriolaeth¹

¹ Dadlau achos yn egniol.

3.13 Yng nghyfnod cyntaf yr arolwg nodwyd fod swyddogaeth y Cyngor fel eiriolwr² o blaid chwaraeon ar lefel lywodraethol a strategol, er mwyn cynorthwyo partneriaid i greu partneriaethau newydd a sicrhau mwy o fuddsoddiad mewn chwaraeon, yn swyddogaeth o bwys hanfodol. Datgelodd yr ymgynghori dechreuol na chanfyddid fod y Cyngor yn gwbl effeithiol yn y maes hwn. Yn y cyfnod hwn, rydym wedi adolygu'n fwy manwl ddisgwyliadau swyddogion y llywodraeth a sefydliadau eraill o ran swyddogaeth eiriolaeth y Cyngor; wedi archwilio dulliau gweithredu a gweithredoedd y Cyngor, a cheisio darganfod bylchau canfyddedig a gwirioneddol er mwyn llunio ein hargymhellion.

3.14 Yn ystod ein hymgyngoriad, nododd trawsdoriad o gynrychiolwyr o faes addysg, yr awdurdodau lleol, sefydliadau chwaraeon cenedlaethol a'r Cynulliad oll fod angen i'r Cyngor roi mwy o bwyslais yn ei waith ar amcanion ehangach y Cynulliad Cenedlaethol, ac enwyd iechyd gan fwy na dau-draean o'r ymatebwyr i'r arolwg fel maes hollbwysig y dylid rhoi sylw iddo. Yr ail faes o ran pwysigrwydd oedd addysg a dysgu gydol oes, gyda datblygu cymunedol, cynhwysedd cymdeithasol a diogelwch cymunedol yn dilyn hynny. Gwelir adeiladu perthynas gyda chynrychiolwyr iechyd, addysg, adfywio, a throstedd ac anhrefn, a'u darbwyllo o'r lles sy'n deillio o chwaraeon, o fewn y Cynulliad a thu hwnt, fel elfen hanfodol mewn sicrhau'r canlyniad hwn.

3.15 Ym marn Cyrff Rheoli Cenedlaethol, y prif angen oedd atgyfnerthu swyddogaeth eiriolaeth y Cyngor gyda chyrrff chwaraeon ehangach y DU, er i sawl un nodi'r angen am fwy o bwyslais ar iechyd hefyd.

3.16 Er i nifer o sefydliadau nodi'r angen am well eiriolaeth, mae llai o sicrwydd ynglŷn â sut y dylid gwneud hynny, a gyda phwy. Yr hyn sydd yn amlwg yw bod y rhan fwyaf o unigolion yn ystyried fod eiriol yn llwyddiannus yn golygu sicrhau nifer o ganlyniadau, a amlinellir isod, a'r farn gyffredinol yw nad yw'r canlyniadau hynny'n cael eu sicrhau yng Nghymru ac ar gyfer Cymru. Byddai eiriol yn llwyddiannus yn golygu:

- ❑ cydnabyddiaeth i fuddiannau chwaraeon o fewn cynlluniau strategol a chorfforaethol y tu allan i faes chwaraeon, e.e. Strategaethau'r Cynulliad; Strategaethau Iechyd a Lles Cymunedau; Strategaethau Trostedd ac Anhrefn; Cynlluniau Gwerth Gorau a Chorfforaethol Awdurdodau Lleol
- ❑ cydnabod anghenion athletwyr Cymru o fewn cynlluniau strategol a datblygu a mentrau'n ymwneud â chwaraeon ar lefel y DU.
- ❑ parodrwydd i gynnwys sefydliadau chwaraeon o'r cychwyn cyntaf yn y broses o gynllunio a darparu mentrau newydd sydd ag amcanion cymdeithasol, iechyd ac adfywio ehangach, a pharodrwydd i gydweithio i gyflawni amcanion cyffredin.
- ❑ buddsoddi mwy o adnoddau ariannol a dynol mewn chwaraeon (Cymreig), yn aml o ganlyniad i'r ffactorau uchod, e.e. cyllid sy'n cael ei ddyrannu i chwaraeon o fewn cyllideb iechyd neu addysg ar lefel y Cynulliad neu lywodraeth leol, neu cael cyfarwyddiaeth perfformiad lefel-DU i dreulio mwy o amser ar athletwyr Cymreig.

3.17 Mae'n amlwg ar sail ein hymgyngori nad yw rhai sefydliadau yn credu fod chwaraeon yng Nghymru, na'r Cyngor Chwaraeon, yn sicrhau'r lefelau o fuddsoddiad mae gwledydd eraill Prydain wedi eu sicrhau drwy eiriolaeth lwyddiannus. Er enghraifft:

- ❑ Yn yr Alban, mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo cyllid ychwanegol sylweddol i SportScotland dros 3 blynedd gyda'r cyllid gwaelodlin yn cynyddu o'r £12.5 miliwn presennol i £21.4 miliwn erbyn 2004/05. Rhwng 2003/04 a 2005/06 caiff cyfraniad o £10.7 miliwn ei fuddsoddi mewn chwaraeon ysgolion o'r Gronfa Gwella Iechyd.
- ❑ Sicrhodd Sport England, a fu'n gweithio gydag asiantaethau chwaraeon dylanwadol eraill yn ystod 2000-2002, fuddsoddiad sylweddol mewn Chwaraeon Ysgolion a Chymuned, yn cynnwys buddsoddiad drwy'r GCN o £750 miliwn, buddsoddiad Space for Sport and the Arts o £130 miliwn a £450 miliwn, dywedir, dros dair blynedd o

² Eiriol: . . . Pledio taer . . . cynghori neu annog yn daer, perswadio, ceisio perswâd . . . (Diffiniadau o Eiriadur Prifysgol Cymru)

arolwg gwario'r llywodraeth. Cafwyd ymrwymiad hefyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau i brif-ffrydio ac ehangu'r rhaglen Cydgysylltydd Chwaraeon Ysgol ymhellach.

3.18 O safbwynt yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd o ran eiriolaeth, mae'n amlwg fod hynny'n elfen bwysig o fewn gwaith y Cyngor, er nad yw hynny bob amser yn cael ei gydnabod. Mae'n amlwg fod gwaith eiriolaeth effeithiol wedi digwydd gyda rhai mudiadau, ac mae nifer o enghreifftiau o bartneriaethau a chanlyniadau positif. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi chwarae rhan egniol yn y tasglu AG a Chwaraeon Ysgol, gyda'r canlyniad y darparwyd £5 miliwn ychwanegol o'r gyllideb addysg ar gyfer 2003-2006 er mwyn gweithredu'r cynllun. Ar lefel ranbarthol, cynhaliwyd seminar yn y gogledd ar gyfer partneriaid y tu allan i faes chwaraeon ar fuddiannau chwaraeon a datblygwyd project chwaraeon yn y Rhyl sy'n cyfrannu tuag at ddiogelwch y gymuned, sy'n cynnwys nifer o bartneriaid o'r tu allan i'r maes. Mae unigolion o fewn y mudiad hwnnw yn parhau i ehangu a datblygu'r swyddogaeth honno hefyd. Er enghraifft, cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar gyda'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i drafod cyfraniad chwaraeon mewn ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Mae lluo o enghreifftiau eraill y gellid eu crybwyll.

3.19 Fodd bynnag, does dim cynllun clir ar gyfer gwaith eiriolaeth y Cyngor ac nid pawb o fewn y Cyngor sy'n derbyn pwysigrwydd y swyddogaeth eiriolaeth gyda chynrychiolwyr y llywodraeth a chyrrff y tu allan i'r sector ddiwylliannol. Nid ymddengys fod blaenoriaethau a mudiadau y dylid gweithio gyda nhw, a'r canlyniadau y dymunir eu sicrhau drwy'r fath waith yn cael eu hadolygu a'u cadarnhau yn rheolaidd. Nid yw hi'n amlwg fod y Cyngor yn trefnu ei adnoddau ei hun, nac yn cydgysylltu ag asiantaethau dylanwadol eraill yn y sector chwaraeon a diwylliannol, i sicrhau dull cyson a chwbl effeithiol o fynd i'r afael â'r materion hyn drwy ddylanwadu ar brosesau penderfynu allweddol ar lefel strategol, rhanbarthol a lleol.

3.20 Mynegwyd pryder ynglŷn â'r amser a gymer gwaith eiriolaeth. Er na ddylid bychanu oblygiadau'r fath waith, yn enwedig os yw'r neges yn syrthio ar glustiau byddar, mae'r diffyg cynllunio a chydgyssylltu cyfredol yn ddi-os yn golygu fod y gwaith sydd yn cael ei wneud yn llai effeithiol ac yn cymryd mwy o amser nag a ddylai.

Argymhelliad: Dylid datblygu cynllun eiriolaeth ar ôl ymgynghori â chynrychiolwyr asiantaethau allweddol eraill sy'n dadlau o blaid gwerth chwaraeon, a fydd yn nodi:

- ❑ Yr asiantaethau allweddol mae'r Cyngor ac eraill yn ceisio dylanwadu arnynt.
- ❑ Y canlyniadau a ddymunir.
- ❑ Gweithredu cydgysylltiedig ar lefel strategol, rhanbarthol a lleol.
- ❑ Pwy sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r swyddogaeth eiriolaeth o wahanol feysydd o fewn y Cyngor (Aelodau, Rheolwyr a Staff) neu o asiantaethau eraill.
- ❑ Sut y gellir annog partneriaid hefyd i ddadlau'r achos wrth y mudiadau a'r unigolion dan sylw, fel rhan o ffordd gydgysylltiedig o fynd ati.
- ❑ Yr adnoddau fydd eu hangen er mwyn dadlau'r achos a sicrhau'r canlyniadau allweddol.

3.21 Ail bwynt pwysig a ddeilliodd o bwysu a mesur y swyddogaeth eiriolaeth oedd wrth bwy y dylai'r Cyngor fod yn dadlau'r achos ac, yn enwedig, ei swyddogaeth mewn perthynas â iechyd.

3.22 Mae'r Cyngor o'r farn mai ei brif swyddogaeth yw cyflawni ei amcanion craidd sef cynyddu cyfranogaeth mewn chwaraeon a llwyddiant cystadleuwyr o Gymru. Mae'n ystyried mai cyfrifoldeb y sector iechyd a hyrwyddo iechyd yw'r nod ehangach o annog arddull fyw fwy egniol a mesur effaith chwaraeon ac arddull fwy egniol o fyw ar iechyd.

3.23 Mae'n amlwg nad dyna farn Cyfarwyddiaeth y Cynulliad na nifer o bartneriaid allanol. Mae'n rhaid gwneud cyfrifoldebau yn y maes hwn yn gliriach i bawb sy'n ymwneud ag ef, er mwyn rheoli disgwyliadau.

3.24 Mae nifer o asiantaethau a gyllidir gan y llywodraeth mewn gwledydd eraill sy'n gyfrifol am gynyddu cyfranogaeth mewn gweithgaredd corfforol, yn ogystal â chwaraeon, ac annog pobl i fyw bywydau mwy egniol. Mae Awstralia, Y Ffindir ac UDA ymhlith y mwyaf adnabyddus o'r rhain. Mae menter 'Active Australia' Comisiwn Chwaraeon Awstralia yn ceisio

cynyddu'r nifer o Awstraliaid sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn y tymor hir. Eu cam cyntaf oedd gwneud pobl yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd gweithgareddau corfforol drwy ymgyrchoedd amlwg iawn yn y cyfryngau; wedi adolygiad yn 2001, symudodd y pwyslais tuag at ddarparu rhaglenni i ehangu dalgylch clybiau a chymdeithasau chwaraeon a chynyddu eu haelodaeth. Yn UDA, prif nod Cyngor yr Arlywydd ar Ffitrwydd Corfforol a Chwaraeon yw annog mwy o Americanaid i fod yn fwy gweithgar yn gorfforol. Gyda chefnogaeth Swyddfa Iechyd y Cyhoedd a Gwyddoniaeth, mae ganddi swyddogaeth sydd yn cynnwys cael y genedl y ymddiddori mwy mewn gweithgareddau corfforol a chyfranogaeth gyson mewn chwaraeon, a sylweddoli buddiannau hynny; dod â gweithgareddau corfforol a chwaraeon o fewn cyrraedd mwy o bobl mewn partneriaeth â'r sectorau cyhoeddus a phreifat, a sicrhau fod mwy o wybodaeth a chyfarwyddyd ar gael am weithgareddau corfforol a chyfranogaeth mewn chwaraeon.

3.25 Yn y DU, mae Sport England a Sport Scotland yn rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'u hadrannau iechyd ac asiantaethau iechyd allweddol, er mai newydd ddechrau mae'r mentrau newydd hyn. Yn Lloegr, mae Cynllun y Llywodraeth ar gyfer Chwaraeon yn rhoi pwyslais llawer cryfach ar fuddiannau i iechyd fel cyfiawnhad dros fuddsoddiad y llywodraeth mewn chwaraeon. Mae'r gweithgareddau yn Lloegr yn cynnwys:

- Cyfnod gwaith i aelod o staff Sport England gyda'r Adran Iechyd.
- Cyllid i Sefydliad y Galon ar gyfer project iechyd. Mae hyn yn cynnwys swyddog penodedig yn gweithio mewn tri maes craidd: mapio'r holl fentrau a chyfleoedd chwaraeon, gweithgareddau corfforol a rhai'n gysylltiedig â iechyd yn naw rhanbarth Lloegr; datblygu pecyn chwaraeon, gweithgareddau corfforol a rhai'n gysylltiedig â iechyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol; cynnig cyngor, cefnogaeth a chyfleoedd datblygiad proffesiynol yn ymwneud â iechyd i staff Sport England. Mae pob rhanbarth wedi enwi swyddog a fydd yn arwain ar iechyd.
- Gweithio gyda'r Adran Iechyd a'r Asiantaeth Gefn Gwlad i gyllido a gwerthuso rhaglen genedlaethol i ddarganfod ffyrdd o gael pobl i fod yn fwy egniol. Maent ar fin cyhoeddi'r fenter newydd hon, a fydd yn cynnwys naw project Peilot Ymarfer Lleol ledled Lloegr.

3.26 Yn yr Alban cyhoeddwyd "Lets make Scotland more active – a strategy for physical activity" ym mis Chwefror 2003 gan y Tasglu Gweithgaredd Corfforol. Mae Cydgysylltydd Gweithgaredd Corfforol wedi cael ei benodi ar leoliad gwaith o'r Adran Iechyd i oruchwylio gweithredu'r cynllun ar y cyd â phartneriaid allweddol. Mae Sport Scotland wedi chwarae rhan weithgar yn y tasglu ac fe'i gwelir fel partner allweddol o ran gweithredu'r cynllun. Pennwyd targedau gweithgaredd corfforol allweddol sydd yn ymwneud ag amledd a dwysedd y gyfranogaeth sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal iechyd a ffitrwydd.

3.27 Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn cydnabod fod angen ymgysylltu â iechyd a chymerodd ran weithredol yn nyddiau cynnar datblygu'r gweithlu iechyd a Dulliau Byw Egniol, cyn y gwnaeth Cynghorau Chwaraeon gwledydd eraill y DU. Fodd bynnag, prin fod y ddogfen ymgynghori a'r cynllun gweithredu a ddeilliodd o hynny wedi gwneud llawer o ran datblygu partneriaethau positif rhwng chwaraeon a iechyd, a chydgyssylltu gweithredu i sicrhau cyflawni'r amcan cyffredin. Mae hyn yn ymddangos fel cyfle a gollwyd o safbwynt yr holl asiantaethau o dan sylw, a chwaraeon yn gyffredinol. Yn wyneb yr amser a dreuliwyd gan y tasglu ar ei ddatblygu, ac o safbwynt penderfynu, efallai y bydd asesiad beirniadol a gonest o'r anawsterau a wynebwyd a'r methiant i'w datrys gan yr holl bartneriaid yn helpu i sicrhau na chyfyd sefyllfa debyg yn y dyfodol.

3.28 Er bod y Cyngor yn cynnwys cyfeiriadau at amcanion iechyd ehangach yn ei gynlluniau corfforaethol a gweithredol, nid yw bod amser yn eglur iawn ynglŷn â chyfraniad rhai o'i raglenni tuag at well iechyd. Mae hyn yn gysylltiedig â'r pwyntiau cynharach ynglŷn â'r angen am lunio mesuriadau canlyniadau ehangach ar gyfer rhai rhaglenni, ac am roi mwy o ystyriaeth i fesur effeithiau amgen na chynyddu cyfranogaeth yn unig.

Argymhelliad: Fod y Cyngor, drwy drafodaeth gyda swyddogion y Cynulliad (Iechyd a Chwaraeon) ac asiantaethau allweddol eraill, yn ailystyried ei swyddogaeth a'i amcanion parthed iechyd. Dylai hyn gynnwys:

- ystyried ehangu nod y Cyngor o gynyddu cyfranogaeth i adlewyrchu mai un rheswm am geisio cael mwy o gyfranogaeth mewn chwaraeon yw gwella iechyd a lles pobl Cymru.

- ❑ egluro swyddogaeth y Cyngor o ran hyrwyddo gweithgaredd corfforol, yn hytrach na dim ond chwaraeon.
- ❑ ailystyried cynllun gweithredu'r Tasglu Iechyd a Dulliau Byw Egniol, gan wneud disgwyliadau a swyddogaethau ar gyfer y dyfodol yn gliriach.

Recriwtio, Hyfforddia Chefnogi Gwirfoddolwyr a Hyfforddwyr Proffesiynol

3.29 Nodwyd swyddogaeth y Cyngor ym maes addysg a hyfforddiant fel maes y dylid ei ystyried ymhellach yn ail gyfnod yr arolwg. Ar ôl archwilio'r mater ymhellach, mae'n glir fod cyflenwad digonol o wirfoddolwyr a hyfforddwyr proffesiynol hyfforddedig i gefnogi a darparu gwahanol gyfleoedd chwaraeon yng Nghymru yn sail i'r holl ddarpariaeth bresennol a'r dyfodol. Rydym felly wedi ystyried addysg a hyfforddiant yn y cyd-estun ehangach hwn.

3.30 Ar hyn o bryd, nid oes strategaeth addysg a hyfforddiant yn bod ar gyfer y sector chwaraeon a hamdden yng Nghymru a dim ymgais i gydgysylltu'r gwahanol asiantaethau sy'n ymddiddori yn y maes. Nis oes gan y Cyngor swyddog sy'n arwain ar addysg a hyfforddiant. Ymdrinir â materion addysg a hyfforddiant gan nifer o staff yn y Gwasanaethau Datblygu Cenedlaethol a Lleol, yn cynnwys Rheolydd Rhanbarthol y Gogledd, Rheolydd Gwasanaethau'r Cyrrff Rheoli Cenedlaethol, y Swyddog Hyfforddi, Swyddog Datblygu Chwaraeon y Ddraig, a Rheolydd AG a Chwaraeon Ysgol.

3.31 Mae gwaith y Cyngor yn cynnwys rhywfaint o gefnogaeth i sefydliadau addysg a hyfforddiant a darparu cyfleoedd hyfforddi uniongyrchol drwy weithio gydag asiantaethau allweddol eraill fel awdurdodau lleol a Sportscoach UK. Mae'r Cyngor Chwaraeon wedi ymrwymo £25,000 y flwyddyn i SPRITO Cymru am dair blynedd i weithredu Cynllun Gweithredu ar addysg a hyfforddiant. Mae ELWa (Dysgu ac Addysgu Cymru) wedi cyfrannu'n ariannol hefyd, er nad yw'r cyfraniad wedi ei gadarnhau ar gyfer y dyfodol ar adeg llunio'r adroddiad hwn. Mae'r targedau allweddol ar gyfer 2005 yn cynnwys paratoi Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Gymreig ar gyfer y sector, cysoni cymwysterau hyfforddi a'r fframwaith cenedlaethol newydd, ac achredu a chofrestru holl ddarparwyr hyfforddiant Cymru i safonau cenedlaethol. Mae'r gwaith yma newydd ddechrau cael ei ddatblygu. Yn ein barn ni, mae'r bartneriaeth rhwng SPRITO, y Cyngor ac ELWa yn ddatblygiad positif ond testun pryder yw'r ffaith nad oes digon o adnoddau wedi cael eu hymrwymo er mwyn gallu symud ymlaen i weithredu ar fyrder yn y fath faes hanfodol.

3.32 Mae datblygiad a chefnogaeth hyfforddwyr a gwirfoddolwyr yn feysydd y mae'r Cyngor wedi dweud ei fod yn eiddgar i'w datblygu ymhellach, ac mae'n rhoi cefnogaeth ariannol sylweddol iddynt drwy grantiau Cyrrff Llywodraethol, Grantiau Datblygu Chwaraeon Lleol a'r Gist Gymunedol. Mae argymhellion y Tasglu Hyfforddi yn Lloegr wedi rhoi mwy o amlygrwydd i hyfforddi ar hyn o bryd. Os cânt eu gweithredu'n llwyddiannus yn Lloegr heb ddatblygiad tebyg yng Nghymru, yna fe allai hyfforddi yng Nghymru syrthio ymhellach ar ei hól hi a bod mewn perygl o orfod derbyn newidiadau heb ystyriaeth briodol i beth fyddai orau o safbwynt buddiannau chwaraeon yng Nghymru.

3.33 Mae'n amlwg fod rheolwyr a staff datblygu'r Cyngor yn sylweddoli nad yw'r ffordd bresennol o fynd ati na'r isadeiledd yng Nghymru yn ddigonol, a rhaid unioni hynny er mwyn gallu cyflawni'r nodau tymor hwy ar gyfranogaeth a rhagoriaeth. Ymddengys fod trafodaeth wedi bod yn mynd yn ei blaen ers tair blynedd o leiaf ynglŷn â sut i ddatrys y problemau, gyda Phapur Hyfforddi a Gwirfoddoli y cytunwyd arno gan y Cyngor yn 2001, ac eto, does dim gweledigaeth dymor-hir neu unrhyw fath o gynllun o hyd ar gyfer recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr a hyfforddwyr. Nid ymddengys fod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i'r maes hwn ar hyn o bryd, o ran dyrannu adnoddau. Nid yw'r diffyg cyfarwyddyd clir yma yn helpu'r Cyngor i ddadlau'r achos dros fudsoddiad o ffynonellau eraill.

3.34 Fodd bynnag, mae pethau wedi gwella mewn rhai meysydd penodol. Elfen bwysig o fewn y cynllun gweithredu AG a Chwaraeon ysgol yw darparu hyfforddiant dechreuol a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon. Mae swyddog hyfforddi a gweinyddu newydd ar fin dechrau gweithio ac bydd cynllun clir yn cael ei weithredu. At hynny, penodwyd swyddog â chyfrifoldeb am recriwtio a dal gafael ar wirfoddolwyr ar gyfer Chwaraeon y Ddraig, ac mae gwaith da yn cael ei wneud yn awr, e.e. cynhyrchu cynllun recriwtio a chadw

gwirfoddolwyr ar gyfer cydgysylltwyr Chwaraeon y Ddraig, y gellir ei ehangu yn y dyfodol os pennir cyfeiriad clir. Mae cysylltiadau'n bod gyda mudiadau sector gwirfoddol eraill fel Cyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol, a gwyddom fod dull newydd o ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i hyfforddwy'r dan ystyriaeth.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor fynd ati i lunio strategaeth dymor-hir ar gyfer recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr a hyfforddwy'r proffesiynol, gyda nodau clir sy'n cysylltu â'r agenda addysg ehangach yn ogystal â sicrhau canlyniadau o safbwynt chwaraeon. Dylid rhoi mwy o flaenoriaeth o fewn rhaglen waith y Cyngor yn y dyfodol i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir yn y maes hwn. Byddem yn awgrymu y dylai maes mor bwysig fod â swyddog penodol o blith rheolwyr uwch i arwain y gwaith, ac y dylid ystyried sefydlu uned fechan bwrpasol ar gyfer y maes hwn.

Gwasanaethau Datblygu Cenedlaethol

3.35 Tri maes llafur craidd y Gwasanaethau Datblygu yw Elite Cymru a'r gwasanaethau cefnogi a ddarperir ar gyfer athletwyr elite gan y tim hyfforddi, gwyddoniaeth chwaraeon a meddygaeth chwaraeon; Gwasanaethau'r Cyrff Llywodraethol; a'r Canolfannau Cenedlaethol. Mae 20 o staff llawn- a rhan-amser yn gweithio i'r GDC, gyda'r Athrofa a Phlas Menai'n cyflogi hyd at 100 o staff eraill llawn- a rhan-amser ac achlysurol.

Elite Cymru a Chefnogaeth Hyfforddi, Gwyddoniaeth Chwaraeon a Meddygaeth Chwaraeon

3.36 Mae'r model canolbwyntio ar gystadleuwyr, a fabwysiadwyd gan y Cyngor i alluogi athletwyr i gyflawni eu haddewid, yn fframwaith cadarn i'r Cyngor weithredu o'i fewn. Cefnogir athletwyr elite a rhai a allai gyrraedd y statws hwnnw gyda chymorth ariannol a gwasanaethau cefnogi, a ddarperir yn ganolog yn yr Athrofa, gan mwyaf, yn cynnwys defnydd cyfleusterau, gwyddoniaeth chwaraeon, meddygaeth chwaraeon a chyngor gyrfaoedd.

3.37 Ar hyn o bryd, mae 129 o athletwyr unigol mewn 33 o gampau gwahanol yn derbyn cefnogaeth Elite Cymru. Mae academiau hefyd ar gyfer criced, hoci a phêl-rwyd yn cefnogi 37 o athletwyr eraill. Mae gwasanaethau'n cael eu darparu gan rwydwaith staff sy'n cynnwys rheolydd Elite Cymru, swyddog datblygu, a dau swyddog gweinyddol. Mae hyfforddi, gwyddoniaeth chwaraeon a meddygaeth chwaraeon yn cyflogi rheolydd, pum ffisiolegydd/ seicolegydd, hyfforddwr cryfder a chyflwr, a swyddog hyfforddi. Ychwanegir technegydd labordy a meddyg meddygol rhan-amser cyn hir. Mae cymorth ar gael i athletwyr gyda ffisioleg, seicoleg, biomecaneg, maeth a chyflyru mewn canolfannau eraill, fel Prifysgol Cymru Bangor ac Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru yn Wrecsam, a thrwy ymgynghorwyr annibynnol. Mae 21 cyflenwydd gwasanaethau cymeradwy, er bod y graddau y manteisir ar eu gwasanaethau yn amrywio. Y flaenoriaeth i wasanaethau'r Athrofa yw ateb gofynion athletwyr Elite Cymru a'r academiau, er y gall athletwyr unigol a Chyrff Llywodraethol dalu am y gwasanaethau hyn hefyd. Gweithio ar sail ymateb i anghenion athletwyr a wna staff yn bennaf, ar hyn o bryd.

3.38 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Cyrff Rheoli Chwaraeon (CRh) i bennu'r safon perfformiad mae rhaid i athletwyr ei chyrraedd o fewn pob camp a disgyblaeth. Mae hyn yn golygu fod safonau'n amrywio rhwng gwahanol chwaraeon. Y Cyrff Rheoli sy'n datgan pan fo athletwyr wedi cyrraedd y safon angenrheidiol, a phryd hynny, rhaid i'r athletwyr eu hunain gwblhau ffurflen gais. Mae'r ffurflen yn cael ei gwirio wedyn gan swyddog technegol o fewn y CRh a fydd yn cynnig barn ar bosibiliadau'r unigolyn dan sylw, cyn gosod y cais ger bron y Cyngor. Bydd swyddogion o Elite Cymru a gwasanaethau Cyrff Rheoli yn asesu'r cais yn erbyn system sgorio safonol sy'n ystyried statws gystadleuol y gamp, cynrychiolaeth/safle'r ymgeisydd a'u gorchestion blaenorol, y rhaglen arfaethedig o baratoi a chystadlu, ac asesiad y corff rheoli. Bydd swyddogion yn gosod argymhelliad ger bron y Panel Rhagoriaeth Cenedlaethol am benderfyniad terfynol.

3.39 Mae trefn ysgrifenedig ar gyfer gweinyddu'r grant, sy'n cofnodi proses glir heb nemor ddim disgwyliadau o safbwynt hysbysu ymgeisydd o benderfyniadau a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny.

3.40 Mae Elite Cymru ar gael i unigolion ym mhob camp gydnabyddedig. Fodd bynnag, mae gan Elite Cymru broses flaenoriaethu fewnol ar draws tri chategori o chwaraeon. Mae athletwyr, gan hynny, yn derbyn gwahanol lefelau o gefnogaeth a gwasanaethau. Mae athletwyr sy'n cyrraedd y safon briodol yn y 45 camp sydd yn dod o fewn categorïau A a B yn derbyn cyllid ac amrywiaeth o wasanaethau cefnogi. O fewn categori C (70 o chwaraeon eraill) cefnogir llai o athletwyr ac ni allant fanteisio ar wasanaethau cefnogi.

3.41 Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, bydd athletwyr elite yn derbyn £753,133 mewn grantiau perfformiad a chynhaliadaeth. Bydd 69% o gyfanswm y grantiau yn mynd i athletwyr mewn deg camp (yn nhrefn maint y grantiau a dderbyniwyd): golff, badminton, seiclo, athletau, paffio, sboncen, saethu, chwaraeon anabl, canwïo a thennis bwrdd. Mae 11 o athletwyr o chwaraeon categori C yn cael eu cyllido ar hyn o bryd, ac mae cyfanswm eu cyllid nhw yn 3.9% o gyfanswm y grantiau. Nid yw Elite Cymru yn sefyll yn ei unfan. Rhwng 2000 a 2002, collodd 23, 31 a 53 o athletwyr eu cyllid, a chychwynnodd 51, 53 a 44 o athletwyr newydd ar y cynllun yn y blynyddoedd hynny.

3.42 Mae'r rhan fwyaf o gyrff rheoli ac athletwyr elite a holwyd yn ystyried fod Elite Cymru yn ffynhonnell gefnogaeth effeithiol i athletwyr Cymreig. Credai'r holl athletwyr ei fod wedi effeithio'n bositif iawn ar eu perfformiad a chredai'r rhan fwyaf ei fod wedi trawsnewid pethau iddynt. Ni nodwyd unrhyw broblemau o bwys gyda'r broses weinyddol a thalu, ac roedd athletwyr yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarparwyd a'r staff fu'n ymwneud â nhw. Mae hyn yn cefnogi canlyniadau ymchwil 2001 gan y Cyngor ar sail sampl ehangach o athletwyr. Mae canlyniadau positif wedi cael eu sicrhau ar achlysuron pwysig hefyd. Yn Chwaraeon y Gymanwlad yn 2002, daeth Cymru'n bedwerydd yn y tabl medalau y pen, o flaen gwledydd eraill y DU. Roedd 87% o enillwyr medalau'n gyn-aelodau neu'n aelodau cyfredol o'r cynllun Elite Cymru.

3.43 Fodd bynnag, denodd nifer o broblemau neu welliannau arfaethedig sylwadau gan athletwyr Elite Cymru:

- Y lefel o gyllid ar gyfer athletwyr unigol – nododd lleiafrif eu bod yn credu ei fod yn annigonol. Mynegodd un Corff Rheoli'r farn y dylid cyllido llai o athletwyr fel y gellir rhoi mwy o adnoddau i bob unigolyn.
- Safonau – nododd rhai fod y safon yng Nghymru ar gyfer derbyn cyllid fel athletwyr elite yn uwch nag yn rhannau eraill y DU. Nododd un person hefyd fod athletwyr mewn gwahanol gampau sy'n cael llwyddiant cyffelyb, yn eu barn nhw, yn derbyn gwahanol lefelau o gymorth, a theimlid fod hynny'n annheg.
- Y broses ymgeisio – teimlid fod hon yn cymryd gormod o amser, yn enwedig pan oedd ymgeisydd unigol wedi gosod cais ger bron am lefel o gyllid nad oedd wedi ei sicrhau, ac yn gorfod ailgyflwyno cais wedyn am lefel is o gyllid.
- Y rheolaethau llym ar sut y gellir gwario'r arian a'r drefn hawlio – teimlai nifer o athletwyr nad oedd y ffaith fod rhaid iddynt ddefnyddio'r grant yn y ffordd a amlinellwyd yn eu cais gwreiddiol (ac yna blynyddol) yn caniatáu iddynt ei defnyddio yn y modd a oedd efallai'n gweddu orau iddynt, gan ystyried y gallai eu gofynion fod wedi newid yn ystod blwyddyn. Teimlid hefyd fod y ffaith eu bod yn gorfod cyflwyno derbynebaw neu dystiolaeth o wariant yn golygu na fyddai athletwyr weithiau'n cael yr ad-daliadau dyledus am nad oeddynt bob amser yn cofio codi'r derbynebaw priodol! Fodd bynnag, mae'n amlwg fod y system yn caniatáu newid pan fo anaf, gan fod yr athletwyr ag anafiadau y siaradwyd â nhw yn derbyn lefel wahanol a phriodol o gefnogaeth, yn wahanol i'r dull gwreiddiol o fynd ati a gynigiwyd.
- Arolwg cyfyngedig o anghenion a diffyg cysylltiad â'r Cyngor – Doedd neb o'r athletwyr yr ymgynghorwyd â nhw wedi cael cyfarfod arolwg rheolaidd gyda'r Cyngor i asesu eu hanghenion cyfnewidiol neu ofynion yn y dyfodol. O safbwynt hysbysu'r Cyngor o'u llwyddiannau, dywedodd yr holl athletwyr mai'r drwy'r ffurflenni misol neu flynyddol y byddent yn hysbysu'r Cyngor o'u llwyddiannau, er nad ymddengys fod unrhyw ymateb yn deillio o hynny. Dywedodd un athletwraig yr hoffai pe bai'r Cyngor "yn ymddiddori'n fwy gweithredol yn ei llwyddiannau ac efallai cysylltu â hi ar y ffôn nawr ac yn y man i weld sut roedd hi'n dod yn ei blaen."

- ❑ Canfyddiad mai dim ond yn ystod oriau swyddfa dyddiau'r wythnos mae rhai gwasanaethau, er enghraifft, y ffisiolegydd, ar gael. Deallwn fod amodau staff yn cynnwys gweithio y tu allan i'r oriau safonol ac y dylai gwasanaethau fod ar gael ar adegau eraill. Fodd bynnag, nid dyna oedd profiad un o'r rhai a holwyd.

3.44 Yn gyffredinol, barnwn fod y Cyngor ar hyn o bryd yn darparu gwasanaeth cefnogi effeithiol, gan ddefnyddio'r lefel briodol o adnoddau staff a werthfawrogir gan athletwyr elite. Mae'r cyfuniad o gefnogaeth ariannol a gwasanaethau a ddarperir yn ganolog yn ffordd effeithiol o fynd ati o fewn terfynau'r adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, carem argymell y dylai'r Cyngor adolygu'n rheolaidd a ellir darparu gwasanaethau'n fwy hyblyg i athletwyr sy'n methu defnyddio'r Athrofa neu sy'n ei defnyddio'n bennaf y tu allan i oriau swyddfa safonol.

3.45 Gwyddom fod y Cyngor wrthi'n adolygu'r flaenoriaeth a roddir i wahanol chwaraeon ac athletwyr a'i fod, gan ymgynghori â Chyrff Rheoli, yn llunio rhestr fer o athletwyr sydd â blaenoriaeth uchel er mwyn eu cefnogi'n weithredol. Bydd hynny'n cynnwys asesiadau mwy cyson o'u hanghenion gydag athletwyr a'u hyfforddwyr. Cefnogwn y ffordd hon o fynd ati.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor gwblhau ei waith gyda'r Cyrff Rheoli i flaenoriaethu athletwyr a gweithredu'n fwy egniol o ran darparu cefnogaeth. Dylai'r broses hon ystyried hefyd yr argymhellion isod yn ymwneud â chwaraeon y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

Gwasanaethau Cyrff Rheoli

3.46 Prif swyddogaeth y Gwasanaethau Cyrff Rheoli yw cynnig cefnogaeth datblygu i 61 o Gyrff Rheoli cydnabyddedig, er mwyn gwella safonau perfformiad a chyfrannu tuag at lwyddiant Cymru ar lefel elite. Darperir hyn gan dim staff sy'n cynnwys rheolydd, pum swyddog datblygu a swyddog gweinyddol. Darparwyd gwerth £2.96 miliwn o gymhorthdal i 42 o Gyrff Rheoli yn 2001-02 drwy grantiau Cefnogi Datblygiad, Coach Cymru a Hyfforddwyr Elite/Gwadd. Darparwyd cymorth ymarferol hefyd drwy gymhorthdal cyfleusterau a'r gyllideb llety (defnydd o'r canolfannau cenedlaethol) a grantiau cefnogi gwyddoniaeth chwaraeon. Darperir cyngor proffesiynol gyda pharatoi a gweithredu cynlluniau strategol a datblygu; cynllunio trefniadaeth a busnes/moderneiddio, ac amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â rheolaeth, sef diogelu plant a rheolaeth a hyfforddiant staff a hyfforddwyr. Yr adran hon sydd hefyd yn gyfrifol am weinyddu'r grantiau ac arolygon grant blynyddol i sicrhau fod y Cyngor yn cael gwerth am arian ar ei fuddsoddiad.

3.47 Nodwyd fod gan dim cenedlaethol y Cyngor berthynas dda gyda'r rhan fwyaf o Gyrff Rheoli'r chwaraeon amatur a gyda Chymdeithas Chwaraeon Cymru (CChC), y corff sy'n eu cynrychioli. Mae'r Cyrff Rheoli wedi eu cynrychioli ar CChC drwy fod yn aelodau cyfetholedig o'r Cyngor Chwaraeon a thrwy gadeirio Paneli Grantiau'r Cyrff Rheoli. Ystyrir fod staff CRh y Cyngor yn wybodus ac yn gallu darparu'r cyngor priodol "cyn gynted ag y byddant yn gyfarwydd â'r maes". Mae'r rhybudd hwn gan sawl CRh yn adlewyrchu'r trosiant mewn swyddogion cydgysylltu CRh, gyda'r Cyrff hwythau'n teimlo y gall gymryd cymaint â blwyddyn i rai staff ymgyfarwyddo â'u camp a'r corff priodol. Dywedodd un CRh eu bod wedi cael pum swyddog cydgysylltu gwahanol yn yr wyth mlynedd diwethaf.

3.48 Mae trosiant cymharol uchel o staff wedi bod o fewn Gwasanaethau Cyrff Rheoli a'r adrannau Meddygaeth Chwaraeon a Gwyddoniaeth Chwaraeon yn y blynyddoedd diwethaf. Ymddengys fod a wnelo hyn â'r cynnydd yn y galw am staff â'r sgiliau a'r profiad hyn ymhlith Cyrff Rheoli a sefydliadau chwaraeon cenedlaethol eraill, er enghraifft, pan ddaeth Athrofeidd Chwaraeon y DU a'i gwledydd i fod, ar adeg pan nad oedd llawer iawn o ymgeiswyr â phrofiad o'r fath. Mae'n debyg y telir cyflogau gwahanol am swyddi cyffelyb gan wahanol Gynghorau Chwaraeon a Chyrff Rheoli eraill, yng Nghymru a thu draw i Glawdd Offa, fel y gall y rheini sydd am ennill mwy neu sydd am ehangu eu profiad feddwl o ddirif am symud i rywle arall. Efallai y bydd y cynnydd diweddar mewn cyflogau a ddyfarnwyd gan y Cyngor yn cwtogi ar hyn yn y dyfodol, er y byddem yn argymell fod hwn yn faes y dylid ei fonitro er mwyn sicrhau gwasanaeth di-dor.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor fonitro'r trosiant staff o fewn Gwasanaethau Cyrff Rheoli a'r adrannau Meddygaeth Chwaraeon a Gwyddoniaeth Chwaraeon a chyplisu hyn wrth waith y

pwyllgor cyflogau (gweler argymhelliad diweddarach 5.10). Dylid adolygu'r drefn hyfforddi a sefydlu, gan ymgynghori â'r Cyrff Rheoli, i weld a oes dull "llwybr cyflym" mwy effeithiol o gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth swyddogion o'r Cyrff Rheoli maent yn gyfrifol amdanynt a materion perthnasol eraill.

3.49 Yn gyffredinol, nid yw cysylltiadau'r Cyngor â Chyrff Rheoli chwaraeon proffesiynol mor gryf, yn enwedig yn achos rygbi a phêl-droed. Ceir cysylltiadau â chefnogaeth ar lefel amatur gymunedol er bod rhai wedi mynegi pryder nad yw swyddogion cyswllt yn darparu cymaint o gefnogaeth weithredol i'r rhain ag i Gyrff Rheoli eraill. Nid oes gan y Cyngor gysylltiadau cryf â'r rhai sy'n ymwneud â lefel broffesiynol y chwaraeon.

Argymhelliad: Yn unol â'r argymhellion blaenoriaethu isod, dylai'r Cyngor geisio cryfhau ei gysylltiadau â'r chwaraeon proffesiynol hynny y cadarnhauyd eu bod yn flaenoriaeth.

3.50 Rydym wedi ystyried y broses ymgeisio, asesu a dyfarnu grantiau ar gyfer cyllid Cefnogaeth Datblygu a Coach Cymru. Mae'r broses yn fanwl, gyda staff ac Aelodau Panel yn chwarae rhan weithredol ynddi. Mae'r brif ffurflen gais ar gyfer Cyrff Rheoli mwy yn cynnwys 11 adran ac mae'n gofyn am wybodaeth fanwl am y cyllid a geisir, ar beth y caiff ei wario, a beth yw'r canlyniadau a ddisgwylir. Mae'n ffurflen gymhleth y cymer gryn amser i'w llenwi. Mae ffurflen ychydig yn llai cymhleth ar gael ar gyfer Cyrff Rheoli llai. Panel Cefnogaeth Datblygu Gwasanaethau Cyrff Rheoli Cenedlaethol y Cyngor sy'n penderfynu ar grantiau o fwy na £50,000; dirprwyir y cyfrifoldeb am grantiau llai na £50,000 i swyddogion. Erbyn diwedd 2003, bydd 20 o gyfarfodydd panel wedi cael eu cynnal. Mae Cyrff Rheoli yn gwerthfawrogi'r cyfle bob blwyddyn i 'roi achos ger bron' aelodau'r panel a thrafod materion allweddol; fodd bynnag, mae'r ffordd hyn o fynd ati yn cymryd llawer o amser aelodau panel.

3.51 Credwn fod y ffordd gyffredol o fynd ati yn llyncu gormod o amser swyddogion ac aelodau panel, mewn perthynas â'r lefel o gyllid sy'n cael ei ddyrannu, a faint o fenter yw rhoi rhai o'r grantiau. Byddai hefyd yn ddymunol rhyddhau mwy o amser swyddogion er mwyn iddynt allu weithio'n fwy gweithredol, gyda'r chwaraeon blaenoriaethol o bosib. Gwyddom fod y Cyngor yn ystyried nifer o ffordd y gellid newid y broses benderfynu.

Argymhelliad: Fod y Cyngor yn adolygu'r system ymgeisio bresennol am grYantiau Cefnogaeth datblygu a Coach Cymru ac yn ystyried, yn enwedig:

- Symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer Cyrff Rheoli sy'n derbyn cyllid o £100,000 neu lai. Gallai hyn olygu ffurflen gais a chynllun symlach, i'w cyflwyno ddwywaith y flwyddyn, gyda swyddog wedi ei ddirprwyo i benderfynu.
- Dylid gofyn i'r Cyrff Rheoli mwy i osod cynlluniau pedair-blynedd ger bron, i'w hadolygu ddwywaith y flwyddyn. Rydym yn cefnogi cynnig y Cyngor, sef arolwg manwl dan arweiniad swyddogion, gyda'r meysydd blaenoriaeth sy'n destun pryder neu lle mae cyfleoedd yn codi yn cael eu trafod wedyn gan Panel. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r nifer o gyfarfodydd panel y byddai angen eu cynnal bob blwyddyn.
- Cyfarwyddo llai ar Gyrff Rheoli sy'n arddangos eu gallu i gynhyrchu'r canlyniadau a fynnir, a rheoli eu sefydliad a'u cyllid yn effeithiol.

3.52 O fewn strategaeth y Cyngor ar gyfer datblygu rhagoriaeth, dywed fod "buddsoddiad y Cyngor mewn perfformiad a rhagoriaeth wedi ei gyfeirio at y chwaraeon hynny sydd ag isadeiledd cynhwysfawr a sefydlog y gellir adeiladu arno", er na ddynodir pa chwaraeon sy'n bodloni'r meini prawf hynny. Rydym wedi adolygu'r cyllid i Gyrff Rheoli ar sail ffigurau a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer 2001-2002. Er nad oes datganiad o bolisi eglur i ddweud pa chwaraeon sy'n cael blaenoriaeth, mae'n amlwg fod blaenoriaethu'n digwydd. Mae gwariant ar ffurf grantiau uniongyrchol (yn hytrach na chefnogaeth ymarferol fel defnydd cyfleusterau a llety) yn tanlinellu'r ffaith fod y 10 camp uchaf yn derbyn 66% o'r holl gyllid a bod yr 20 camp uchaf yn derbyn 94% o'r cyllid, fel y dengys tabl 3.1. Ceir dadansoddiad pellach o'r ffigurau yn Atodiad CH.

Tabl 3.1 Y prif Gampau sy'n derbyn Nawdd gan y Cyngor

Camp/Corff Rheoli	Cyfanswm grant uniongyrchol ¹	% o gyllid uniongyrchol
-------------------	--	-------------------------

Athletau	£236,957	8.0%
Badminton	£222,409	7.5%
Pêl-droed	£220,000	7.4%
Hoci	£209,177	7.1%
Sboncen	£201,317	6.8%
Criced	£197,928	6.7%
Pêl-rwyd	£184,862	6.2%
FSAD (yn cynnwys Boccia)	£173,135	5.8%
Nofio	£153,150	5.2%
Seiclo	£147,968	5.0%
10 Camp Uchaf	£1,946,903	65.8%
10 Camp Nesaf	£847,667	28.6%
Cyfanswm yr 20 uchaf	£2,794,570	94.4%

¹ Yn cynnwys Cefnogaeth Datblygu, Elite Cymru, Coach Cymru, Hyfforddwr Elite/Gwadd

3.53 Os ychwanegir gwerth “ymarferol” defnydd cyfleusterau a llety yn yr Athrofa a Phlas Menai a gwasanaethau gwyddoniaeth chwaraeon at y rhestr uchod, yna mae judo a thennis bwrdd yn symud i mewn i'r deg uchaf, a chriced a pêl-rwyd yn disgyn i'r 11^{eg} a'r 12^{fed} safle.

3.54 Os ychwanegir grantiau ar lefel leol, sef y Gist Gymunedol, Merched yn Gyntaf, Grantiau Mân Offer, Chwaraeon Y Ddraig, Grantiau Datblygu Chwaraeon Lleol a Sportsmatch ar grantiau uniongyrchol y cyrff rheoli, yna mae golff, gymnasteg, a rygbi'r undeb yn ymddangos yn y deg uchaf ynghyd â phrojectau aml-gampau, gyda nofio, pêl-rwyd a chwaraeon anabledd yn llithro i lawr y rhestr, ond yn dal i fod yn yr 20 uchaf o ran cyllid. Gan eithrio cyllid ar gyfer aml-gampau, mae hyn yn golygu fod 61% o'r holl gyllid yn mynd i'r 10 camp uchaf a 90% yn mynd i'r 20 uchaf. Ceir gwybodaeth bellach yn Atodiad CH.

3.55 Gan nad yw cyllid yn cael ei ddsbarthu'n gytbwys ar hyn o bryd, rydym wedi tybio nad yw'r egwyddor o flaenoriaethu cyllid i fudiadau a champau o bwys. Y materion y gellid tybio y bydd rhaid eu hystyried, fodd bynnag, yw:

- Parodrwydd i ddweud yn agored y bwriedir blaenoriaethu.
- Dweud pa ffrydiau cyllid y byddai'n briodol eu blaenoriaethu.
- I ba raddau y bwriedir blaenoriaethu, e.e. a ddylai'r cyllid fynd i nifer llai byth o gampau/sefydliadau.
- Meini prawf ar gyfer pennu blaenoriaeth campau/sefydliadau.
- Gwerthuso i weld a yw'r cyllid cyfredol yn cael ei fuddsoddi yn y lle iawn, i wneud yr argraff fwyaf.

3.56 Rydym wedi adolygu agwedd rhai o Gynghorau Chwaraeon eraill tuag at flaenoriaethu, yn cynnwys yr Alban, Awstralia a Seland Newydd. Er enghraifft, yn 2001 roedd rhaglen Active Australia yn blaenoriaethu cefnogaeth drwy “raglen wedi ei hanelu at gynhyrchu twf mewn cyfranogaeth” i ugain camp a oedd, yn eu barn nhw, â'r argoelion gorau ar gyfer twf yn y pedair blynedd nesaf. Dechreuodd y rhaglen gyda deg, gyda'r deg nesaf yn dilyn y flwyddyn ganlynol. Mae hyn wedi golygu cynnydd mewn cyllid a chefnogaeth weithredol i'r sefydliadau gan y Comisiwn gyda lefel ddwys o gefnogaeth a buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar, gyda'r buddsoddiad yn lleihau mewn blynyddoedd diweddarach. Mae 60 o Sefydliadau Chwaraeon Cenedlaethol yn dal i gael eu cyllido drwy'r rhaglen grantiau datblygu chwaraeon, ond mae'r lefelau o gyllid a chefnogaeth sydd ar gael yn llawer is.

3.57 Yn yr Alban, enwyd naw o chwaraeon craidd fel blaenoriaeth i'w cefnogi drwy Athrofa'r Alban: atletau, badminton, golff, cwrlo, pêl-droed, hoci, jiwdo, rygbi, nofio. Yn sgil arolwg diweddar Sport England, rhagwelir y bydd nifer llai o Gyrff Rheoli blaenoriaethol yn derbyn cefnogaeth yn y dyfodol.

3.58 Yn ein barn ni, mae'r ffordd mae Seland Newydd wedi dewis mynd ati o ddiddordeb neilltuol. Mae Seland Newydd wedi blaenoriaethu cefnogaeth i chwaraeon ers nifer o flynyddoedd. Mae wedi ennill cydnabyddiaeth fyd-eang mewn nifer o gampau fel pêl-rwyd,

hwyllo a rygbi, ac yn Chwaraeon y Gymanwlad daeth yn 5^{ed} o ran cyfanswm medalau (roedd Cymru'n 9^{fed}) ac yn 3^{ydd} o ran medalau y pen o'r boblogaeth, un safle o flaen Cymru oedd yn 4^{ydd}. Yn sgîl arolwg diweddar, cadarnhaodd Sport and Recreation New Zealand (SPARC) yn ei strategaeth am y dyfodol hyd at 2006 yr angen am barhau i dargedu ei adnoddau a'i gefnogaeth. Mae'n nodi tair lefel o gefnogaeth i gyrff chwaraeon cenedlaethol

3.59 Dynodir saith camp yn "Gampau Blaenoriaethol" am gyfnod o bedair blynedd: criced, marchogaeth, golff, pêl-rwyd, rhwyfo, rygbi a hwyllo. Mae'r rhain yn cynnwys campau sy'n ddibynol yn ariannol at gyllid y llywodraeth a rhai annibynnol. Mae SPARC wedi dweud mai'r rhesymau dros ddedol y campau hyn yw fod ganddynt:

- Lefelau cyfranogaeth uchel ymhlith pobl Seland Newydd
- Y gallu i arwain y byd ac ennill cydnabyddiaeth i Seland Newydd
- Cysylltiadau â diwydiannau ac isadeiledd pwysig
- Y gallu i "wneud i bobl Seland Newydd sefyll yn stond" pan fyddant yn gwneud yn dda.

3.60 Ffordd SPARC o fynd ati yw gweithio gyda'r cyrff chwaraeon cenedlaethol ar bob agwedd ar ddatblygu "i sicrhau mwy o lwyddiant, systemau sy'n arwain y byd, a mwy o gyfranogaeth mewn gweithgaredd corfforol". Mae pwyslais cryf ar bobl ifanc a datblygu chwaraeon iau.

3.61 Rhoddir y lefel nesaf o gefnogaeth i dair camp (athletau, nofio a seiclo) a ystyrir yn gampau arwyddocaol, ond nas cynhwysir fel campau blaenoriaeth. Mae materion penodol ynghlwm â'r campau hyn sydd angen ymdrin â hwy i ofalu eu bod yn datblygu ac y byddant yn gynnaladwy yn y dyfodol.

3.62 Mae gweddill y sefydliadau chwaraeon cenedlaethol yn dal yn gymwys i wneud cais am gyllid, ond ni fyddant yn derbyn yr un lefel o gefnogaeth a chymorth ac a gaiff y campau blaenoriaeth. Mae cyllid i'r sefydliadau cenedlaethol yn ddibynol ar iddynt ddatblygu blaengynllun a chyflwyno yn ôl y nod a osodwyd gan SPARC o ran cymryd rhan a pherfformiad.

3.63 Mae SPARC yn cefnogi athletwyr talentog ag elite trwy Academi Chwaraeon Seland Newydd (NZAS) sydd yn gweithio gyda 28 camp "cerdyn". Mae gan y Sefydliad Chwaraeon Cenedlaethol (NSO) ar gyfer pob un o'r campau hyn gytundeb gwasanaeth gyda'r NZAS sy'n amlinellu'r cyllid a'r gwasanaethau fydd ar gael i'w hathletwyr ar wahanol lefelau. Nodir pedair lefel yn y rhan fwyaf o gampau: Lefel 4 Iau; Lefel 3 Datblygu; Lefel 2 Rhyngwladol a Lefel 1 Safon Byd. Dyfernir cardiau i athletwyr gan eu NSO ar sail meini prawf y cytunwyd arnynt rhwng yr Academi a'r NSO ac y mae gan gardiau ar wahanol lefelau wahanol werthoedd.

3.64 Mae'r strwythur hwn yn amlwg yn blaenoriaethu cyllid a gwasanaethau cefnogi i gampau allweddol. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd nad yw'r SPARC o raid yn bwriadu i'r 7 camp blaenoriaeth gadw'r statws hwnnw am byth, ond y bydd ymdrech ddwys dros gyfnod o bedair blynedd yn debyg o esgor ar newid a chanlyniadau sylweddol fydd yn rhoi sefydliad y gamp ar sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol. Mae SPARC wedi awgrymu eu bod yn debygol yn 2006 o symud ymlaen i ganolbwyntio ar gampau eraill.

3.65 Yn ein barn ni, mae'r agwedd a fabwysiadwyd yn Seland Newydd yn un sydd ag elfennau allai fod yn llesol i chwaraeon yng Nghymru.

3.66 Yr ydym wedi ystyried ystod o feini prawf a allai fod yn briodol ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru, pe byddid yn mabwysiadu nifer cyfyngedig o gampau blaenoriaeth, er nad oes raid rhoi'r un pwysigrwydd iddynt oll:

- Lefelau presennol cymryd rhan yn y gamp yng Nghymru
- Gallu i gynyddu'n sylweddol y lefelau cymryd rhan yng Nghymru a'r gallu yn isadeiledd y gamp i gymryd yr ychwanegiadau hyn
- Pwysigrwydd i'r cyhoedd
- Campau sy'n ffurfio rhan o'r Gemau Olympaidd a Gemau'r Gymanwlad ac sydd â digwyddiadau rhyngwladol uchel eu proffil
- Y gallu i lwyddo yn rhyngwladol ac ennill clod i Gymru

3.67 Ymddengys bod ein hadolygiad cychwynnol o'r campau sydd ar hyn o bryd yn derbyn y rhan fwyaf o gyllid yn erbyn y meini prawf hyn yn dangos nad yw'r buddsoddiad wedi ei anelu at y meysydd sydd fwyaf tebygol o gyrraedd dewis amcanion y Cyngor ac a fyddai'n derbyn cefnogaeth gryfaf y cyhoedd. Nid ydym, serch hynny, wedi mantoli yn fanwl, ac ni chredwn y buasai'n briodol i ni wneud penderfyniadau o'r fath. Fodd bynnag yr ydym o'r farn fod angen i'r Cyngor adolygu ei agwedd tuag at gyllido a chefnogi campau, ac yn enwedig Cyrff Llywodraethol Campau, ac i weithredu cyfnod blaenoriaethu fel rhan o ddatblygu strategaeth neu fel rhagarweiniad i'r adolygiadau grantiau cyfredol. Er y bydd peth gwrthwynebiad, yn anorfod, i broses blaenoriaethu o'r fath, yn enwedig ymysg y campau na nodwyd i ddechrau fel blaenoriaeth, unwaith y ceir y penderfyniad, dylai fod yn bolisi penodol y Cyngor.

Argymhelliad: Bod y Cynulliad a'r Cyngor yn adolygu manteision blaenoriaethu rhai campau /Cyrff Llywodraethol i dderbyn lefelau uwch o gyllid a chefnogaeth am gyfnod penodol o amser, gyda strategaeth glir o dwf a chanlyniadau a thargedau pendant i'w cyrraedd dros y tymor byr, (e.e.4 blynedd) a'r tymor hwy (e.e.10+mlynedd). Dylai hyn fynnu ymrwymiad i gyfrannu at fwy yn cymryd rhan, adnabod dawn a'i ddatblygu, a llwyddiant i'r elite. Dylid rhoi blaenoriaeth i geisio mwy o fuddsoddiad yn y campau a flaenoriaethwyd o adnoddau presennol y Cyngor a thrwy bledio manteision buddsoddiad pellach i'r Cynulliad a phartneriaid eraill.

3.68 Parthed digwyddiadau chwaraeon, ymatebol yn hytrach na rhagweithiol ei swyddogaeth yw'r Cyngor. Y prif ddigwyddiad diwethaf a gyflwynodd, mewn partneriaeth gyda Chyngor Chwaraeon Ysgol Cymru, oedd Chwaraeon Ieuencid y Mileniwm. Ar gyfer y rhan fwyaf o brif ddigwyddiadau penodol i un gamp, megis Pencampwriaethau Ewrop neu'r Byd, Cyrff Llywodraethol y Gamp, naill ai ar lefel y DG neu'r wlad, yw'r corff cymwys i groesawu a llwyfannu prif ddigwyddiad. Gall rhai digwyddiadau rhyngwladol geisio cyllid trwy UK Sport.

3.69 Ystyrir cefnogaeth i ddigwyddiadau cartref fel rhan o adolygiad blynyddol grantiau cefnogi datblygu'r Corff Llywodraethol. Fodd bynnag, caiff digwyddiadau mwy a rhai arwyddocaol sy'n ceisio cefnogaeth ariannol y Cyngor eu cyfeirio at gyfarfod nesaf y Cyngor am benderfyniad. Lle bo'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth, fe wna hyn mewn nifer o ffyrdd:

- cefnogi'r digwyddiad.
- cyngor – am y bid, gwaith datblygu cysylltiedig neu os caiff ei gynnal yn AChC ar faterion rheoli digwyddiadau.
- cefnogaeth ariannol.

Ymhlith enghreifftiau o ddigwyddiadau a gefnogwyd fel hyn y mae Pencampwriaethau Pêl-rwyd Ieuencid y Byd a gynhaliwyd yn AChC ac yn fwy diweddar y bidiau am Gwpan Ryder, Pencampwriaethau Dŵr Gwyn Iau y Byd (Canŵio) a Phencampwriaethau Nofio Anabl y Byd.

3.70 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awr yn gweithio ar strategaeth digwyddiadau newydd i Gymru. Bydd gofyn adolygu rôl y Cyngor o ran helpu i gyrraedd nod y strategaeth hon unwaith iddi gael ei chadarnhau.

Y Canolfannau Cenedlaethol

Plas Menai

3.71 Yn Rhan 1 yr adroddiad, nodwyd gennym fod angen am y swyddogaethau oedd yn cael eu cyflwyno ym Mhlas Menai ac y dylid cynnal y ganolfan, ond nad oedd yr achos dros i'r Cyngor barhau i ymwneud fel perchennog uniongyrchol a rheolwr mor amlwg. Ein hargymhelliad oedd y dylid ymchwilio i fecanweithiau eraill allai gyflwyno ffynonellau cyllid ac ymgymryd â'r cyfrifoldebau rheoli. Yn yr ail gam hwn o'r adolygiad, byddwn yn ystyried a yw'r ganolfan yn cael ei rhedeg ar hyn o bryd yn effeithiol ac effeithlon o ystyried yr amcanion gweithredu presennol. O gadw mewn cof fod yr angen i weithredu newid ym Mhlas Menai wedi cael blaenoriaeth is yn AChC, gwnaethom argymhellion sy'n berthnasol i'r tymor byr i ganolig.

3.72 Mae'r Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Dŵr yn darparu hyfforddiant trwy gyfrwng cyrsiau. Yn 2002/3 mae oddeutu 70% o incwm cyrsiau a gyflwynir yn seiliedig ar gyrsiau a gyhoeddir yn llawlyfr Plas Menai. Enillir bron i ddwy ran o dair o'r incwm yn hanner yr haf o'r flwyddyn (Ebrill i Fedi), ond enillir dros draean yn hanner y gaeaf (Hydref i Fawrth). Mae'r hollt incwm rhwng dyddiau'r wythnos a phenwythnos yn 75%:25%, sydd yn iach iawn. Mae gweithgareddau dydd a hanner diwrnod yn awr yn cynrychioli rhyw 1.5% o'r incwm, ond y maent yn dod yn ffordd bwysig o ddwyn i mewn sefydliadau cymunedol ac ysgolion am brisiau deniadol.

3.73 Defnyddir 75% o gyllideb farchnata o £90,000 i ddarparu llawlyfrau yn Gymraeg a Saesneg, i hysbysebu cyrsiau mewn cylchronau chwaraeon dŵr ac i dalu am y swyddog marchnata. Defnyddir y gweddill ar gyfer ymgyrchoedd postio uniongyrchol, cynhyrchu taflenni a phosteri a ddsberthir gan gyrrff llywodraethol a thrwy'r post, ymchwil farchnad ac i hybu defnydd gan y gymuned a chorfforaethau. Yn ein barn ni, mae'r gwario hwn yn rhoi gwerth am arian yn erbyn cynllun marchnata clir.

3.74 Fel y nodwyd yng Ngham I yr adolygiad hwn, cymharol isel yw'r defnydd a wneir o Blas Menai gan gyrrff llywodraethol cenedlaethol campau perthnasol yng Nghymru. Er hynny, y mae'r berthynas gyda hwy yn agos. Bydd Cymdeithas Cychod Hwyllo Cymru yn cynnal llawer o'u cyfarfodydd ym Mhlas Menai ac mae perthynas agos hefyd gyda Chymdeithas Ganŵio Cymru, ac ymdrechir i osgoi dyblygu sylweddol rhwng Plas Menai a'u canolfan dŵr gwyn genedlaethol yng Nghanolfan Tryweryn. Cyflogir Pennaeth Hyfforddi canŵio ym Mhlas Menai gan CGC o gyllid a ddarperir gan y Cyngor. Cadarnhawyd hefyd agosrwydd Plas Menai at y cyrrff llywodraethol cenedlaethol allweddol mae'n wasanaethu yn yr ymgyngori yng Nghyfnod I. Y tu hwnt i Gymru, mae i Blas Menai ran arwyddocaol mewn dylanwad ar raglenni datblygu cyrrff ledled y DG – er enghraifft, mae'r uwch-staff yn ymwneud â chysyniad hyfforddi hwyllo gyda'r Gymdeithas Gychoed Hwyllo Frenhinol.

3.75 Tyfodd cyfran y cyrsiau seiliedig ar lawlyfr dros y blynyddoedd o lefel o tua 50%. Mae hyn yn bwysig o safbwynt perfformiad ariannol gan y tueddant i gael eu rhedeg am well elw. Byddai'r rhan fwyaf o gyrsiau heb fod mewn llawlyfr yn cynnwys naill ai grwpiau sy'n ceisio gostyngiad neu glybiau/cyrrff llywodraethol y mae pris yn bwnc o bwys iddynt. Datblygir polisi prisio cytbwys bob blwyddyn, gyda chefnogaeth ymchwil farchnad, gyda gostyngiadau i grwpiau ac uchafswm lefelau gostyngiad yn cael eu gosod i gadw Plas Menai yn gystadleuol am wasanaethau hyfforddi. Dros y pum mlynedd diwethaf, cododd prisiau'r llawlyfr lle nad oes gostyngiad yn gynt na chwyddiant er mwyn helpu i adennill costau. Ar y llaw arall, er mwyn cyrraedd grwpiau targed newydd, mae'r ganolfan yn hybu cyrsiau y tu allan i amseroedd prysur i ysgolion lleol am £10 yr hanner diwrnod a grwpiau gwirfoddol lleol anfasnachol am £22 y dydd (ieuenctid) a £30 y dydd (oedolion). Anogir grwpiau ac ysgolion lleol hefyd i geisio cyllid o ffynonellau megis Cist Gymunedol a'r GCN.

3.76 Defnyddiodd Plas Menai nifer o ffyrdd i ledaenu incwm dros y flwyddyn. Ym mis Ionawr, mae cyfleusterau a logir ar y Costa Brava gan ddefnyddio cyfarpar y ganolfan ei hun yn gwneud cyfraniad gwerthfawr. Daeth partneriaeth ddiweddar gyda Flying Fish â thair wythnos o hyfforddiant damcaniaeth, diogelwch a thechnegol i'r ganolfan cyn pedwar mis o hyfforddi yn Awstralia. Gall digwyddiadau corfforaethol hefyd helpu i lenwi'r lle sydd ar gael. Mae'r cyfleusterau a rentir gan Blas Menai ym Mhwlheli yn cynnig posibilrwydd ehangu gwaith hyfforddi dydd, a'r posibilrwydd hefyd o gludo llawer o gyfarpar y ganolfan. Byddai hyn yn ddeniadol i'r garfan Gymreig yn yr ochr gystadleuol (mewn amgylchedd dŵr agored), i waith cymunedol lleol yn Ne Gwynedd a Cheredigion.

Argymhelliad: Dylai Plas Menai edrych i mewn i bosibiliadau ychwanegol Pwllheli, yn enwedig fel ffynhonnell o incwm yn y tymor tawel ac fel cyfle am ddatblygu cymunedol.

3.77 Cedwir y staffio yn hyblyg er mwyn ymdrin yn effeithiol â phlegynau yn y baich gwaith. Dim ond pedwar hyfforddwr tymor hir a gyflogir ar gontractau pum mlynedd. Hefyd, mae 12 hyfforddwr yn gweithio cyfnodau 9-11 ar gontractau blynyddol sydd yn dueddol o aros am beth amser gyda'r Cyngor – mae AD ar hyn o bryd yn adolygu'r holl drefniadau contract i ofalu eu bod oll yn cydymffurfio ag arfer da. Mae Plas Menai hefyd yn cynnig contractau

hyfforddi blwyddyn i ryw wyth o bobl ifainc y flwyddyn. Cedwir o leiaf dri o'r llefydd hyn i fechgyn a merched lleol a all ddangos eu bod yn meddu ar y medrau sylfaenol. Gan y buasant yn tueddu yn naturiol i fod yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, gwelir hyn hefyd fel ffordd o gynyddu cyfoeth y gwasanaethau dwyieithog a gynigir. Maent yn gronfa o dalent y gellir tynnu arno i gael staff hyfforddi ar gontractau blynyddol.

3.78 Buom hefyd yn archwilio sylfaen y gorbenion sy'n cefnogi Plas Menai, y gellir ei ddadansoddi yn wasanaethau contract a gwasanaethau gweinyddol. Gyda Sodexo y mae'r contract arlwygo ar hyn o bryd, ond y mae hwn yn cael ei ail-dendro oherwydd pryder am y cynnydd yng nghost yr elfen fwyd. Mae rheolwr y ganolfan yn ymgynghori ar ffurf yr ail-dendro, a dywedwyd wrth, yn briodol, fod hyn yn dod dan gyfarwyddeb caffael yr UE. Mae'r tiroedd yn cael eu cynnal ar gontract a osodir yn flynyddol fel bod y farchnad yn cael ei phrofi yn rheolaidd. Cafodd glanhau, am gost blynyddol o £70,000, ei gontractio i ddarparu'r lleol ers pymtheng mlynedd. Cred y rheolwr ei fod yn cael gwasanaeth gwerth am arian ac ni welodd ail-dendro fel blaenoriaeth – ei darged yw ail-gontractio yn 2004.

Argymhelliad: Tra bod ymdrin â'r contract arlwygo yn amlwg yn flaenoriaeth, dylid rhoi prawf hefyd ar y contract glanhau cyn gynted ag y bo modd – buasem ni yn argymhell gwneud hyn ym mlwyddyn ariannol 2003/4.

3.79 Yr ydym wedi adolygu'r staffio yn y meysydd ariannol a gweinyddol, gan drin materion prynu, archebu, anfonebu, derbynfa a materion cyflogres ategol. Defnyddir staff yn hyblyg ar draws y meysydd hyn, ac yn ein barn ni, y mae'r staffio yn gost-effeithiol. Y prif sylw fuasai'r methiant hyd yma i weithredu trefn archebu newydd, er y gwnaed llawer o ymchwil. Byddai hyn yn caniatáu cynhyrchu gwybodaeth rheoli mwy effeithiol ac amserol, yn symleiddio cyfrifo ym Mhlas Menai a Chaerdydd ac yn rhoi peth lle i drin busnes newydd.

Argymhelliad: Dylai canolfan Plas Menai fwrw ymlaen i ddewis cyfundrefn all ryngweithio gyda chyfundrefnau ariannol Sun gyda golwg ar ei gweithredu yn 2003/4.

3.80 Mae gofynion TG eraill Plas Menai yn gyffredinol yn cael eu cwrdd yn dda mewn termau gweinyddol. Fodd bynnag, erys dau faes pwysig sydd angen eu datrys. Mae'n hollol glir fod anghenion gwefan Plas Menai yn hollol wahanol i unrhyw ran arall o'r Cyngor. Os na fydd yn datblygu'r gallu i dderbyn archebion am gyrsiau ar-lein, bydd dan gryn anfantais, o'i chymharu â chanolfannau chwaraeon eraill sy'n cystadlu, a darparwyr gwyliau antur. Bydd angen creu cyfleuster gwefan diogel i dderbyn taliadau nad oes ar yr un rhan arall o'r Cyngor ei angen. Mae dadl gref iawn dros greu gwefan ar wahân ar gyfer Plas Menai gyda chysylltiadau deuffordd i wefan y Cyngor, ac am gontract rheoli gwe ar wahân gyda darparwyr sy'n meddu ar y medrau diogelwch priodol. Deallwn fod hyn wedi ei wrthod o'r blaen gan y Cyngor ar egwyddor. Mater cysylltiol yw awydd dealladwy y ganolfan i fedru marchnata trwy e-bost.

3.81 Yr ail faes yw darparu cyfleusterau rhyngwyd ar gyfer y staff hyfforddi er mwyn hwyluso creu defnydd hyfforddi. Mae rheolwr y ganolfan yn cytuno gyda hyn, ond nid yw wedi dod o hyd i ffordd o greu'r cyfleuster trwy gyfrwng cyfleuster rhwydwaith ar wahân i hyfforddwyr yn y ganolfan sydd yn gyson â rheolau'r Cyngor am gyrchu'r rhyngwyd.

Argymhellion: Am resymau busnes da, dylai'r Cyngor ailystyried y penderfyniad i beidio â chreu gwefan gysylltiedig ar wahân i Blas Menai a ffurfio cynllun ar gyfer cyfleuster diogel i'r ganolfan fel rhan o'i strategaeth TG. Dylai hefyd adolygu'r anghenion am gyfleusterau e-farchnata. Dylai rheolwr y ganolfan a'r rheolwr TG gydweithio gyda golwg ar ddatrys pwnc cyrchu'r rhyngwyd gan hyfforddwyr mewn dull sydd yn gost-effeithiol ac yn dderbyniol i'r Cyngor.

Athrofa Chwaraeon Cymru

3.82 Yng Ngham 1 yr adroddiad, daethom i'r casgliad fod angen o hyd i Athrofa Chwaraeon Cymru ddarparu cyfleusterau chwaraeon sydd yn darparu yn benodol ar gyfer anghenion athletwyr elite ac yn canolbwyntio ar yr anghenion hyn a Chyrff Llywodraethol Campau, yn enwedig y Cyrff Llywodraethol llai. Ein hargymhellion oedd y dylid egluro

amcanion, campau blaenoriaeth a swyddogaethau'r ganolfan, a nodi canlyniadau eglur. Daethom i'r casgliad, yn y tymor byr i ganol, mai ailddatblygu ac adnewyddu'r cyfleusterau presennol yw'r agwedd fwyaf realistig a chost-effeithiol. Parthed perchenogaeth a rheolaeth, dylid edrych i mewn ymhellach i'r dewis o sefydlu cwmni annibynnol, a chymryd agwedd gynlluniedig at leihau dibyniaeth Cyrff Llywodraethol ar y Cyngor a datblygu mwy ar eu perchenogaeth a'u rheolaeth hwy ar y ganolfan. Yn ail gam hwn yr adolygiad, byddwn yn ystyried a yw'r ganolfan yn cael ei rhedeg yn effeithlon ac effeithiol ar hyn o bryd yn erbyn yr amcanion gweithredu presennol.

3.83 Mae Athrofa Chwaraeon Cymru yn darparu cyfleusterau i'w llogi a gweithgareddau a chyrsgiau chwaraeon ar gyfer ystod eang o gwsmeriaid. Dros y deuddeg mis diwethaf, 46% oedd cyfartaledd defnydd y cyfleusterau chwaraeon, gyda'r cyfleusterau chwaraeon allweddol yn llawn ar yr adegau prysuraf. Defnydd gan gyrff llywodraethol campau Cymru ac athletwyr elite yw'r flaenoriaeth, fel y gwelir yn nhabl 3.2, gyda thuedd at i fyny yng nghyfanswm y defnydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Tabl 3.2 Canran defnydd fesul grŵp cwsmer

<i>Grŵp defnyddwyr</i>	<i>Mawrth 02 i Chwefror 03</i>
	<i>% defnydd</i>
Corff Llywodraethol	25.47
Clwb	4.34
Ysgol	1.54
Cyhoedd	10.42
Masnachol	1.11
Cyngor Chwaraeon Cymru	2.05
AChC	0.56
Sesiynau hamdden	1.0
<i>Cyfanswm defnydd</i>	<i>46.49%</i>

Ffynhonnell: Gwybodaeth rheoli AChC.

3.84 Yn y flwyddyn hyd yma, cynhyrchwyd 60% o'r incwm weithredu gan y cyfleusterau sych a'r pwll, sy'n debyg iawn i llynedd. Parhau i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn a wnaeth defnydd achlysurol y cyhoedd o'r cyfleusterau chwaraeon sych, e.e. sboncen, badminton, pwysau, er nad yw hyn yn flaenoriaeth i'r ganolfan. Cynyddodd y defnydd o'r pwll nofio hefyd dros y 2 flynedd diwethaf, er bod eleni, hyd yma, wedi dangos mymryn o ostyngiad. Mae incwm aelodaeth i fyny 18% ar hyn o bryd ers llynedd. Mae incwm o arlwyo a llety yn cyfateb i 27% o'r incwm gweithredol yn y flwyddyn hyd yma; fodd bynnag, mae'r naill wasanaeth a'r llall yn rhedeg ar golled unwaith y cyfrifir costau uniongyrchol.

3.85 Defnyddir cyllideb farchnata o £20,000 y flwyddyn i roi gwybodaeth i gwsmeriaid yn Gymraeg a Saesneg, megis y Siarter Gwasanaeth i Gwsmeriaid, ac i annog defnydd gan y gymuned a chorfforaethau trwy bostio uniongyrchol a chynhyrchu taflenni hybu. Cyhoeddir llythyr newyddion chwemisol hefyd i aelodau'r Ganolfan, a chaiff cyfleusterau llety'r Ganolfan hefyd eu hybu yn ehangach. Yn gyffredinol, ymddengys lefel yr adnoddau ar gyfer marchnata yn ddigonol, o ystyried amcanion blaenoriaeth AChC, a'r ffaith fod y Cyrff Llywodraethol yn gynulleidfa gaeth. Telir am y rhan fwyaf o'r defnydd a wnânt o'r cyfleusterau a'r llety trwy ddyraniad grant mewn enw sy'n cyfateb i nifer yr oriau o gyrchu'r cyfleusterau allweddol, y gellir wedyn eu harchebu yn grynsyth ymlaen llaw.

3.86 Ar hyn bryd, dim ond ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar brif wefan y Cyngor am y Ganolfan ac nid oes cyfleusterau archebu ar-lein. Deallwn fod cynnwys y wefan ar hyn o bryd yn cael ei adolygu ac yr ystyrir cyfleusterau archebu ar-lein. Dyma welliant y buasem ni yn ei gefnogi.

Argymhelliad: Dylid gweithredu cynigion i wella gwefan AChC, gan gynnwys ffurflenni archebu ar gyfer Cyrff Llywodraethol.

3.87 Adolygir ffioedd a thaliadau yn flynyddol, gan ystyried yr amgylchiadau sy'n bodoli ar y pryd a chymariaethau gyda darparwyr eraill llely a chyfleusterau chwaraeon. Defnyddir strwythur brisio uniongyrchol i osod allan y taliadau ar gyfer aelodau a'r sawl nad ydynt yn aelodau, ynghyd â phrisiau gostyngol i fyfyrwyr a'r digyflog ar adegau tawel yn ystod yr wythnos a thros y Sul.

3.88 Parthed safonau gweithredu a chanoli ar gwsmeriaid, enillodd AChC Quest , Cynllun Ansawdd y DG ar gyfer Chwaraeon a Hamdden, a Marc y Siarter. Mae'r ailasesiad diweddar ar gyfer Quest yn debyg o ddangos gwelliant yn sgôr cyffredinol y Ganolfan, fydd yn ei rhoi yn y categori canmoliaeth uchel. Maent yn ganolfan ardystiedig gan y BOA ar gyfer jiwdo, tenis bwrdd a badminton. Mae Siarter Gwasanaeth i Gwsmeriaid ar gael yn y dderbynfa sydd yn gosod allan amcanion y ganolfan, y safonau a'r targedau y ceisia'r ganolfan eu cyflwyno, a'r drefn gwynion i gwsmeriaid. Gwneir arolwg defnyddwyr bob dwy flynedd a dengys lefelau boddhad cwsmeriaid o arolwg 2002 duedd gadarnhaol tuag i fyny ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau perfformiad. Cynhelir cyfarfod o bwyllgor ymgynghorol AChC ddwywaith y flywyddyn (gyda'r CLI). Ystyriwn hyn yn rhywbeth sy'n dangos ymrwymiad da i'r cwsmer ac i feincnodi eu perfformiad hwy yn erbyn safonau'r diwydiant.

3.89 Cyflogir 63 aelod o staff ar hyn o bryd yn AChC, 25 yn rhan-amser, ynghyd â staff hyfforddi a staff achlysurol. Mae digon o hyblygrwydd yn y strwythur ar hyn o bryd i ddelio â digwyddiadau mawr ac absenoldebau neu wyliau staff. Mae'r trosiant staff yn gyffredinol yn isel, er bod nifer fechan o swyddi gwag ar hyn o bryd. Mae'r rhain naill ai heb fod yn cael eu llenwi, neu fe'u hysbysebwr fel contractau tymor penodol tra penderfynir ar ddyfodol AChC.

3.90 Yn AChC trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am reolaeth feunyddiol y neuadd gymnasteg i Gymdeithas Gymnasteg Amatur Cymru. Mae cynrychiolydd AChC ar y grŵp defnyddwyr gymnasteg. Yn ein barn ni, y mae hyn yn enghraifft dda o annog CLI i fod yn hunangynhaliol, tra'n parhau i roi peth cefnogaeth ac arbenigedd trwy gyfrwng staff AChC.

3.91 Yr ydym hefyd wedi archwilio gwasanaethau gweinyddol, cefnogol a chontract yn AChC. Ail-dendrwyd gwasanaethau glanhau oedd yn werth tua £135,000 yn 2002 ac fe'u rhedir yn awr gan Mitie, contractwr allanol. Mae gwasanaethau diogelwch dros nos yn cael eu rhedeg a hyn o bryd gan Caxtons Facilities Management, sy'n is-gontractio'r gwasanaethau, ac fe'u tendrwyd olaf ym 1999. Ni fwriedir ailosod y contract hwn tan 2004 neu o leiaf hyd y cadarnheir oblygiadau cau unrhyw gyfleusterau ar gyfer adnewyddu. Fodd bynnag, arweiniodd trafodaethau diweddar gan Caxtons at benodi is-gontractwr newydd, a fydd yn ei dro yn golygu gostyngiad yn ffi flynyddol y contract. Mae contractau ynni yn cael eu monitro yn rheolaidd ac yn destun prawf marchnad. Mae systemau ar gael i sicrhau yr adolygir y gwasanaeth yn rheolaidd; felly hefyd y cysylltiadau rhwng y tîm rheoli a'r contractwyr.

3.92 Y tro diwethaf bu'r gwasanaeth arlwygo yn destun prawf marchnad oedd 1995 ac y mae'n cael ei redeg gan dîm mewnol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu ar hyn bryd, yn enwedig mewn perthynas â'r ffordd y mae'n cwrdd â gofynion athletwyr elite a gofynion bod yn ganolfan a ardystiwyd gan y BOA, ac oherwydd cost net cynyddol y gwasanaeth. Cyflwynir bwydlenni newydd ym mis Ebrill 2003. Mae'r cyfleusterau dan do a'r lleiniau chwarae awyr agored a'r tiroedd gerllaw hefyd yn cael eu cynnal gan staff mewnol. Y farn yw bod hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran ymateb i anghenion defnyddwyr a chyd-gordio'r defnydd o'r cyfleusterau.

Argymhelliad: Dylid cymryd penderfyniadau allweddol am ddyfodol AChC a'i adnewyddu gan y Cynulliad a'r Cyngor cyn gynted ag sydd modd fel bod modd cymryd penderfyniadau gweithredu ar sail o wybodaeth. Yn dibynnu ar ba ffordd ymlaen a ddewisir, dylid ystyried rhoi prawf marchnad ar y contract arlwygo a diogelwch dros nos.

3.93 Cyflwynir gwasanaethau cynnal gan gynnwys personél, anfonebu archebion, casglu dyledion, cyflogres a gweinyddiaeth trwy gyfuniad o staff AChC ac adrannau ariannol ac AD y Cyngor. Mae hyn fel petai'n gweithio yn effeithiol.

3.94 Defnyddir cyfundrefn archebu a gwybodaeth rheoli gyfrifiadurol, sy'n gydnaws â chyfundrefn Sun y Cyngor, ac mae'n rhoi i'r tîm rheoli wybodaeth weithredol fanwl am ddefnydd, incwm a gwariant a fydd yn sail i wneud penderfyniadau am y gwasanaeth.

Gwasanaethau Datblygu Lleol

3.95 Prif feysydd gwaith Gwasanaethau Datblygu Lleol (GDLI) yw datblygu a gweithredu rhaglenni datblygu chwaraeon, gan gynnwys cyngor a chefnogaeth a roddir i'r sawl sy'n cyflwyno chwaraeon, ynghyd â'r cynlluniau grantiau cymunedol. Mae gan GDLI 29 staff sef 1 cyfarwyddwr, 3 rheolwr rhanbarthol, 13 o swyddogion datblygu, 7 o swyddogion grantiau a 5 o staff llawn a rhan amser sy'n gwneud gwaith gweinyddol yn bennaf.

Rhaglenni Datblygu Chwaraeon a Chefnogaeth Partneriaid

3.96 Mae GDLI yn rhoi cyngor cyffredinol ar ddatblygu chwaraeon i sefydliadau yn ogystal â gweithredu ei fentrau ei hun. Y mentrau allweddol ar hyn o bryd yw: Campau'r Ddraig; Chwaraeon Anabledd Cymru; Merched yn Gyntaf ac AG a Chwaraeon Ysgolion. Ceir cyfleoedd i hyfforddi a rhwydweithio trwy gyfarfodydd a seminarau cenedlaethol a rhanbarthol. Caiff y gwasanaethau a'r mentrau hyn eu cefnogi a'u cyflwyno trwy gyfuniad o agweddau.

3.97 Mae Chwaraeon Anabledd Cymru wedi ei allanoli bron yn gyfan gwbl, gyda chyllid yn cael ei ddarparu i Gymdeithasau Chwaraeon i'r Anabl i reoli a gweinyddu'r cynllun, ac awdurdodau lleol yn derbyn cyllid uniongyrchol gan SPORTLOT ar gyfer swyddogion datblygu. Mae gan staff y Cyngor berthynas waith dda gyda rheolwr Chwaraeon Anabledd Cymru a chyswllt gyda'r swyddogion o'r awdurdodau lleol pan fo angen, ond nid ydynt yn cymryd rhan arweiniol gyda'r cyflwyno.

3.98 Gwêl y partneriaid allweddol yr ymgynghorwyd â hwy Chwaraeon Anabledd Cymru fel menter gadarnhaol sydd yn cynyddu cyfle i bobl ag anableddau. Er na werthuswyd effaith y fenter yn llawn eto, y mae camau cychwynnol, megis y cynnydd mewn clybiau sy'n rhoi cyfleoedd i bobl anabl, yn dangos tuedd gadarnhaol.

3.99 Mae agwedd Chwaraeon Anabledd Cymru at gyflwyno yn enghraifft dda o sut y gall y Cyngor weithredu ar lefel strategol, gan nodi pwnc allweddol y mae'n rhaid ymdrin ag ef, ac arwain ar ddatblygu ateb gyda phartneriaid, ond gan weithio wedyn gydag eraill i sicrhau ei fod yn cael ei reoli a'i gyflwyno. Mae hyn yn well defnydd o fedrau a gwybodaeth sefydliadau sydd mewn gwell sefyllfa i gyflwyno, ac y mae'n peri bod adnoddau'r Cyngor wedyn yn cael eu symud ymlaen i ymdrin â phynciau eraill/ Dyma'r agwedd y dylid ei dilyn lle bo modd, er ein bod yn cydnabod ei bod yn dibynnu ar nodi partneriaid addas a chyllid ar gyfer cyflwyno.

3.100 Ar gyfer AG a Chwaraeon Ysgolion mae'r Cyngor wedi secondio 1 swyddog i arwain ar y cynllun gweithredu AG a Chwaraeon Ysgolion. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud yn cael ei gyflwyno trwy awdurdodau lleol ac ysgolion, ac fe'i goruchwylir gan dîm gweithredu cenedlaethol a'r pwyllgor ymgynghorol ar brosiectau, sef cynrychiolwyr o feysydd addysg a chwaraeon. Ar gyfer Campau'r Ddraig mae'r Cyngor yn cyflogi ac y rheoli tîm o 3 yn uniongyrchol. Mae'r aelodau hyn o'r staff yn gwneud gwaith galluogi a chefnogi, er bod y cyflwyno ei hun yn cael ei wneud trwy gyfrwng partneriaid eraill e.e., Cydlynwyr Campau'r Ddraig ym mhob awdurdod lleol, a thrwy'r ysgolion.

3.101 Mae bod â swyddogion penodol gyda'r cyfrifoldebau hyn yn galluogi rhoi blaenoriaeth uchel i'r mentrau, ac y mae ein partneriaid yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r gefnogaeth a geir gan y swyddogion. Er bod y mentrau ar wahanol gyfnodau yn eu datblygiad maent yn cynyddu'r cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon, safonau hyfforddiant mewn chwaraeon i bobl ifainc, a lefelau cymryd rhan. Fodd bynnag, mae'n bwysig, lle cymerir yr agwedd hon, fod y Cyngor yn ystyried ei strategaeth adael tymor hir ac yn adeiladu'r camau priodol i ddatblygu medrau a phrofiad eraill.

3102 Un pwynt y dylid ei nodi yw, tra bod yr agwedd hon yn tynnu'r pwysau oddi ar y Cyngor i gyflwyno yn rhy uniongyrchol, y mae'n rhoi pwysau ar bartneriaid eraill, yn enwedig awdurdodau lleol ac ysgolion. Tra bod partneriaid yn gwerthfawrogi'r mentrau ac yn cydnabod fod y cyllid wedi eu galluogi i benodi i swyddi newydd, mae rhai awdurdodau llai wedi gwneud y sylw eu bod yn ei chael yn anodd ateb disgwyliadau'r Cyngor a chyflwyno'r canlyniadau a ddisgwylir. Nid oes ateb hawdd i hyn, ar wahân i gydnabod y cyfyngiadau y mae partneriaid eraill yn gweithio danynt a rheoli nifer y mentrau y gofynnir iddynt gefnogi ar unrhyw un adeg.

3.103 Y trydydd agwedd at Wasanaethau Datblygu yw trwy'r timau rhanbarthol. Mae gan bob rhanbarth reolwr rhanbarthol a 3 neu 4 o swyddogion datblygu sydd â swyddogaeth ddatblygu a chynghori eang, gyda chefnogaeth 1- 2 o weinyddwyr llawn neu ran amser. Maent yn annog ac yn cefnogi gweithredu holl ystod polisiâu, mentrau a chynlluniau cyllido'r Cyngor Chwaraeon ar lefel leol trwy'r awdurdodau lleol yn enwedig, ond hefyd trwy Gyrrff Llywodraethol ac ystod o sefydliadau chwaraeon a chymunedol eraill. Maent hefyd yn darparu hyfforddiant rhanbarthol a chyfleoedd i rwydweithio.

3.104 Trwy ymgynghori â phartneriaid lleol, gwelwyd fod y rhan fwyaf yn ystyried fod y staff rhanbarthol yn gweithredu'n effeithiol a bod ganddynt ddigon o wybodaeth. Mae'n amlwg bod y staff rhanbarthol yn meithrin ymwybyddiaeth leol a gwybodaeth, a chysylltiadau gwaith da gyda'r rhan fwyaf o bartneriaid allweddol, fel bod modd nodi atebion lleol addas.

3.105 Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd fod adnoddau staff yn y rhanbarthau wedi eu hymestyn yn dynn ac nad oes modd yn wastad cwrdd â disgwyliadau partneriaid o ran cyngor a chefnogaeth o du'r Cyngor. Gyda llawer cyfle i'w gymryd a phynciau i ymdrin â hwy, mae'n bwysig fod y rhanbarthau yn hollol glir am eu blaenoriaethau ac yn cyfathrebu gyda'u partneriaid am y flaenoriaeth a roddir i gefnogaeth. Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu gwaith gyda phobl ifainc, merched a menywod, meysydd lle nad oes llawer yn cymryd rhan, a chwaraeon i bobl anabl, er bod y potensial gan bob un o'r meysydd hyn i lyncu cryn dipyn o adnoddau.

3.106 Y mae'r broses gynllunio y mae'r swyddogion datblygu rhanbarthol yn mynd trwyddo gyda'r awdurdodau lleol yn help i ddeall meysydd blaenoriaeth gwaith pob awdurdod lleol, fel y gall y Cyngor ei hun wneud gwell penderfyniadau am y lle i roi'r gefnogaeth fwyaf. Yr ydym yn glir fod rhai o adnoddau staff wedi eu blaenoriaethu i weithio yn y mannau sydd dan fwyaf o anfantais, er ei bod yn amlwg fod angen gwneud llawer mwy i sicrhau cyfleoedd i gynnwys pawb ledled Cymru. Mae ehangu gwaith y Cyngor yn y maes hwn hefyd angen medrau a gwybodaeth wahanol, yn uniongyrchol a thrwy bartneriaeth gyda sectorau eraill.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor archwilio'n feirniadol faich gwaith a medrau presennol staff rhanbarthol a chanolog a chodi cwestiynau heriol ynglŷn â'r canlynol: a) a yw adnoddau presennol y staff wedi canoli'n ddigonol ar weithio yn y meysydd ac ar y materion mwyaf arwyddocaol b) a yw cydbwysedd yr adnoddau rhwng staff cefnogi canolog a'r rhanbarthau yn sicrhau fod adnoddau yn cael eu hanelu at y mannau lle ellir cael mwyaf o effaith. c) a oes angen gwella medrau a gwybodaeth y staff trwy hyfforddi, yn enwedig o ran cysylltu â'r agenda ehangach o ran datblygu ac adfywio cymunedau ch) a roddir digon o sylw i wella medrau a galluoedd sefydliadau eraill (gweler yr adran ar recriwtio, hyfforddi a chefnogi gweithwyr gwirfoddol a phroffesiynol) ac ar eiriol (gweler yr adran gynharach).

Argymhelliad: Dylai pob rhanbarth gynhyrchu cynllun gwaith blynyddol wedi ei flaenoriaethu, yn nodi'r mannau a'r sefydliadau hynny fydd yn derbyn mwy, ac o bosibl lai, o gefnogaeth a sicrhau fod hyn yn cael ei gyfleu yn glir i staff a phartneriaid.

Grantiau Cymunedol

3.107 Mae'r Cyngor a hyn o bryd yn gweithredu 12 cynllun grant annibynnol, wedi'u cyllido gan SPORTLOT a chymhorthdal y Cyngor ei hun:

- Cefnogaeth datblygu i Gyrrff Llywodraethol
- Hyfforddi Cymru
- Elite Cymru

- ❑ Sportsmatch
- ❑ Clwb Cymru (ar y ffordd allan)
- ❑ Grantiau Cyfalaf SPORTLOT
- ❑ Cist Gymunedol SPORTLOT
- ❑ Mân Grantiau SPORTLOT
- ❑ Grantiau Datblygu Chwaraeon Lleol
- ❑ Merched yn Gyntaf
- ❑ Teithiau Tramor
- ❑ Grantiau Diogelwch Chwaraeon

3.108 Yn yr adran flaenorol, mae argymhellion am Gefnogaeth i Gyrrff Llywodraethol, Hyfforddi Cymru ac Elite Cymru. Cynhwysir Sportsmatch yn yr adran ar wasanaethau corfforaethol. Mae gweddill y cynlluniau grant a ystyrir yn yr adran hon yn ymwneud yn bennaf â chynyddu nifer y sawl sy'n cymryd rhan a chyfleoedd i wneud hynny yn y gymuned. Mae'r rhan fwyaf o grantiau yn agored i bob ymgeisydd sy'n cwrdd â'r meini prawf priodol.

3.109 Mae swyddogaeth ChA yn cynnwys datblygu rhaglenni grantiau a phrosesau ymgeisio newydd neu wella rai presennol, codi ymwybyddiaeth ymysg y sawl allai fanteisio o'r grantiau sydd ar gael, darparu cynngor i ymgeiswyr, asesu ceisiadau a monitro detholiad o brosiectau. Cyflwynir y gwaith hwn trwy Gyfarwyddwr ChA, swyddogion datblygu rhanbarthol a rheolwyr, a'r tîm grantiau yng Nghaerdydd. Mae arbenigedd technegol yn y tîm grantiau, a'r arbenigedd datblygu yn y rhanbarthau. Ymddengys bod yr hollt swyddogaeth rhwng dau dîm yn ffordd effeithiol o redeg ar hyn o bryd. Mae lefel yr adnoddau yn y tîm grantiau yn cynnwys 2 swyddog cefnogol ychwanegol i help gyda rôl y Cyngor mewn perthynas â'r GCN. Ymddengys bod hyn yn ddigon, er y tybir y bydd swm y gwaith ynglŷn â'r GCN yn cynyddu a bod hyn yn debyg o ymestyn yr adnoddau yn y dyfodol.

3.110 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu gan y Cyngor broses lle mae ymgeiswyr posibl am gyllid refeniw neu gyfalaf am brosiectau datblygu chwaraeon yn llenwi ffurflen gychwynnol i ymholi am gyllido, sydd ar gael fel copi caled o swyddfeydd rhanbarthol a chan bartneriaid allweddol megis awdurdodau lleol, ac yn fwy diweddar o wefan y Cyngor. Ffurflen seml yw hon nad yw'n gofyn am lawer o wybodaeth gan y sefydliad sy'n gwneud cais. Unwaith iddi gael ei chyflwyno i'r swyddfa rhanbarthol mae swyddogion datblygu yn asesu'r wybodaeth a ddarperir, ac yn cysylltu â'r ymgeisydd os bydd angen, i weld a yw'n debygol o gwrdd â meini prawf unrhyw rai o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael, ac os felly i roi i'r darpar-ymgeisydd wybodaeth a phhecyn ymgeisio ar gyfer cynllun grant sydd ar gael. Ymddengys bod hyn yn gweithio'n dda, fel dull o sicrhau bod ymgeiswyr yn gwneud cais i'r gronfa iawn, a hefyd rhag gwastraffu ymdrechion ar geisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer unrhyw rai o'r cronfeydd neu sy'n debyg o gael eu hystyried yn isel iawn o ran blaenoriaeth.

3.111 Mae proses ymgeisio un cam yn bodoli ar gyfer yr holl grantiau refeniw cymunedol, er y bu'n rhaid llenwi ffurflenni cais gwahanol ar gyfer pob cynllun tan ddechrau eleni. Ym mis Ionawr 2003, symleiddiwyd hyn er mwyn sicrhau bod un ffurflen gais safonol yn bodoli ar gyfer y Grantiau Bach ar gyfer Community Chest, Grantiau Datblygu Chwaraeon Lleol, grantiau offer Bach a Club Cymru. Mae'r uchafswm y gellir gwneud cais amdano wedi cael ei godi i £10,000 hefyd. Er mai newydd gychwyn y mae'r gwaith o ymgorffori hyn, ac nad yw wedi cael ei hyrwyddo eto, mae'n debygol y bydd hwn yn welliant cadarnhaol i ddarpar ymgeiswyr, ac yn eu galluogi i lenwi un ffurflen yn unig ar gyfer prosiectau bach a gadael i'r Cyngor Chwaraeon benderfynu ar y cynllun ariannu priodol. Nid yw'n eglur eto a fydd hyn yn arwain at unrhyw drafferthion i'r Cyngor wrth iddo ddyrannu ceisiadau i wahanol gronfeydd, neu sut y caiff unrhyw anghydbwysedd o ran math y ceisiadau, ei drin os digwydd i hyn godi.

3.112 O ran grantiau Cyfalaf SPORTLOT, mae proses dau gam yn bodoli. Llenwir ffurflen gais gychwynnol ar gyfer y cam cyntaf sy'n gofyn am gyfanswm rhesymol o wybodaeth ynghylch y darpar brosiect, ond nid yw'n gofyn am unrhyw gynlluniau busnes neu gynlluniau datblygu chwaraeon manwl neu unrhyw gyfraniad technegol. I brosiectau yr ystyrir eu bod yn flaenoriaeth, efallai y gellir cael cymorth gan swyddogion datblygu rhanbarthol y Cyngor Chwaraeon os na ellir ei gael gan unrhyw ffynhonnell arall. Ar ôl ei gyflwyno, caiff y cais ei asesu yn y rhanbarth a chaiff ei wrthod, neu rhoddir "golau oren" iddo sy'n golygu ei bod yn

debygol y bydd yn cael cymorth os bydd yr ymgeisydd yn bodloni meini prawf yr ail gam, ac ar yr amod y darperir yr holl wybodaeth angenrheidiol. Ar yr adeg hwn, trosglwyddir y prosiect o'r tîm rhanbarthol i'r tîm grantiau, sy'n gallu cynnig pwynt cyswllt a chynghor cyson ynghylch agweddau technegol a chynllunio busnes y cynllun. Mae'n ymddangos bod y broses ddau gam hon yn ffordd effeithiol o weithio gyda phrosiectau, gan alluogi i gynlluniau blaenoriaeth gael cymorth priodol.

3.113 Yn gyffredinol, cefnogwyd ein proses dau gam yn ein hymgyngoriad. Fodd bynnag, nodwyd dau fater y gellir eu gwella. Y cyntaf yw y gallai ymgeiswyr sy'n llenwi ffurflen ymholiad cychwynnol, sydd yna'n gorfod llenwi cais y cam cyntaf a'r ail gam, deimlo bod yn rhaid iddynt lenwi 3 chais. Yr ail yw bod pryder o hyd ymhlith rhai o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw, bod y broses ymgeisio yn rhy fiwrocraidd a hirwyntog o hyd. Roedd rhai yn teimlo bod angen rhoi gormod o wybodaeth yn ystod y cam cyntaf ac y gall y broses gymryd gymaint â 10 mis yn ystod yr ail gam oherwydd y gwaith cynllunio manwl ynghylch y prosiect, busnes a datblygu chwaraeon, a ddisgwylir. Rydym yn ymwybodol bod y Cyngor yn ystyried y materion hyn ar hyn o bryd, ac y byddai'n cefnogi gwelliannau pellach i gam cyntaf y broses ymgeisio yn arbennig.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor gwblhau ei adolygiad o ffurflen gais y cam cyntaf a cheisio lleihau'r wybodaeth y gofynnir amdani.

3.114 Yn ogystal â'r dull gweithredu safonol tuag at SPORTLOT, mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu dull gweithredu mwy hyblyg tuag at weithio gyda chynlluniau mewn ardaloedd o amddifadedd sy'n cael blaenoriaeth. Mae cronfa cynhwysiad cymdeithasol mewn chwaraeon SPORTLOT yn cefnogi ceisiadau oddi wrth 100 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac oddi wrth ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mae enghreifftiau o'r prosiectau sydd wedi cael eu hariannu'n cynnwys prosiect Canolfan Hamdden Aberbargoed yng Nghaerffili a menter pêl-fasged Caergybi. Yn ogystal at hyn, trwy gyfranogiad gweithredol un o swyddogion y Cyngor, mae'r Cyngor wedi ceisio cynyddu buddsoddiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd awdurdodau lleol sydd wedi derbyn ariannu SPORTLOT hyd yma. I grynhoi, nid oes yn rhaid i'r sefydliad sy'n gwneud y cais, gyflwyno cais cam un safonol, a rhoddir llawer o gymorth iddo wrth gyflwyno yn ystod yr ail gam. Mae'r dull gweithredu hwn wedi bod yn llwyddiannus yn yr ardaloedd a dargedwyd hyd yn hyn ac mae'n cynrychioli ffordd gadarnhaol o weithio lle y mae dulliau gweithredu mwy traddodiadol wedi methu.

3.115 Mae'r prosiectau cychwynnol hyn yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni, ond maent wedi cymryd llawer o amser. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor ddigon o staff i sicrhau cynnydd tebyg yn yr holl ardaloedd sydd dan anfantais. Mae'n bwysig felly bod ganddo ddull gweithredu wedi'i gynllunio ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni, y blaenoriaethau ac o ran gweithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau y buddsoddi mwy. Mae angen i hyn gynnwys trefniadau i nodi sut all y dull gweithredu a'r gwersi a ddysgir, gael eu rhannu gyda'r asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio ar yr ochr ddarparu. Bydd angen cymorth traws-sector gan adrannau'r Cynulliad er mwyn gwneud gwahaniaeth sylweddol.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor gadarnhau'r ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a gaiff flaenoriaeth, y bydd yn gweithio gyda nhw dros y 2-3 blynedd nesaf, a dylai'r Cynulliad geisio gweithio gyda'r Cyngor i hwyluso buddsoddi a gwaith traws-sector gwell mewn chwaraeon yn yr ardaloedd hyn.

3.116 Mae rôl y Cyngor wedi bod yn un ymarferol dros y blynyddoedd diwethaf hefyd wrth nodi'r angen am gyfleusterau chwaraeon o arwyddocâd cenedlaethol, ac yna, gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu, ariannu ac ymgorffori'r prosiectau. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae prosiectau mawr SPORTLOT, gan gynnwys y cyfleusterau athletau dan do yn UWIC, y Ganolfan Griced Dan Do yng Nghaerdydd a'r Felodrom yng Nghasnewydd, wedi cael eu cwblhau mewn pryd a hynny heb wario mwy na'r arian yn y gyllideb. Yn y Cyngor, bernir bod SPORTLOT wedi sicrhau gwell gwerth am arian wrth ddarparu cyfleusterau cymunedol a pherfformio uchel na Chynghorau Chwaraeon eraill yn y DU. Er y byddai rhai cymariaethau sylfaenol o gostau cyfleusterau cymharol yn ymddangos fel pe baent yn cefnogi honiad o'r fath yn ôl pob golwg, ni wnaethpwyd unrhyw waith gwerthuso cadarn o amrediad llawn y

ffactorau, gan gynnwys y rhai yn ymwneud ag ansawdd a chostau cynnal a chadw parhaus cyfleusterau o'r fath, er mwyn gallu profi honiad o'r fath.

3.117 Mae swyddogion datblygu rhanbarthol yn gyfrifol am asesu grantiau refeniw bach ac mae'r grŵp rheolwyr rhanbarthol yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grantiau sy'n werth llai na £3,000. Mae'n ymddangos bod dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn dros grantiau bach, yn gweithio'n effeithiol.

3.118 Mae swyddogion rhanbarthol yn gyfrifol am asesu ceisiadau cyfalaf cam un hefyd, cyn y cânt eu cyflwyno i banel. Mae'r broses a ddilynir yn golygu bod swyddog unigol yn gwneud asesiad cychwynnol, ac yna, bydd y swyddogion rhanbarthol yn cynnal adolygiad o'r holl geisiadau posibl a'r argymhellion ynghylch y rhai i'w cefnogi. Mewn nifer bach o achosion, gall y swyddogion rhanbarthol sy'n paratoi'r asesiad cychwynnol, fod wedi bod yn darparu cymorth datblygu gweithredol i'r sefydliad sy'n ymgeisio. Yn ystod yr ail gam, bydd y tîm grantiau, sy'n darparu cyngor hefyd, yn asesu. Mae cyfranogiad swyddogion datblygu fel cynorthwyyr ac aseswyr, o fantais oherwydd ei fod yn sicrhau cysondeb a gwybodaeth fanwl am y prosiect a gynhelir, ond gall olygu hefyd na fydd yr unigolyn dan sylw yn gosod y prosiect hwnnw mewn cyd-destun ehangach a mwy gwrthrychol, a gallai roi'r unigolyn mewn sefyllfa lletchwith gyda'r partneriaid posibl os bydd y cais yn aflwyddiannus. Mae'n ymddangos, fodd bynnag, bod y dull gweithredu presennol yn gweithio'n gymharol dda. Er mwyn ei gryfhau ymhellach, pan ddarperir cymorth gweithredol i'r prosiect, gellid ystyried her gadarn gan gydweithwyr rhanbarthol ar y prosiect, cyn i'r broses ymgeisio gael ei chwblhau.

3.119 Mae'r pedwar panel SPORTLOT: Cenedlaethol, y De Orllewin, y De Ddwyrain a'r Gogledd, yn gwneud penderfyniadau ynghylch yr holl grantiau a ddyfernir gan SPORTLOT sy'n werth dros £3,000, ac eithrio Community Chest. Gall y fforymau ar Gynhwysiad Cymdeithasol a Chwaraeon i Fenywod a Merched, wneud argymhellion, ond nid oes ganddynt awdurdod wedi'i ddirprwyo, ynghylch grantiau a ddyfernir. Gwneir penderfyniadau ynghylch grantiau cyfalaf o hyd at £250,000 yn y rhanbarthau, a throsglwyddir unrhyw beth dros hynny, i'r Panel Cenedlaethol. Mae'n ymddangos bod hyn yn digwydd hyd yn oed pan na fydd gan y cynllun arwyddocâd cenedlaethol.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor adolygu'r trefniadau ynghylch dod i benderfyniadau ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol, gan geisio dirprwyo'r broses benderfynu ar bob prosiect nad yw o arwyddocâd cenedlaethol, i'r pwyllgorau rhanbarthol. Bydd angen gosod hyn mewn fframwaith cenedlaethol sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau strategol cyffredinol ar gyfer chwaraeon yng Nghymru.

3.120 Un mater a godwyd yn yr Arolwg o Ddirnadaeth Partneriaid a gynhaliwyd yn 2002, ac a godwyd gan leiafrif yn ystod ein hymgyngoriad, oedd nad yw'n ymddangos bod y broses benderfynu yn y Cyngor, ac yn enwedig o ran SPORTLOT, yn agored. Mae'n anochel mai'r rhai na chefnogwyd eu prosiectau neu eu ceisiadau am arian, sy'n teimlo hyn fwyaf. Er y credwn y rhoddir adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus, mae'n ymddangos bod rhywfaint o amheuaeth yn bodoli o hyd ynghylch sut y gwneir penderfyniadau. Ceir pryderon hefyd ynghylch nad yw asesiadau lleol ac asesiadau rhanbarthol/cenedlaethol y Cyngor yn cael eu cyd-drefnu'n dda bob amser. Argymhellwn fod hwn yn faes y dylai'r Cyngor ei archwilio ymhellach.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor drefnu ymgyngoriad pellach gyda'r partneriaid er mwyn nodi sut y gellir delio â materion yn ymwneud â pha mor agored yw'r broses benderfynu.

3.121 O ran Community Chest, mae gan bob Awdurdod Lleol Bwyllgor Community Chest sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol ac amrediad o grwpiau cymunedol a grwpiau chwaraeon lleol eraill. Mae Swyddog Grantiau yr Awdurdod Lleol (SGALI) yn gyfrifol am y gwaith o weinyddu ceisiadau am grantiau a chyfarfodydd y Pwyllgor, a bydd yn cynnig cyngor i'r Panel. Mae'r Pwyllgorau'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grantiau sy'n werth hyd at £750. Mae trefniadau wedi'u nodi'n eglur, yn arwain gwaith a phenderfyniadau SGALI a'r Pwyllgor. Cyfeiriodd lleiafrif o'r awdurdodau lleol at y pwysau gwaith gweinyddol uchel sy'n gysylltiedig â'r cynllun, a'r safon uchel a ddisgwylir gan y Pwyllgorau yn y ceisiadau am symiau cymharol bach o arian. Fodd bynnag, ar draws

amrediad o sefydliadau, ceir cefnogaeth gadarn iawn i ddull gweithredu'r Community Chest, ac mae'r mwyafrif o'r farn ei fod yn gweithredu'n effeithiol. Y tu allan i Gymru, mae Community Chest wedi cael ei nodi'n enghraifft o arfer da wrth ddatganoli'r broses benderfynu i lefel leol.

Gwasanaethau Canolog

Cyllid

3.122 Mae'n amlwg bod ansawdd y gwasanaethau cyllid wedi gwella dros y deunaw mis diwethaf ar ôl penodi'r Cyfarwyddwr Cyllid presennol, sydd wedi cael ei secondio o Swyddfa'r Archwiliad Cenedlaethol. Yn arbennig, mae penodi Rheolwr Ariannol wedi arwain at welliant yn y broses o adrodd gwaith monitro costau. Yn ogystal, gwnaethpwyd ymdrech i adolygu prosesau ariannol, delio â phroblemau ynghylch ymgorffori systemau ariannol Sun, ffurfio fframwaith asesu risg a darparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr i'r Pwyllgor Archwilio.

3.123 Darperir y gwasanaeth gan chwe aelod o staff sy'n gweithio i'r Cyfarwyddwr Cyllid, gan ddarparu gwasanaeth cyllid llawn i'r Cyngor yn ogystal â gwasanaeth adrodd a chadw cyfrifon i'r ddwy Ganolfan Genedlaethol. Fel y nodwyd yn yr adran ar Blas Menai, dylai'r gwaith cyfrifyddu gael ei symleiddio pan ymgorfforir system archebu a chadw sy'n integreiddio gyda Sun financials. Achosir swm sylweddol o'r pwysau gwaith gan y gwasanaeth grantiau cyfalaf a refeniw, sy'n gofyn am brosesu cyfansymiau sylweddol o drafodion bach. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi adolygu'r strwythur fel rhan o ymarfer cyffredinol o ymchwilio lefel y gwasanaeth sy'n angenrheidiol a'r trefniadau sy'n bodoli i reoli trafodion. Ar y cyfan, credwn fod yr adnoddau presennol yn briodol i'r pwysau gwaith.

Gwasanaethau Corfforaethol

Ymchwil a Gwerthuso

3.124 Cyflawnir y swyddogaeth ymchwilio a gwerthuso gan dîm mewnol y Cyngor, a thrwy dendro contractau ymchwil allanol. Dan y rheolwr Ymchwil a Gwerthuso, mae strwythur y staff yn cynnwys 4 swyddog ymchwilio a gwerthuso, swyddog gwybodaeth a swyddog gweinyddol. Yn ogystal, mae rheolwyr rhanbarthol a swyddogion datblygu yn cynnal rhywfaint o waith monitro, yn arbennig o ran prosiectau a ariennir gan SPORTLOT.

3.125 Mae Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso 2002/04 yn nodi mai amcanion y gwasanaeth yw "darparu sail wybodaeth gadarn er mwyn datblygu polisiau strategol a mecanwaith er mwyn monitro a gwerthuso polisiau presennol". Mae rhaglen ymchwilio, monitro a gwerthuso wedi cael ei chynllunio a'i nodi ar gyfer 2002-2004. Mae'r rhaglen fewnol yn cynnwys gwerthusiadau o raglenni craidd megis Chwaraeon y Ddraig a Club Cymru, gwaith monitro SPORTLOT a gwerthusiadau digwyddiadau neu hyfforddiant unigol. Yn ogystal, mae'r adran yn cynrychioli'r Cyngor o ran materion yn ymwneud â chynllunio a hamdden dŵr a chefn gwlad, gan ddarparu'r wybodaeth i'r cyhoedd a'r staff drwy'r ganolfan wybodaeth. Mae'r gwaith allanol yn cynnwys yr astudiaethau ymchwil mwy megis yr arolygon cyfranogiad oedolion a phobl ifanc ac arolygon sy'n hysbysu'r Cyngor ynghylch ei berfformiad ei hun megis yr arolwg o ddirnadaeth partneriaid a defnyddwyr WIS.

3.126 Er y gall y gwaith monitro a gwerthuso gymryd cryn amser, ystyriwn fod yr adnoddau dynol yn yr adran yn ddigonol er mwyn delio â'r pwysau gwaith a rheoli dull gweithredu cyfunol o ddarparu'n fewnol ac yn allanol.

3.127 Mae'n eglur bod yr arfarniadau mewnol yn cael eu defnyddio wrth baratoi cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac addasu datblygiad rhaglenni, er y gellir gwella'r dull gweithredu i gynnwys mwy o werthusiad o effaith a chanlyniadau cymdeithasol ehangach mentrau, a lledaenu'r wybodaeth a gesglir (arfer da a'r gwersi a ddysgir) i gynulleidfa ehangach.

3.128 Mae'r Cyngor wedi ceisio darparu rhywfaint o wybodaeth ymchwil berthnasol i bartneriaid, er enghraifft, roedd y cyhoeddiad "Fitter Wales, Healthier Nation" yn 2000 yn amlinellu manteision cymdeithasol, economaidd ac iechyd eang chwaraeon, er mai tystiolaeth gyfyngedig sydd ynddo i gadarnhau'r honiadau. Mae'r awdurdodau eu hunain yn gwerthuso'r data cyfranogi a ddarperir ar lefel awdurdod lleol bob dwy flynedd, ac mae'n elfen ddefnyddiol hefyd i'r swyddogion datblygu rhanbarthol sy'n gweithio ym mhob ardal. Er bod casglu data o'r fath yn bwysig, efallai y bydd yn briodol cynnal y gwaith ymchwil hwn yn llai cyson er mwyn rhyddhau adnoddau er mwyn cynnal gwaith arall sydd yr un mor arwyddocaol.

3.129 Ni cheir fframwaith gwerthuso eglur sy'n nodi sut y mae'r gwaith ymchwilio a monitro a wneir gan yr adran, yn sicrhau y mesurir y canlyniadau sy'n cael blaenoriaeth – boed yn ganlyniadau busnes, cymdeithasol/economaidd neu chwaraeon. Mae hyn ynddo'i hun yn golygu na ddadleuwyd yr achos dros ddyrannu adnoddau at ddibenion monitro a gwerthuso, yn dda. Ni wnaethpwyd unrhyw ymgais i gasglu data ymchwil a fydd yn dangos cyfraniad chwaraeon i amcanion ehangach y Cynulliad, ac nid yw'r staff y gwnaethom siarad â nhw, yn ystyried eu bod yn gyfrifol am wneud hyn. Nid ydym yn ymwybodol bod y Cyngor yn cymryd camau cadarnhaol i annog partneriaid a ariennir, i gasglu data a chynnal gwaith ymchwil a fydd yn helpu i ddatblygu'r sail dystiolaeth i Gymru. Caiff gwaith ymchwil ansoddol cyfyngedig ei gynnwys yn y broses werthuso. Deallwn na cheir cyswllt rheolaidd gyda Chynghorau Chwaraeon Gwlad Cartref eraill ynghylch materion yn ymwneud ag ymchwilio, a fyddai'n gyfle i rannu syniadau a gwybodaeth, ac os byddai hynny'n briodol, i gynnal ychydig waith ymchwil a fydd o fudd i'r ddwy ochr.

3.130 Ni ymddangosir y dyrannwyd cyllidebau priodol gan SPORTLOT er mwyn galluogi i waith ymchwil ansoddol gael ei wneud. Mae'r dull gweithredu presennol tuag at fonitro, yn cymryd amser swyddog rhanbarthol, y gallai fod wedi cael ei ddefnyddio i gynnal gweithgarwch datblygu.

Argymhelliad: Dylid ystyried y gyllideb a ddyrennir i ymchwilio a gwerthuso prosiectau a ariennir gan SPORTLOT a'r broses o ddyfarnu contractau i fonitro prosiectau a ariennir gan SPORTLOT. Dylai hyn gynnwys ychydig waith ymchwil ansoddol.

3.131 Nid yw'n ymddangos ei fod yn arfer safonol i ledaenu arfer da a gwersi a ddysgir yng nghanfyddiadau'r gwaith o fonitro rhaglenni neu brosiectau a ariennir gan SPORTLOT, er bod y canllaw arfer da a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer swyddogion datblygu Chwaraeon y Ddraig, yn dangos y gellir cyflawni hyn. Mae gwefan y Cyngor yn un dull gweithredu y gellir ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod cynulleidfa ehangach yn gallu manteisio arno.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor gynnal adolygiad sylfaenol o flaenoriaethau ac amcanion gwaith ymchwil a gwerthuso. Dylid rhoi sylw arbennig i ddatblygu fframwaith gwerthuso cadarn ar gyfer chwaraeon, a fydd yn cynnwys casglu a lledaenu'r dystiolaeth er mwyn dangos gwerth chwaraeon yng Nghymru ar y cyd â phartneriaid yn y DU ac yng Nghymru, ac arfer da.

3.132 Mae argymhelliad 3.9 yn yr adran gynharach ynghylch Mesur Perfformiad, yn berthnasol i'r broses o adolygu gwaith ymchwil a gwerthuso.

3.133 Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth yn rhan o'r gwasanaeth Ymchwil a Gwerthuso hefyd. Mae'n cynnwys llyfrgell gyfeirio y ganolfan wybodaeth, gwybodaeth a ddarperir drwy'r wefan (er mai'r adran farchnata sy'n gyfrifol am ei reoli), deunyddiau a gyhoeddir a rheoli'r gronfa ddata. Fe'i lleolwyd yn WIS ac mae dau aelod o dim y staff yn gyfrifol amdano ac mae ganddo gyllideb weithrediadol bach. Mae Strategaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth ar gyfer 2002-2006 yn cyfeirio at rôl codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth, ac a fydd ar gael i'r staff, y cyhoedd a sefydliadau eraill i'w ddefnyddio. Mae'n nodi nifer o faterion i'w hystyried a chrynodeb o raglen waith, ond nid yw'n gosod amcanion na thargedau eglur ar gyfer y gwasanaeth, nac yn egluro pwy yw'r cynulleidfaoedd sy'n cael blaenoriaeth. Nid yw'n amlwg y cynhaliwyd gwerthusiad o'r angen parhaus i'r Cyngor fod yn ddarparwr uniongyrchol yr holl agweddau ar y gwasanaeth.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor gadarnhau amcanion a blaenoriaethau'r gwasanaeth gwybodaeth, ac adolygu pa mor effeithiol ydyw wrth fodloni anghenion defnyddwyr. Dylid ystyried dewisiadau amgen i rôl y Cyngor fel darparwr uniongyrchol yr holl agweddau ar y gwasanaeth, er enghraifft rheoli cronfeydd data.

Gwasanaethau TG

3.134 Darperir gwasanaethau i bob adran yn WIS ac i Blas Menai, yn ogystal â swyddfeydd rhanbarthol Caerfyrddin a Glannau Dyfrdwy. Dan y Rheolwr TG, mae'r staff yn cynnwys gweinyddwr rhwydwaith, rhaglennwr a gweinyddwr desg gymorth. Yn ogystal, trefnir cyfnod ar leoliad profiad gwaith i ddau sy'n dilyn cyrsiau prifysgol perthnasol. Gwnaethpwyd cynnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth i'r Cyngor drosglwyddo i amgylchedd swyddfa wedi'i seilio ar Microsoft – yn ystod yr ymgynghoriad â'r staff yng ngham 1, gwelwyd mwy a mwy o fodlonrwydd â'r cymorth TG sydd ar gael. Gellir cyrraedd y rhanbarthau'n gynt a bwriedir gwneud rhagor pan fydd Band Llydan Cymru yn dod yn wasanaeth effeithiol. Caiff y gwaith i gynnal a chadw'r gwefan ei osod ar gontract ac mae'r adran farchnata yn talu am hwn yn llawn. Nid oes modd sganio a rheoli dogfennau ar hyn o bryd, ond mae'r adran yn ymchwilio'r mater.

3.135 Diwygiwyd cynllun gwefan y Cyngor yn ddiweddar, gan gynnig sail wybodaeth fwy a mwy defnyddiol, ynghyd â chyfleuster chwilio a chysylltiadau ag ystod eang o sefydliadau partner. Rheolir y cynllun gan yr adran farchnata a cheir cymorth technegol trwy ei osod allan drwy'r gwasanaethau TG. Yn yr adran ar Blas Menai, rydym yn rhoi sylwadau ar yr angen i ddarparu gallu e-fasnach ar gyfer y rhan hwn o weithrediadau'r Cyngor.

3.136 Caiff blaenoriaethau datblygu ar gyfer systemau gwybodaeth y Cyngor, eu nodi'n eglur yn ôl blaenoriaeth, yn y strategaeth TG. Ym mis Awst 2002, cytunwyd ar 5 targed blaenoriaethau uchel, 6 targed blaenoriaeth canolig a 3 targed blaenoriaeth isel. Y prosiect mwyaf sy'n cael blaenoriaeth uchel yw ymgorffori'r gronfa ddata GIFTS a fydd yn cyfuno, ar lefel gorfforaethol, yr holl wybodaeth ynghylch grantiau a datblygu a gedwir mewn amrywiaeth o gronfeydd data a thaenlenni yn y Cyngor ar hyn o bryd. Yn y pen draw, bydd hyn yn cynorthwyo wrth adrodd yn fwy agored am ystod cyfan o weithgareddau ar sail meysydd allweddol cyffredin ar draws y Cyngor. Bydd hwn yn brosiect mawr iawn a fydd yn cynnwys nid yn unig ymgorffori cais newydd, ond cytuno ar y broses o saernio data ar draws y Cyngor, glanhau ac ehangu hanes y data presennol a rheoli'r broses o'i drosglwyddo i'r amgylchedd newydd hefyd.

3.137 Casglwn fod lefel yr adnoddau yn y gwasanaethau TG yn briodol i anghenion y Cyngor, a bod amrediad y targedau yn y strategaeth, yn enwedig ymgorffori GIFTS, yn debygol o ymestyn yr adnoddau hynny'n sylweddol.

Adnoddau Dynol, Cofrestru, Cofnodion

3.138 Y Rheolwr AD sy'n gyfrifol am reoli'r holl feysydd hyn. Maent yn cynnwys 2 weithiwr amser llawn cyfatebol yn gweithio ar faterion personél, swyddog deunydd papur a chofnodion a thri o bobl sy'n gweithio i'r gwasanaethau cofrestru. Mae gwasanaethau cofrestru yn cynnwys rheoli'r gwasanaethau post, y gwasanaethau reprograffig, cofnodi contractau a cheir cronfa.

3.139 Mae llawer o ymdrechion y Rheolwr AD wedi cael eu neilltuo ar gyfer gwella trefniadau ac arferion AD er mwyn gwella ansawdd recriwtio, hyfforddi ac asesu a'r prosesau cofnodi cysylltiedig. Ffrwyth llafur yr ymdrechion hyn oedd sicrhau statws Buddsoddwyr mewn Pobl, a ailgadarnhawyd yn ddiweddar. Mae prosesau gwell yn golygu cost weinyddol – er hyn, ystyriwn fod y lefel AD bresennol tuag at ben uchaf y disgwyliadau o ystyried bod yr adran gyllid yn prosesu'r gyflogres. O ran cofrestru a chofnodion, nid yw'r gweithgareddau wedi cael eu hadolygu'n fanwl ers cryn amser, a gellir nodi mai'r gweithrediadau hyn a fyddai'n elwa ar ymgorffori rhaglen effeithlonrwydd, fel yr argymhellir yn yr adran lywodraethu isod.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor gynnal adolygiad manwl o adrannau AD, cofrestru a chofnodion er mwyn cadarnhau bod lefel a strwythur y staff yn briodol i'w anghenion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol (yn enwedig os digwydd i newidiadau mawr ddigwydd yn WIS).

Gwasanaethau Ysgrifenyddol

3.140 Cedwir yr holl gymorth ysgrifenyddol mewn un uned sy'n darparu cymorth ysgrifenyddol i Gyfarwyddwyr ac uwch reolwyr yn ôl yr angen, ac sy'n darparu cymorth i'r Cyngor a'i Bwyllgorau hefyd, yn ogystal â chyfres o baneli sy'n gysylltiedig â Sportlot, Sportsmatch a materion ariannu eraill. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys pum aelod o staff amser llawn a dau aelod o staff rhan-amser, er bod un o'r staff amser llawn yn ymddeol ac mae'r tîm rheoli uwch yn ystyried a ddylid parhau'r swydd.

3.141 Ni cheir llawer o dystiolaeth bod pwysau gwaith y grŵp hwn wedi cael ei ddadansoddi'n ddiweddar er mwyn pennu'r gofyniad, a pha gymysgwch o staff a defnyddio staff asiantaeth a allai fodloni'r anghenion orau. Mae'n amlwg bod materion yn ymwneud â pharhad yn bodoli a allai olygu bod defnyddio staff mewnol yn fwy dymunol ar gyfer rhai agweddau ar y gwaith, ond heb y dadansoddiad sylfaenol, mae'n anodd iawn ffurfio barn.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor gynnal adolygiad o weithgareddau'r grŵp ysgrifenyddol er mwyn pennu cymysgedd orau'r staff i ddarparu'r anghenion cymorth, gyda'r nod o gostio effeithiolrwydd y gweithrediad. Fel rhan o'r adolygiad hwn, dylid archwilio'r arferion presennol sy'n cynorthwyo'r pwyllgorau a'r paneli unigol. Dylid defnyddio'r adolygiad fel ffordd o benderfynu sut y gellir rheoli'r gwaith hwn orau yn y dyfodol hefyd.

Marchnata a Materion Cyhoeddus

3.142 Ceir 7 aelod o'r tîm marchnata a materion cyhoeddus: 1 rheolwr, 2 swyddog marchnata a materion cyhoeddus, 2 swyddog y wasg, y Swyddog Sportsmatch a Rheolwr y We. Darperir mwyafrif y gwasanaethau gan y tîm mewnol er y caiff y Gwasanaeth Cyngori ynghylch Nawdd ei osod allan ar gontract a'i ddefnyddio yn ôl yr angen er mwyn ceisio nawdd am gynlluniau a mentrau allweddol y Cyngor Chwaraeon. Mae gan WIS a Phlas Menai adnodd marchnata ychwanegol.

3.143 Paratowyd y strategaeth farchnata ddiweddaraf ar gyfer y Cyngor, ar gyfer blwyddyn weithrediadol 2000-2001. Ei brif nod oedd datblygu delwedd gorfforaethol eglur a chodi proffil Cyngor Chwaraeon Cymru. Hwn yw'r prif amcan o hyd, fel y nodir yn y cynllun gweithrediadol ar gyfer 2002-2003, er y rhoddir pwyslais eilaidd ar gael cydnabyddiaeth am waith da y Loteri yng Nghymru a sicrhau bod y Cyngor yn cael ei gydnabod yn un o ddosbarthwyr arian y Loteri. Mae codi proffil cynlluniau unigol a gwella'r trefniadau cyfathrebu mewnol ac allanol, yn amcanion a nodwyd hefyd.

3.144 Nid yw codi ymwybyddiaeth o fanteision chwaraeon a chyfleoedd chwaraeon, yn cael eu nodi fel amcanion ar gyfer y gwasanaeth marchnata, er bod llawer o'r gwaith a wnaiff, er enghraifft gyda chwaraeon i fenywod a merched, yn cyfrannu tuag at y nod hwn.

3.145 Mae'r Cyngor yn defnyddio amrediad o ddulliau marchnata, gan gynnwys datblygu cysylltiadau â'r cyfryngau, cyhoeddiadau a deunyddiau argraffedig, y wefan a mynychu arddangosfeydd. Mae'r adran wedi cael ychydig lwyddiant mewn meysydd allweddol, er enghraifft rhoddwyd mwy o sylw cyffredinol i'r Cyngor ac i chwaraeon i fenywod a merched yn y wasg, ac mae hyrwyddo Sportsmatch bellach yn golygu nad yw'r gronfa'n ddigon mawr i ddelio â'r holl geisiadau. Fodd bynnag, heb strategaeth farchnata gydlynol sy'n nodi canlyniadau allweddol i'w sicrhau, a mesur effaith y gwahanol ddulliau gweithredu mewn ffordd briodol, mae'n anodd gweld a yw'r gwasanaeth yn hollol effeithiol.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor baratoi strategaeth farchnata newydd ar ôl cymryd penderfyniadau allweddol ynghylch cyfeiriad strategol y Cyngor a'i wasanaethau. Dylai unrhyw gynllun yn y dyfodol nodi sut y bydd y nodau marchnata a'r dulliau a ddefnyddir yn cyfrannu at amcanion busnes a strategol y Cyngor, a dylent gynnwys y cynllun eiriolaeth fel yr amlinellwyd yn argymhelliad 3.19. Dylid paratoi cynllun gweithredu a dylid adolygu perfformiad bob blwyddyn, gan gynnwys asesu'r ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

Trosolwg o'r Gwasanaethau Canolog

3.146 O ran safbwynt lefel uchel o feysydd y gwasanaeth canolog, nid yw'n eglur bod cyfiawnhad dros ddau gyfarwyddwr gwasanaethau canolog yn y tîm rheoli uwch. O ystyried rôl y Cyngor, gallai hyn gael ei ystyried yn anghybwys o'i gymharu â'r ddau rôl gweithrediadol sef y Gwasanaethau Datblygu Cenedlaethol a'r Gwasanaethau Datblygu Lleol. Mae Ymchwil a Gwerthuso yn gwasanaethu'r broses gynllunio corfforaethol, ond mae'n amlwg ei fod yn hanfodol yn weithrediadol ac y gallai berthyn i amgylchedd gweithrediadol yr un mor hawdd. Mewn tîm rheoli bach a thynn, nid yw'r dadleuon dros arwahanu'r swyddogaeth ymchwil a datblygu o'r gweithrediadau, mor gryf ag y byddai mewn sefydliad mawr. Mae gan yr adran farchnata rôl adrodd uniongyrchol i'r Prif Weithredwr eisoes.

3.147 Mae'r cysylltiadau rhwng cynllunio corfforaethol a chyllid yn gryf iawn hefyd ac, yn enwedig ers penodi rheolwr ariannol, ceir dadleuon cryf dros gyfuno'r cyfrifoldebau dros y gwasanaethau cyllid, cynllunio corfforaethol a gweinyddol, dan oruchwyliaeth briodol y Prif Weithredwr. Yn ogystal, mae'n gyfle da i adolygu cymysgwch y sgiliau y mae eu hangen er mwyn rheoli'r maes hwn.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor adolygu strwythur ei swyddogaethau gweithredol uwch yn y meysydd sy'n delio â gwasanaethau corfforaethol, gyda'r nod o gyfuno swyddogaethau sy'n debyg iawn i'w gilydd ac egluro'r llinellau adrodd mewn gwasanaethau.

Goblygiadau Cyfeiriadau Strategol Newydd

3.148 Yn Ngham 1 yr adroddiad hwn, trafodwyd cefndir strategol gwaith Cyngor Chwaraeon Cymru. Yn yr adroddiad hwn, trafodir y meini prawf a allai gael eu defnyddio i osod blaenoriaethau ynghylch ariannu chwaraeon yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r agenda sy'n newid yn rhagweld set gyfan o newidiadau mawr posibl a fyddai'n effeithio ar y Cyngor mewn ffordd fwy sylfaenol nag yn y mater a godwyd yn y paragraff blaenorol. Gallai'r rhain gynnwys:

- ❑ Troi WIS yn gyfleuster i bobl elite yn unig
- ❑ Posibilrwydd symud Plas Menai i strwythur gwahanol
- ❑ Newidiadau posibl i'r ffocws strategol, e.e. i'r meysydd lles cymdeithasol ac iechyd
- ❑ Trefniadau arwyddocaol posibl i ailosod blaenoriaethau trefniadau i ariannu chwaraeon yng Nghymru ac ar gyfer athletwyr elit

3.149 Byddai ymgorffori un o'r mathau hyn o newidiadau neu fwy, yn arwain at gwestiynau ynghylch lefelau'r adnoddau a'r sgiliau a fyddai eu hangen er mwyn darparu gwasanaethau, ac a fyddai'r rhain yn bresennol yn y Cyngor neu thrwy weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor. Byddai strwythur sylfaenol y Cyngor yn cael ei gwestiynu ar yr adeg hwn hefyd.

Argymhelliad: Ar ôl cwblhau strategaeth ddiwygiedig ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, mae'n hanfodol bod strategaeth y Cyngor yn cael ei ystyried unwaith eto a bod y strwythur adnoddau a threfniadaeth a fyddai ei angen i ddarparu'r gwasanaethau, yn cael ei adolygu.

4. Ymdrin â Blaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

4.1 Yn ei llythyr i'r Cyngor yn nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer 2002/3 nododd yr Ysgrifennydd Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg gyfres o dargedau caled a meddal y mae'n disgwyl i'r Cyngor eu cyflawni. Crynhoir y targedau caled yn y tabl canlynol:

Maes Perfformiad	Targed	Rhagolwg Gwirioneddol
Cyfyngiad ar y gyllideb arian parod	£8.678m	£8.678m
Cyfyngiad ar gyllideb costau rhedeg	£1.047m	£1047m
Cyllid ychwanegol i gyrff llywodraethu	£197,000	£197,000
Cynnydd yn y defnydd o Ganolfannau Cenedlaethol gan gyrff llywodraethol y flwyddyn	200 awr	Sail y mesur wedi symud ond cynnydd yn amlwg
Cynnydd mewn ysgolion yn y cynllun "Merched yn gyntaf"	70	50*

Cynnydd yn y cyllid a'r cyhoeddusrwydd – rhaglen Menywod a Merched	£100,000	£100,000
Cyllid ychwanegol – Chwarae Teg	£10,000	£10,000+
Cyllid ychwanegol – Clwb Bechgyn a Merched/Urdd	£30,000	£30,000
Cyllid ychwanegol – Swydd Amddiffyn Plant yng Nghymdeithas Chwaraeon Cymru	£20,000	£20,000
Ail-ddatblygu gwefan/ykestyn mentrau marchnata	£15,000	£15,000
% o rai 7-11 oed yn ymwneud â chwaraeon allgyrsiol	80%	81%*
Campwyr Cymru yn ddynion a menywod sy'n cynrychioli Prydain	320	Dim ar gael eto gan Gyrrff Llywodraethu Cenedlaethol*
Nifer o ysgolion cynradd lle mae Campau'r Ddraig wedi eu sefydlu	600	620*
Cynlluniau gweithredu a weithredwyd ar gyfer Clwb Cymru	323	Y cynllun wedi ei adael yn dilyn adolygiad
Grantiau a ddosbarthwyd trwy'r Gist Gymunedol	1200	1200*
Ysgolion gyda gweithgareddau allgyrsiol i ferched wedi eu datblygu	180	160*
Cynyddu'r clybiau penodol i'r anabl a rhai pan-anabl o 30	30	44*
% o gyrrff llywodraethol chwaraeon cystadleuol yn hunan gynhaliol	90%	88%*
Hyfforddwyr Coach Cymru a gefnogir	35	35*
Oriau y mae gan gyrrff llywodraethol gyswllt â WIS	20,000	20,000*
Mynediad myfyrwyr yn y dydd i Blas Menai	17,500	20,000
Athletwyr Elite Cymru a gefnogir	140	190*
Cyllid a ddarperir i ddatblygu golff	£400,000 gan gynnwys cyllid loteri	£400,000
Nawdd a gynhyrchwyd trwy Sportsmatch	£405,000	£405,000
Cyllid a roddir i'r "Cynllun Gweithredu Cymru Tasglu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol"	£500,000	£500,000
Mwy o gydnabyddiaeth i'r cyswllt rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru	Adolygu'r brandio	Parhaus

* Ffynhonnell – Cynllun Gweithredol 2002/3: Adolygiad Chwe Mis

+ Ffynhonnell – Cyfrifon rheoli

Eitemau eraill - Ffynhonnell rhagolwg rheoli

4.2 Yr eitemau y mae angen rhoi sylwadau arnynt yw:

- Mae'r gyllideb arian parod yn cael ei llunio trwy adio'r canlynol:
 - Cyfyngiad arian yn ôl para 1.3 o'r llythyr cylch gorchwyl 7.958
 - Cyllid ychwanegol a gymeradwywyd yn ôl para 1.4 .650
 - Cyllid dilynol y cytunwyd arno ar gyfer Fforwm Pêl-droed .070
- Deuir at y costau rhedeg trwy dynnu £167,000 o'r £1.210m a ddyfynnir yn y llythyr cylch gorchwyl parthed y ddarpariaeth ar gyfer cynnydd cyflog nad yw'n gysylltiedig â chostau rhedeg
- Mae asesiad manwl ar y gynrychiolaeth Brydeinig yn ddibynnol ar y ffurflenni gan gyrrff llywodraethol nad ydynt ar gael eto. Mae'r Cyngor yn credu y bydd yn cyrraedd y targed.
- Dirwynwyd Clwb Cymru i ben erbyn hyn fel prosiect ar wahân yn dilyn adolygiad anffafriol o'i gymharu â'r canlyniadau yn nechrau 2002. Mae'r cynllun erbyn hyn wedi ei ailintegreiddio i'r gwaith datblygu clwb.

- ❑ Mae'r gwaith brandio ar y gweill. Mae'r Cyngor yn trafod sut y mae'n bodloni gofynion DCMS a Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth benderfynu ar strategaeth frandio derfynol.

Cynllun Cymru 2001 a'r Strategaeth Ddiwylliant

4.3 Mae'r llythyr cylch gorchwyl yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithio o fewn cydestun Cynllun Cymru. Yn Atodiad F rydym yn cynnwys y ddogfen ddyddiedig Ionawr 2003 lle mae'r Cyngor yn gosod ei waith ar y pryd hynny yng nghyd-destun ehangach y Strategaeth Ddiwylliant i Gymru. Mae hwn yn grynodeb teg o'r ymateb i'r dogfennau hyn gan y Cyngor, er y byddem yn dadlau parthed effeithiolrwydd y cyswllt a fu gyda chyrrff sy'n bartneriaid i symud y rhaglenni hyn ymlaen.

4.4 Nodwyd mai ffocws cenedlaethol y Cyngor yw:

- ❑ Cefnogi a datblygu cyrrff llywodraethol chwaraeon;
- ❑ Cefnogi datblygiad safonau hyfforddi cenedlaethol;
- ❑ Cynorthwyo dynion a merched talentog ym myd chwaraeon i gyflawni eu potensial;
- ❑ Darparu cynllun datblygu golff ar gyfer Cymru;
- ❑ Cefnogi ac annog buddsoddiad ariannol a chefnogi busnes a diwydiant yn natblygiad chwaraeon yng Nghymru.

4.5 Ar y tri cyntaf y mae digon o dystiolaeth o'r gwaith a wnaed gan y Cyngor i gefnogi chwaraeon amatur. Mae'r prif chwaraeon proffesiynol yn dueddol o weld y Cyngor fel corff mymlol, ac fel y nodwyd yng nghyfnod I yr adolygiad hwn, rhaid cael strategaeth glir ar gyfer rôl y Cyngor parthed chwaraeon proffesiynol yng Nghymru i ymdrin â hyn. Cyflwynwyd cynlluniau mwy penodol na'r rhai a roddir yn y Cynllun Corfforaethol ar ddatblygu hyfforddi o ansawdd yng Nghymru. Cyflwynodd y Cynllun ar gyfer 2003/4 – 2005/6 geisiadau am £1m yn 2003/4 a £2m yn y ddwy flynedd ddilynol. Mae hyn yn cyflwyno cyfres o ganlyniadau perthnasol ond nid yw'n rhoi digon o dystiolaeth o ganlyniadau mesuradwy a sut y bydd y dulliau cyflwyno yn cyflawni y rhain.

4.6 Mae'r Cyngor yn annog Undeb Golffio Cymru i gynhyrchu strategaeth – mae'n amlwg ei bod yn bwysig i hon gael ei datblygu gan y corff llywodraethu cenedlaethol a'i bod yn berchen iddynt hwy. Mae'r berthynas rhwng y Cyngor ag Undeb Golffio Cymru yn glos ac mae'r gefnogaeth a gynigir gan y Cyngor yn cael ei chydabod.

4.7 Ar y pwynt olaf mae gweithgareddau Sportsmatch Cymru yn parhau i ddenu cyllid sylweddol i chwaraeon yng Nghymru gan noddwyr trwy gyfateb i'r arian nawdd a ddenir (rhagwelir y bydd yn £405,000 ar gyfer y flwyddyn 2002/3). Ond y duedd yw i chwaraeon unigol neu bartneriaid eraill y Cyngor fynd at noddwyr, nid y Cyngor ei hun. Ar yr agenda ehangach o ennill cefnogaeth busnes a diwydiant i ddatblygu chwaraeon yng Nghymru, mae'n anos gweld effaith y Cyngor. Tu hwnt i effeithiau cyhoeddusrwydd cyffredinol o gwmpas y prosiectau y mae'r Cyngor yn ymwneud â hwy mae'n anodd gweld rhaglen ar gyfer ymwneud â busnes a diwydiant.

Addysg a Dysgu Gydol Oes

4.8 Mae'r llythyr cylch gorchwyl yn tynnu sylw at y maes hwn fel un y mae gan y Cyngor rôl bwysig i chwarae ynddo. Rhoddodd y Cyngor flaenoriaeth i waith mewn ysgolion, a bu'r pwyslais cynnar ar waith mewn ysgolion cynradd. Mae'r ffocws hwn yn awr yn symud mwy tuag at y sector uwchradd gyda ffocws ychwanegol ar annog merched i gymryd rhan. Yr agwedd o ymateb y Cyngor sy'n peri pryder parthed yr eitem hon ar yr agenda yw absenoldeb safiad clir o ran addysg uwch/addysg bellach ar amser pan welir niferoedd y myfyrwyr yn cynyddu'n gyflym. Hefyd, mae'n glir iawn mai strategaeth y Cyngor yw canolbwyntio ar gyllido oedrannau iau er mwyn sefydlu rhaglen ffordd o fyw a fydd yn cael yr effaith o gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan. Mae hyn yn golygu nad oes canolbwyntio adnoddau ar annog oedrannau hyn yn y boblogaeth i gymryd rhan. Rhoddir cyfyngiadau cyllidebol fel y rhesymau pam nad oes cynlluniau clir ar gyfer y meysydd hyn.

Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion

4.9 Mae'r agenda hon yn cynnwys dau brif weithgaredd:

- ❑ Gweithredu "Cynllun Gweithredu Cymru – Tasglu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol" y mae ffrwd cyllid ar wahân yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- ❑ Darparu cefnogaeth ddatblygu a chyngor technegol i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd (NOF) ar gyfer y gwaith y maent hwy yn ei gyllido yn y maes hwn.

Yn yr achos cyntaf fe wnaed penodiad cydlynu ac mae'r ffrwd cyllido yn cael ei defnyddio. Yn achos y gwaith NOF mae'n anodd mesur effeithiolrwydd rôl y Cyngor yn y cyfnod cynnar hwn. Bydd llwyddiant yn cael ei fesur trwy gyfrwng maint y datblygiadau a welir trwy NOF wrth ymdrechu tuag at yr amcanion cyffredinol ar gyfer datblygu chwaraeon mewn ysgolion yng Nghymru.

Cynhwysedd ac Adfywio Cymunedol

4.10 Mae'r Cyngor yn gweithredu i roi blaenoriaeth i adnoddau a chyllid i ardaloedd difreintiedig ac i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli mewn chwaraeon, yn cynnwys pobl ag anableddau, menywod a merched. Mae'r fenter Cynhwysedd Cymdeithasol mewn Chwaraeon o fewn SPORTLOT ar gyfer ardaloedd sy'n dioddef amddifadedd a grwpiau difreintiedig yn galluogi cynlluniau mewn ardaloedd o'r fath i dderbyn hyd at 100% o'r cyllid gan y Cyngor ac fe fyddan nhw hefyd yn cymryd i ystyriaeth costau a wynebir wrth ddatblygu'r prosiect. Ers 2000 cyllidodd cyfalaf SPORTLOT brosiectau cyfalaf a refeniw o fewn y 100 ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru, llawer ohonynt wedi cael cymorth â'r gwaith datblygu gan staff y Cyngor. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y cyllid i Flaenau Gwent a Merthyr Tudful, a oedd yn derbyn lefelau isel iawn o fuddsoddiad SPORTLOT, trwy ymagwedd fwy rhagweithiol gan y Cyngor gyda phartneriaid. Mae'r agwedd at ariannu mewn ardaloedd difreintiedig wedi bod yn hyblyg ac mae wedi cydnabod y cyfraniad y gellir ei wneud trwy wneud pobl yn fwy gweithgar trwy chwaraeon traddodiadol a rhai amgen, megis BMX a sglefr-fyrddio.

4.11 Ond, mae natur y gwaith sy'n cael ei drin gan y Cyngor ar hyn o bryd gyda'i oblygiadau amser i staff a'r amser paratoi hir o gychwyn y fath brosiectau i'w diwedd yn adlewyrchu pa mor anodd fydd hi i'r Cyngor weithio yn y maes hwn fel yr asiantaeth sy'n arwain a rhaid egluro ei rôl strategol yn well. Ym mharagraff 3.114 hyd 3.115 ac yng Nghyfnod I yr adroddiad hwn rydym wedi dynodi bod angen mwy o weithio traws-asiantaethol ac i'r Cynulliad weithio gyda'r Cyngor i ymdrin â'r maes hwn a maes gwella iechyd cymunedol trwy chwaraeon.

Strategaethau Cymunedol

4.12 Fel y nodwyd yn y llythyr cylch gorchwyl diweddar, awdurdodau lleol sydd yn arwain yn y maes hwn. Ein barn ni yw, lle mae awdurdodau wedi gweithio'n ddygn yn y cyswllt hwn, bod y Cyngor wedi bod yn gefnogol iawn – byddai Abertawe yn enghraifft dda. Pan na fydd yr ymroddiad hwn i'w weld cyflawnwyd llawer llai. Byddai gwella cysylltiadau yn gyffredinol ar lefel swyddogion uwch yn rhoi'r Cyngor mewn gwell sefyllfa i ddeall sefyllfa gwahanol awdurdodau yn y maes hwn o'r gwaith.

Partneriaeth

4.13 Mae Adran 8 o'r llythyr cylch gorchwyl yn egluro'r pwysigrwydd y mae'r Cynulliad yn ei roi ar gydweithio effeithiol rhwng pob corff cyhoeddus o ran cynllunio ymlaen a chydlynu ymdrech er budd pawb. Gwna ddymuniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus yn glir iawn hefyd.

4.14 O'r adran ar adfocatiaeth (uchod) bydd yn amlwg ein bod yn ystyried bod lle i wella ar y cydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n amlwg hefyd bod y berthynas rhwng uwch swyddogion y Cyngor a'r Gyfarwyddiaeth sy'n noddï yn sifil ond nid ydynt yn ddigon cynnes i hyrwyddo gwaith tîm effeithiol. Tra bod y ffocws cryfach ar Gymru a gynigir gan y Cynulliad yn cynnig cyfle amlwg i weithio ar nifer o faterion, nid ydym yn gweld y parodrwydd i dderbyn rhaglenni sy'n newid sy'n angenrheidiol i fanteisio ar hynny. Nid yw'r Cyngor mwyach mewn sefyllfa lle mae'n gorfod dibynnu'n helaeth ar ei syniadau ei hun a rhaid gweld newidiadau cyn manteisio ar y cyfleoedd newydd i lunio partneriaethau.

Y Sector Gwirfoddol

4.15 Mae'r Cyngor yn ymwneud yn sylweddol â'r sector gwirfoddol trwy gyrrff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon a thrwy glybiau lleol. Mae gwaith y Cistiau Cymunedol hefyd yn creu mwy o gyswllt gyda hwy. Mae'r Cyngor yn dilyn y Côd Ymarfer gosodedig wrth ymdrin â hwy trwy weinyddu nifer sylweddol o grantiau cyfalaf a referniw.

Cadw Tŷ effeithiol

4.16 Edrychir yn fanylach ar y materion hyn yn yr adran ar reolaeth isod. Credwn fod rheolaeth a gweinyddu'r Cyngor yn dda. Ond fe ddarganfu'r archwilywyr allanol nifer o enghreifftiau o dorri'r Memorandwm Ariannol. Gweithredwyd i atal y rhain rhag digwydd eto. Dynodwyd hefyd bod angen fframwaith effeithlonrwydd y gallai'r Cyngor ddarparu gwell sicrwydd o werth am arian o'i fewn.

Casgliad

4.17 O ran cyrraedd y targedau penodol a gynhwysir yn y llythyr cylch gorchwyl, bu perfformiad y Cyngor yn dda yn gyffredinol. Mae angen adolygu rhai meysydd strategol yng ngoleuni'r newidiadau yn yr anghenion polisi – byddai hyn yn berthnasol yn arbennig i faterion cynhwysedd/adfywio ac i'r agenda dysgu gydol oes. Diffygion o ran partneriaethau effeithiol gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a gyda'r Adran sy'n noddï yw'r maes sy'n peri mwyaf o bryder yn dilyn asesiad o'r gwaith o ddiwallu anghenion y Cynulliad Cenedlaethol.

Ymateb i Agenda Ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru

Datblygu Cynaliadwy

4.18 O fewn chwaraeon ei hun mae'r Cyngor wedi rhoi pwyslais sylweddol ar gynaliadwyiaeth. O ran cyllid cyfalaf SPORTLOT yn arbennig, mae'r pwyllgorau cymeradwyo wedi edrych yn fanwl ar y trefniadau gweinyddu ac maent wedi ceisio sicrwydd y bydd y trefniadau ariannol yn ddigon cadarn i sicrhau y bydd y gweithgareddau yn parhau'n llwyddiannus. Fel arfer gwneir hyn trwy archwilio yr argymhellion ariannol neu trwy sicrhau cefnogaeth corff sylweddol fel awdurdod lleol.

4.19 O ran cyfleusterau chwaraeon cenedlaethol yng Nghymru mae'r Cyngor wedi pledio achos creu cyfleusterau ar gyfer chwaraeon amatur mewn nifer gyfyngedig o leoliadau sy'n bodloni anghenion athletwyr elite yng Nghymru a darparu ar gyfer lefel addas o fynediad. Mae gan y Cyngor bolisiau hefyd ar greu cyfleusterau addas yn rhanbarthol yng Nghymru er mwyn chwarae ei ran yn narpasu cyfleusterau chwaraeon fel elfen o ddatblygiad rhanbarthol yng Nghymru – cymerwyd rhai camau yn y cyfeiriad hwn ond mae llawer i'w wneud eto.

4.20 Anos yw sefydlu cynaliadwyiaeth mentrau datblygu chwaraeon y Cyngor, yn rhannol am fod gan bob rhaglen ganlyniadau gwahanol, ond mae wrth graidd yr hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni. Mae'r rhai sy'n chwilio am newid agwedd neu newid ymddygiad yn dibynnu ar i'r hyn a ddysgir oddi wrth y fenter wreiddiol gael ei ddefnyddio gan ddarparwyr y gamp yn y dyfodol. Enghraifft o hyn yw Merched yn Gyntaf, lle rhagwelir y ceir dylanwad ar ddisgwyliadau'r merched eu hunain a'r ymagwedd yn y dyfodol at ddarparu cyfleoedd i ferched mewn ysgolion. Mae mentrau eraill, fel Campau'r Ddraig, yn cynnwys recriwtio a

hyfforddi pobl leol fel gwirfoddolwyr a hyfforddwyr a all wedyn barhau i weithredu gweithgaredd y clwb (yn wirfoddol fel arfer).

4.21 Pan fydd angen ymagwedd dymor hir, fel darparu swyddog datblygu parhaol, mae gosod swydd a gyllidir am gyfnod penodol gyda chyllidwr prif-ffrwd posibl e.e. awdurdodau lleol, yn dibynnu ar y ffaith y bydd yr effaith a gânt yn annog yr awdurdod lleol i ariannu'r swydd pan ddaw cyllid y rhaglen i ben. Bydd rhai o'r argymhellion a wnaed yn gynharach yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag adfocatiaeth, addysg a hyfforddiant a rhannu ymarfer da, yn cyfrannu tuag at lwyddiant yr ymagweddau hyn.

4.22 Mae cyllido refeniw trwy gynlluniau grant fel y Gist Gymunedol a Grantiau Datblygu Chwaraeon Lleol yn amlwg yn ymwneud â galluogi mentrau a arweinir yn lleol i ddatblygu ac ehangu, gyda golwg ar greu isadeiledd chwaraeon cynaliadwy ar lefel y gymuned.

Cyfleoedd Cyfartal ac Anfantais Gymdeithasol

4.23 Rydym wedi rhoi sylwadau mwy manwl ar fenter Cynhwysiad SPORTLOT mewn Chwaraeon yn 4.10 uchod.

4.24 Mae cyfleoedd cyfartal a chydarddoldeb mewn chwaraeon yn sylfaenol i'r rhan fwyaf o waith y Cyngor. Mae cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan, yn arbennig ymhlith y rhai sy'n cael eu tan-gynrychioli mewn chwaraeon, yn amcan sy'n cael blaenoriaeth ac mae'n ofynnol i bob prosiect a ariennir gan y Cyngor ddangos sut y byddant yn sicrhau cyfartaledd yn y gamp a thrwyddi.

4.25 Mae'r Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i adnoddau i fodloni anghenion grwpiau dan anfantais a rhai sy'n cael eu tan-gynrychioli. Er enghraifft cynlluniwyd y fenter menywod a merched a lanswyd gan y Cyngor i gael effaith hir dymor ar lefel cyfranogiad menywod mewn chwaraeon trwy godi lefelau hyfforddi ac annog twf y mathau o chwaraeon y mae menywod a merched yn cael eu denu atynt. Mae hyn yn enghraifft o'r modd y mae'r Cyngor wedi ceisio blaenoriaethu ei adnoddau a gweithredu'n gydlynol er mwyn cael mwy o effaith. Yn ychwanegol at Merched yn Gyntaf, mae menywod a merched yn cael eu dynodi fel grŵp sy'n cael blaenoriaeth gan SPORTLOT, gofynnwyd i Gyrrff Llywodraethol gynnwys cynigion ar gynyddu cyfleoedd i ferched a datblygu cynlluniau recriwtio i hyfforddwyr o fenywod yn eu cynlluniau blynyddol ac fe ddosrannwyd adnoddu i godi proffil chwaraeon menywod a merched ar y cyfryngau. Er mwyn cyrraedd y nod dymunol o leihau anghyfartaledd rhwng faint o ddynion sy'n cymryd rhan a faint o fenywod, bydd raid i ymagwedd o'r fath gael ei chynnal a'i chefnogi pan fydd hynny'n bosibl gyda buddsoddiad ychwanegol.

4.26 Mae lefel y gefnogaeth ar gyfer cyfranogiad mewn chwaraeon gan bobl anabl yng Nghymru yn flaenoriaeth gan y Cyngor ers amser. Mae Ffederasiwn y Cymdeithasau Chwaraeon i'r Anabl ymhlith y deg uchaf o Gyrrff Llywodraethu sy'n derbyn cyllid trwy Grantiau Cefnogi Datblygiad, mae gan tua 10% o athletwyr Elite Cymru anabledd a thrwy SPORTLOT mae mwy na £350,000 y flwyddyn yn cael ei fuddsoddi yn Disability Sport Cymru. Mae'r cyfleusterau yn WIS hefyd yn cefnogi athletwyr anabl sy'n cystadlu.

4.27 O ran cydraddoldeb hiliol mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Hiliol a chynllun gweithredu yn Nhachwedd 2002, ac mae wedi dechrau ei weithredu. Mae'r Cyngor wedi cefnogi cynlluniau lleol o fewn awdurdodau a fydd o gymorth i fodloni anghenion cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, er nad yw'r rhan hwn o'r gwaith yn cael cymaint o flaenoriaeth â materion rhyw ac anabledd. Cyhoeddwyd safonau ar gyfer cael cydraddoldeb hiliol mewn chwaraeon gan Sporting Equals, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a Sport England. Ond ni wnaed dim i annog na chefnogi eu mabwysiadu gan y Cyngor ei hun na gan gyrrff chwaraeon eraill yng Nghymru.

4.28 Mae Sporting Equals, Sefydliad Chwaraeon y Menywod a Disability Sport England yn awr yn datblygu safonau cydraddoldeb generig sy'n cynnwys materion hil, rhyw ac anabledd. Mae'r Cyngor wedi rhoi cyfraniad ariannol bychan at gost y gwaith hwn. Nid yw'n glir eto sut

y mae'r Cyngor yn bwriadu annog cyrff i fabwysiadu'r safonau hyn yn y dyfodol, er enghraifft trwy wneud cyrraedd y safonau yn amod cyn derbyn grant.

4.29 Mae gan y Cyngor ei hun ddatganiad polisi Cyfleoedd Cyfartal a gweithdrefnau ysgrifenedig i'w gefnogi a gynhyrchwyd ym 1993. Yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eraill, rhaid diweddarau'r rhain i adlewyrchu arweiniad mwy diweddar ar ymarfer da a newidiadau cyfreithiol.

5. Llywodraeth Gorfforaethol

Gwaith y Cyngor

5.1 Mae'r Cyngor yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn. Mae hanner y cyfarfodydd yn Sefydliad Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd a hanner mewn lleoliadau mewn rhannau gwahanol o Gymru, fel arfer yn adeiladau budd-ddeiliad neu ym Mhlas Menai ger Caernarfon. Mae croeso i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd heblaw am eitemau neilltuedig sydd ddim yn ormodol. A dweud y gwir prin iawn yw presenoldeb y cyhoedd fel arfer, os o gwbl. Mae gweithgareddau'r Cyngor yn cael eu cynnal yn Saesneg heb adnoddau cyfieithu i'r Gymraeg. Yn ogystal at hyn mae aelodau'n cwrdd yn anffurfiol am benwythnos unwaith y flwyddyn er mwyn trafod cyfeiriad strategol. Mae rhai Cyrff Cyhoeddus Anadrannol (NDPB) wedi mabwysiadu strategaeth o gynnal 'Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol' lle mae cyflwyno'r gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn yn cael eu cyfuno â chyfraniadau amserol gan siaradwyr gwadd allanol.

Argymhelliad: Er mwyn datblygu ei rôl adfocatiaeth dylai'r Cyngor ystyried y syniad o gynnal cyfarfod blyneddol wedi ei anelu'n arbennig at ddenu cynulleidfya sylweddol o'r rhai sydd â diddordeb mewn chwaraeon yng Nghymru.

5.2 Swyddogaeth strategol sydd i'r Cyngor yn bennaf ac mae'n cael ei arwain gan bolisi, wedi ei seilio ar yr egwyddorion gafodd eu cynnwys mewn papur gan y Prif Weithredwr ym Mehefin 1999. Mae hwn yn nodi pum prif gyfrifoldeb:

- ❑ Sefydlu'r cyfeiriad strategol cyffredinol, penderfynu ar yr amcanion a thargedau allweddol ar gyfer datblygu chwaraeon a phenderfynu ar y fframwaith polisi ac adnoddau trwy'r Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol;
- ❑ Arolygu cyflwyno'r canlyniadau cynlluniedig trwy fonitro perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau strategol y cytunwyd arnyn nhw;
- ❑ Sicrhau bod safon uchel o lywodraeth corfforaethol yn cael ei gadw bob amser;
- ❑ Darparu rhesymau dros benderfyniadau a gweithrediadau polisi ar gyfer y Llywodraeth, y Cynulliad a'r cyhoedd;
- ❑ Cyflwyno Adroddiad a Chyfrifon Blyneddol i'r Cynulliad.

5.3 Mae gan y Cyngor ddau is-bwyllgor ar gyfer busnes, heb gynnwys Sportlot, y pwyllgor archwilio a'r pwyllgor taliadau. Caiff y rhain eu trafod isod. Mae gan Sportlot hefyd gyfres o bwyllgorau sy'n gyfrifol am benderfynu ar geisiadau am grantiau cyfalaf ac incwm ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a phanel Sportsmatch sy'n edrych ar gyllido prosiectau nodedig ar y cyd.

5.4 Rydym wedi edrych ar drafodion, papurau a chofnodion cyfarfodydd y Cyngor y blynyddoedd diweddaraf. Yng ngoleuni peth o'r adborth negyddol gan rai budd-ddeiliaid yn Rhan 1 roeddem wedi ein synnu nad yw'r Cyngor yn cymryd golwg rheolaidd ar y mecanwaith sy'n bodoli eisoes i gefnogi cysylltiad effeithiol â budd-ddeiliaid. Nid yw hyn yn awgrymu nad yw'r cysylltiad â chyrrff unigol yn cael ei drafod fel rhan o'r ystyriaeth o raglenni arbennig neu drafodion arbennig Sportlot ond nid oes llawer o dystiolaeth bod trosolwg o berthynas gyda grwpiau allweddol megis awdurdodau lleol neu addysg uwch neu bellach yn cael ei ystyried o gwbl – does dim amheuaeth fod hyn yn strategol iawn.

Argymhelliad: Dylai adolygiad o'r rheoli cysylltiadau gyda grwpiau o fudd-ddeiliaid allweddol gael ei wneud yn benodol fel mater i'r Cyngor gan gael ei fonitro'r rheolaidd. Mae angen ehangu pwyslais y mater hwn o'r cyrrff llywodraethu chwaraeon i grwpiau eraill o fudd-ddeiliaid megis llywodraeth leol a'r sector addysg, sydd ill dau yn hyrwyddwyr nodedig ac yn noddwyr chwaraeon yng Nghymru. Mae'n bwysig bod gofidiau sectorau a rhanbarthau gwahanol o bartneriaid yn cael eu hystyriaed yn ofalus yn ystod yr ymarferiad hwn.

5.5 Mae aelodau'r Cyngor yn derbyn cryn lwyth o bapurau mewn perthynas â phob cyfarfod. Er bod rhai o'r rhain yn gymharol fyr ac yn hawdd eu deall, mae eraill yn fwy cymhleth, heb gynnwys llawer ar ffurf crynodeb i egluro'r pwyntiau allweddol a phwysigrwydd y penderfyniadau a ddisgwylir gan y Cyngor. Mae hyn fwyaf pwysig yn y defnydd o bwerau trosglwyddo arian gan y Cyngor. Yn ein barn ni nid yw'r ceisiadau am yr hawliau i drosglwyddo arian gan y gweithredwyr yn cynnwys digon o wybodaeth am effaith y rhaglenni a'r canlyniadau a fwriedir. Mae hwn yn faes lle mae gan Lywodraeth y Cynulliad ddiddordeb teg a lle mae'n rhaid i bwerau gael eu defnyddio'n ofalus – nid yw'n anarferol i nifer o drosglwyddiadau arian gael eu gwneud mewn un flwyddyn ariannol a gallai hyn gael yr effaith o newid yn sylweddol yr hyn a drosglwyddir gan y Cyngor yn y Cynllun Gweithredol nodedig. Er bod rhai aelodau wedi mynegi eu bod yn gyffredinol hapus â phapurau presennol y Cyngor, mae nifer wedi mynegi nad ydyn nhw ac nad ydyn nhw'n deall pam fod rhai papurau'n dod i sylw'r Cyngor. Mae rhai wedi mynegi eu anhapusrwydd, er enghraifft, pan fo papur wedi ei labelu "i'w drafod" gan nad yw'n glir a oes disgwyl iddyn nhw benderfynu ar bolisi mater, gosod blaenoriaethau neu'n syml cael eu diweddarau.

Argymhelliad: Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i ffurf a chyflwyniad papurau'r Cyngor ar mwyn gwella effeithlonrwydd y Cyngor fel corff, i gwmpasu:

- ❑ Union natur y mewnbwn a ddisgwylir gan yr aelodau;
- ❑ Eglurhad o'r materion allweddol ar ffurf crynodeb yn achos papurau hirach, mwy cymhleth;
- ❑ Rhybudd clir o effeithiau unrhyw benderfyniad neu gyfeiriad a argymhellir gan y Cyngor, yn enwedig mewn materion fel trosglwyddiadau arian lle y gall penderfyniad effeithio'n uniongyrchol ar yr hyn a gyflwynir yn ôl y Cynllun mewn blwyddyn.

Y Pwyllgor Archwilio

5.6 Yn ystod 2002 cafwyd newidiadau sylweddol yn rôl a phwrpas y Pwyllgor Archwilio. Ar y 6^{ed} Medi 2002 derbyniwyd dogfen yn cadarnhau ei rôl. Mae hwn yn rhagweld tri chyfarfod y flwyddyn ym Mis Mawrth, Mis Mehefin a Mis Rhagfyr gyda roliau arbennig wedi eu pennu:

- ❑ Mae cyfarfod Mis Mawrth yn canolbwyntio ar adolygu adroddiadau a chynlluniau archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn i ddod wedi eu seilio ar asesiad wedi ei ddiweddarau o anghenion, ac adolygiad o gynlluniau archwilio allanol ar gyfer cau cyfrifon y flwyddyn gyfredol, gan gynnwys cwrdd ag anghenion gwario'r Cynulliad ac unrhyw faterion cyfrifo sydd angen delio â nhw.
- ❑ Mae cyfarfod Mis Mehefin yn adolygu ymhellach adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol ac yn cymeradwyo cynnal cynllun archwilio strategol mewnol i'w gyflwyno i'r Cyngor. Caiff cyfrifon blynyddol drafft a chasgliadau archwilio allanol dros dro eu hadolygu hefyd. Caiff fframwaith rheoli risg gweithredol ei adolygu fel sail i gynghori'r Swyddog cyfrifo ar y Datganiad Rheolaeth Mewnol. Adolyger yr Adroddiad Cyrhaeddiad Blynyddol er mwyn sicrhau cysondeb.

- ❑ Mae cyfarfod Mis Rhagfyr yn adolygu'r hyn a ddigwydd ar ôl llythyr rheolaeth yr archwiliad allanol a goblygiadau'r adroddiad am sicrwydd ychwanegol. Caiff cydsyniad gyda Memorandwm Ariannol y Cynulliad ei adolygu. Ceir hefyd adolygiad o'r Adroddiad Cyrhaeddiad interim a'r perthnasedd parhaol o dargedau perfformiad. Caiff y fframwaith rheolaeth risg ei adolygu ynghyd ag unrhyw adroddiadau archwiliadau mewnol diweddar.

5.7 Cawsom gyfweiliad â Chadeirydd y Pwyllgor sydd wedi bod yn ei swydd am y ddau gyfarfod diwethaf. Caiff yr archwilyr mewnol ac allanol eu gwahodd i bob cyfarfod ac mae'n amlwg bod y Cyfarwyddwr Cyllid sydd yn y swydd ar hyn o bryd wedi cael cryn effaith ar wella'r agwedd at faterion archwilio. Mae'r trefniadau newydd yn rai cymharol ddiweddar, ond gyda'r newidiadau a weithredwyd yn 2002 roeddem yn fodlon bod y Cyngor nawr wedi sefydlu fframwaith addas ar gyfer rheolaeth broffesiynol a'r maes hwn.

Y Pwyllgor Taliadau

5.8 Cymrodd y Pwyllgor hwn le'r Pwyllgor Personél a gynhaliodd eu cyfarfod olaf ar 28ⁱⁿ Mehefin 1999 ac roedd ganddynt gyfrifoldebau llawer ehangach am faterion personél sydd nawr wedi dod yn ran o gyfrifoldebau'r tîm gweithredol.

5.9 Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi cwrdd unwaith ar 19^{eg} Chwefror 2002 i ystyried y strwythur taliadau newydd a gynigiwyd i gwrdd ag anghenion Adolygiad Tâl Cyfartal y Cynulliad. Cafodd graddfeydd cyflog eu torri o 34 i 8 mewn nifer. Argymhellodd y pwyllgor y newidiadau i'r Cyngor yn amodol ar gael mwy o arian gan y Cynulliad i'w ariannu.

5.10 Tra bod hwn yn swyddogaeth hollol gymwys i'r Pwyllgor Taliadau, mae dau faes arall sydd angen eu cynnwys er mwyn cwrdd ag arfer gorau:

- ❑ Adolygiad o'r cytundeb tâl blynyddol. Yn achos y Cyngor gall hyn, am y rhan helaeth, fod yn gadarnhad o gytundebau chwyddiant, gan fod nifer o'r gweithwyr sydd wedi bod yn gweithio yno am y cyfnodau hirach wedi cyrraedd brig eu bandiau cyflog. Ond, mae'r Cyngor wedi gwneud taliadau unigol i nifer cyfyngedig iawn o'r gweithwyr hynny sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig yn ddiweddar. Mae hefyd y mater o sut mae'r graddfeydd cyflog newydd yn cael eu gweithredu i'w ystyried a beth yw'r goblygiadau ar gyfer cadw a chyflogi gweithwyr sydd angen rhoi'r gwybod i'r Cyngor amdany'n nhw.
- ❑ Dylai'r cyngor hwn hefyd ystyried cyflog y tîm rheolwyr hŷn, y Prif Weithredwr a'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol iddo. Ni ddylai unrhyw gyfarwyddwr o unrhyw fusnes dderbyn codiad cyflog, hyd yn oed os yn seiliedig ar chwyddiant, heb adolygiad anweithredol trwy'r Pwyllgor Taliadau a thrwy argymhelliad i'w gorff llywodraethol. Dylai'r adolygiad hwn gael ei seilio ar gonsensws barn am berfformiad aelodau unigol y tîm.

Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Taliadau, er mwyn cydymffurfio ag arfer gorau, gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn ystyried a gwneud argymhellion i'r Cyngor am y cytundeb cyflog blynyddol arfaethedig (yn cynnwys taliadau unigol) a'r goblygiadau ar gyfer y dyfodol, ac ar gyflog y Prif Weithredwr yn ogystal â chwrdd, fel bo'r angen, i drafod newidiadau arfaethedig ar gyfer strwythurau cyflog oddi fewn i'r Cyngor. Dylai'r Cynulliad ystyried mabwysiadu arfer gorau ar gyfer Pwyllgorau Taliadau yr holl Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad er mwyn ystyried holl daliadau i dîm rheoli hŷn.

Trefniadau Rheoli Ariannol

5.11 Mae'n amlwg wrth adolygu'r maes hwn, ynghyd â'r adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, bod rhai problemau bychain yn y gorffennol wedi codi oherwydd nad oedd strwythur addas wedi ei sefydlu gyda chyfrifoldebau pendant. Dros y deunaw mis diwethaf mae'r problemau hyn wedi eu datrys gan greu lefel uchel o sicrwydd ar faterion rheoli. Yn benodol rydym wedi edrych ar y mater o wahanu swyddogaethau sydd wedi tueddu i achosi problemau mewn sefydliadau llai. Mae'r cyfrifoldebau am gyfrifo a thalu cyflogau yn cael eu

gwahanu'n llwyddiannus ac mae swyddogaeth y gofrestrfa hefyd yn darparu cofnod annibynnol o berthnasau cytundebol sydd mewn bodolaeth.

5.12 Mae'r rhwydwaith ardal eang yn darparu hygyrchedd hawdd ar gyfer staff i rychwant eang o weithgareddau trwy'r cyfleuster "Automatic Documents". Mae'r rychwant o weithgareddau gaiff eu cofnodi trwy'r cyfleuster hwn yn eang iawn, yn cynnwys materion gweinyddol a gweithredol yn ogystal ag enghreifftiau o wahanol ffurflenni gaiff eu defnyddio. Er hyn, doedd strwythur y wybodaeth hyn ddim yn arbennig o resymegol, a daeth yr archwiliad o hyd i nifer fechan o enghreifftiau lle mae angen i ffyrdd o wneud pethau gael eu diweddarau er mwyn adlewyrchu newidiadau. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi ymgymryd â gweithredu i gwblhau'r ailstrwythuro ac adolygu gweithgareddau yn ystod 2003/4.

5.13 Ym misoedd yr haf 2002 cafwyd dwy enghraifft lle roedd cyfalaf gweithio yn uwch na'r rheol mwyafswm o 2% o ariannu grant-mewn-cymorth. Yr eglurhad a gynigiwyd oedd bod cyfuniad o amgylchiadau wedi arwain at hyn. Mae hwn yn gyfnod arbennig o anodd i ragweld treuliau ar gyfer y Cyngor yn achos y cyrff llywodraethu chwaraeon a phrosiectau a ariennir gan GMC ac roedd y Cyfarwyddwr Cyllid yn llunio'r rhagolwg heb brofiad blaenorol digonol o lif arian cyfnod yr Haf. Roedd hyn yn cael ei gymhlethu gan y derbyniad hwyr o arian cloi Mis Mehefin o ganlyniad i weithredu trefniadau diwygiedig yn y Cynulliad. O ganlyniad roedd rhai treuliau wedi eu rhagweld yn gynharach nag y'u gwnaethpwyd mewn gwirionedd. Roedd yr arian mewn llaw a ddaliwyd am ddau fis wedi codi i rhwng 3 a 4% o grant-mewn-cymorth ond fe'i cywirwyd wedyn ac mae perfformiad yn y maes hwn bellach yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio. Ar wahân i hyn ni chododd rhagor o bryderon sylweddol yn ystod ein adolygiad o'r maes hwn mewn perthynas a rheolaeth barhaus.

Argymhelliad: Mae angen cymryd camau i wella ansawdd rhagweld llif arian, yn enwedig dros gyfnod yr haf.

Gweinyddiaeth Grantiau Cyfalaf

5.14 Yn y tabl yn 3.16 o adroddiad Rhan I roedd y swm mewn llaw a ragwelwyd yng nghronfa SPORTLOT yn £30.9m ar ddiwedd 2002/3 yn erbyn incwm blynyddol o tua £12m. Rydym wedi gwneud rhagor o waith i adolygu'r rhagweld a'r gwariant amcanol. Mae dros trydydd ran yr incwm blynyddol nawr yn cael ei ddefnyddio fel grantiau refeniw i gefnogi one Elite Cymru, Coach Cymru, Community Chest, Dragon Sport, Disability Sport a rhaglenni Menywod a Merched. Ynghyd â'r dosbarthwyr grant chwaraeon y loteri genedlaethol yn y DU a thu hwnt, mae'r Cyngor wedi profi problemau wrth brosesu cynigion am grant cyfalaf o safon uchel er mwyn cwrdd â llif gwariant incwm y loteri. Y broblem waelodol yw nad yw gwario ar gynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo yn cynyddu ar lefel i gyfateb ag incwm yn nhermau llif arian.

5.15 Mae'r Cyngor yn gweithio oddi fewn i ganllawiau'r DCMS. Mae'r cyfeiriadau ariannol bob amser wedi argymhell dosbarthwyr arian loteri i fod yn ofalus wrth wneud ymrwymadau i gynlluniau. Ddwy flynedd yn ôl daeth yn amlwg y byddai swm sylweddol o adladd ar geisiadau am grantiau cyfalaf oherwydd trafferthion ymarferol, methiant i gael cefnogaeth oddi wrth noddwyr eraill ac ati a fyddai'n cyfiawnhau lefel o or-ymrwymiad. Mae'r Cyngor nawr yn gweithio ar y sail hwn.

5.16 Mae strwythuro partneriaethau i gefnogi datblygiadau a chynnig geisiadau proffesiynol, hyd yn oed gan ddefnyddio gwerthoedd sydd ddim ond yn agos ati yn cymryd tipyn o amser ynddo'i hun. Mae derbyn cynnig yr adeg hon yn arwain at ymrwymiad 'mewn egwyddor' sydd yn cael ei ymestyn am ddeg mis, mae'n mynd yn ddi-rym yn awtomatig ar ôl hyn. Gall problemau pellach godi wrth greu'r cynnig manwl, ac mae gan y Cyngor bolisi o beidio ag ymateb i geisiadau am gynnydd yn y symiau y gofynnwyd amdany'n nhw yn wreiddiol. Gall llif arian prosiectau mawrion ymestyn felly dros gyfnod o dair blynedd, yn cynnwys talu am gadw a gall hyn ddilyn cyfnod o flwyddyn neu ddwy yn cwblhau'r contractio manwl, sicrhau caniatâd a pharatoadau ar y safle. Caiff taliadau eu gwneud yn amodol ar adroddiadau penseiri ar gwblhad pob cam fel y'u hamserlennir yn y cytundeb grant. Mae ymrwymiad yn troi'n un caeth unwaith mae'r contract yn cael ei arwyddo.

5.17 Ar yr hanner blwyddyn 2002/3 roedd nifer o becynnau sylweddol yn cael eu dal fel ymrwymiau caeth:

Prosiect/Pecyn o Brosiectau	Yr Ymrwymiad sy'n dal ar ôl	Dyddiad mae'r Taliad olaf yn ddyledus
Pwll 50m Abertawe	£2.84m	Ch4 2004/5
Felodrom Casnewydd	£7.52m	Ch4 2004/5
Rhaglen Fuddsoddi Cymunedau mewn 25 o gynlluniau Awdurdodau Lleol	£11.35m	Ch4 2006/7

5.18 Mae disgwyl i'r pecynnau hyn fod yn gyfrifol am tua 57% o weddill disgwyledig y gronfa ar ddiwedd 2002/3 (gan gymryd i ystyriaeth unrhyw daliadau hyd y dyddiad hwnnw). Er bod grantiau llai yn dueddol o fod â chyfnod byrrach ar gyfer yr adeiladu o'u cymharu â'r cynlluniau mwy, gall problemau cael y fath gynlluniau ar safle fod yr un mor drafferthus. Dyw hi ddim yn anodd gweld sut mae'r cronfeydd hyn yn cynyddu i rhyw 3-4 gwaith yr incwm blyneddol yn ystod y cyfnod adeiladu grant. Mae'r Cyngor, ynghyd â dosbarthwyr loteri chwaraeon eraill, wedi ymrwymo o haner lefel y gronfa ar ddiwedd 2001/2 dros ddwy flynedd ac mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd yn dod yn agos at gyflawni hyn.

5.19 I symud ymlaen - y mater allweddol yw faint fydd dosbarthwyr cronfa chwaraeon y loteri yn gor-ymrwymo er mwyn ceisio ateb llif arian y dyfodol gyda incwm gwir y loteri a beth, os o gwbl, yw'r lefel ariannu diogel maen nhw'n geisio'i gynnal. Nid oes cyngor manwl ar y mater hwn ar gael ar hyn o bryd gan y DCMS. Gan bod Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn gwneud gwaith asiant yn cyfleu blaenoriaethau'r DCMS i'r Cyngor a gan bod ganddo ddi-ddordeb mewn canlyniadau unrhyw fuddsoddiad, mae'n fater rydym ni'n teimlo y dylai gael barn amdano.

Argymhelliad: Dylai bwrdd y Cyfarwyddwr sy'n noddi ystyried y cydbwysedd yr hoffai weld y Cyngor yn llwyddo'i gynnal yn nhermau cynnal cronfa'r loteri yn y dyfodol ac ymrwymiau.

Archwiliad Mewnol ac Allanol

Archwiliad Mewnol

5.20 Mae'r fframwaith rheoli mewnol ar gyfer gwaith archwilio mewnol yn cael ei ddisgrifio yn y rhan Pwyllgor Archwilio uchod. Caiff y gwaith ei is-gontractio i Deloitte & Touche a'i reoli gan y Pwyllgor Archwilio. Roedd dosbarthiad amserol yr adroddiadau hyn i'r Swyddfa Archwiliad Cenedlaethol, a oedd yn gyfrifol am archwiliadau allanol, yn amlwg yn y ffelliau y buom ni'n eu hadolygu. Yn ddiweddar mae'r gwaith archwilio mewnol wedi ei wneud yn helaeth oddi fewn i'r Cyngor:

- Arlwyo
- Cynnal a Chadw
- Rhestr gyflogi – ddwywaith
- Rhestr o asedau
- Incwm Masnach ac amrywiol – gwerthu
- Ceisiadau am arian y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth y Cynulliad
- Systemau Gweithredu Rhwydweithiau
- Rheoli incwm a dyledwyr
- Gweinyddiaeth grantiau (Cyrff Llywodraethol)
- Plas Menai
- Ariannu Sportsmatch
- Bâs data archebu WIS
- Elite Cymru
- Pryniant
- Cyfalaf y Loteri Genedlaethol
- Archwiliad mewnol o gyfrifiaduron / diogelwch gwybodaeth / caffael TGCh

5.21 Mae canlyniad yr adroddiadau hyn o leiaf wedi bod o leiaf yn gofnod o "sicrwydd sylweddol" yn dangos bod y fframwaith rheoli yn sylweddol ac nad yw unrhyw wendidau a nodir o natur difrifol. Efallai mai'r canlyniad mwyaf difrifol oedd diffyg argaeledd adroddiadau cyllido a nodir yn haf 2001 – cafodd hyn ei gywiro trwy lenwi swydd y Rheolwr Cyllid. Mae'n galonogol darllen tystiolaeth mewn adroddiadau bod yr argymhellion oedd mewn adroddiadau cynt yn y maes wedi cael eu gweithredu.

5.22 Hoffem nodi bod adroddiadau archwiliadau mewnol wedi eu cyfeirio at faterion ariannol gan ganolbwyntio ar weinyddu arian yn gywir trwy reoli effeithiol a disgyblaeth brynu da. Y prif eithriad yn y rhestr uchod yw maes TGCh lle mae systemau gweithredu a diogelwch wedi cael eu hadolygu. Efallai bod mwy o gyfle, er yn cadw'r pwyslais canolog ar reoli ariannol, i ymestyn rhychwant y gwaith i mewn i feysydd megis iechyd a diogelwch, arfer da Adnoddau Dynol ac adolygiadau ôl-fuddsoddiad trydydd parti.

Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Archwilio ynghŵd â'r archwilwyr mewnol ystyried ymestyn mwy o waith archwilio mewn meysydd o risg uchel sydd ddim yn bennaf ariannol eu natur.

Archwiliad Allanol

5.23 Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gwneud archwiliad allanol o'r Cyngor. Dros y pedair blynedd ddiwethaf mae archwiliadau allanol wedi datgelu gwendidau bychain mewn rheoli, ond maen nhw'n dod i'r casgliad yn rheolaidd bod yr archwilwyr "yn fodlon gyda'r gweithredu cyffredinol o systemau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn". Mae'r adroddiad mwyaf diweddar hefyd yn cydnabod y cynnydd wnaed gan y Cyngor wrth weithredu fframwaith rheoli risg (gweler isod) i gyd-fynd ag Adroddiad Turnbull. Mae'r llythyr hwn hefyd yn nodi'r help gaed wrth ailgynllunio cylchoedd gorchwyl y Pwyllgor Archwilio.

5.24 Yr hyn a oedd yn achosi mwy o ofid oedd y methiannau mewn cwrdd â'r Memorandwm Ariannol a nodwyd gan yr archwilwyr allanol:

- ❑ Y mater cyntaf oedd cyflwyniadau hwyr ceisiadau Grant-mewn-Cymorth i Lywodraeth y Cynulliad – problem nawr sydd wedi ei datrys.
- ❑ Nodwyd bod y cyfalaf gweithio wedi codi dros 2% o gyfanswm y grant-mewn-cymorth ddwywaith yn ystod 2001-2. Fel a nodwyd o dan reolaeth ariannol, uchod, dyma'r achos hefyd yn 2002-3 ac rydym yn argymhell gwelliannau i ragweld llif arian yn ystod cyfnod yr haf.
- ❑ Aeth y Cyngor y tu hwnt i'w allu trwy drosglwyddo £341,000 o'i gyllideb cyfalaf i'r cyfredol yn ystod 2001/2 heb yn gyntaf gael cadarnhad gan y Cynulliad. Gwrthodwyd cadarnhad gan effeithio ar y gyllideb. Cododd y mater hwn cyn penodiad y Cyfarwyddwr Cyllid presennol. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn argymhell gwelliannau i broses cyllido a chynllunio'r Cyngor i roi rhybudd cynnar o newidiadau mewn sefyllfaoedd ariannol. Dylai'r Cynulliad ystyried geiriad memoranda ariannol ar y mater hwn.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor ystyried trosglwyddo arian o wariant cyfalaf i'r cyfredol fel y dewis olaf. Nid yw hyn yn arfer cyfrifo da mewn unrhyw sefydliad, a byddai defnyddio hyn fel ateb i ddiffygion ariannol cyfredol yn achosi gofidiau i'r noddwr ynglŷn â materion cynllunio a rheoli. Dylai'r Cyngor fabwysiadu polisi o ddatrys problemau trwy addasu'r lefelau gwariant cyfredol cyn hyd yn oed ystyried yr ateb hwn, tra'n bod yn ofalus i roi gwybod i'r noddwyr am effaith unrhyw addasiadau cyllidebol potensial. Dylai'r Cynulliad ystyried geiriad memoranda ariannol ar y mater hwn.

- ❑ Cafodd y Cyngor ei feirniadu am fethu â dangos bod yr arian a wnaed wrth werthu asedau sefydlog wedi eu defnyddio'n llawn ar gyfer pryniannau cyfalaf. Dylai newid yn y drefn gyfrifo yn 2002/3 ddileu'r broblem hon.
- ❑ Nododd yr archwilwyr na chafodd tendr am £65,000 yn 2001/2 ar sail tendr unigol ei gymeradwyo gan y noddwr yn y Cynulliad (yr uchafswm ar gyfer awdurdod y Cyngorau yw £50,000). Dangosodd ymchwiliadau pellach fod hwn yn ymestyniad ar

gytundeb tendr unigol a wnaed am£104,000 yn 2000/1 na chafodd ei ymchwilio'n ddigonol. Roedd y tendr hwn am ddefnyddiau a brynwyd i gefnogi'r prosiect Chwaraeon y Ddraig ac a ariannwyd gan arian y loteri. Roedd yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon i'r Ifanc wedi gwneud cryn dipyn o'r gwaith ar gyfer Sport England, ac roedd y penderfyniad i gael defnyddiau ganddyn nhw yn rhesymol ar sail masnachol gan ei fod yn osgoi ailadrodd gwaith datblygu sylweddol. Oherwydd bod y sefydliad wedi derbyn cymorth grant gan Sport England roedd y tîm rheoli hbn yn ystyried hwn yn grant yn hytrach na chytundeb masnachol arferol. Er hyn, cafodd ei roi yn yr un modd â chytundeb masnachol arferol. Cododd y broblem yn bennaf oherwydd bod y Cyngor yn gweld y cyd-destun wedi ei ddiffinio yn natur y berthynas (corff cyhoeddus oedd yn derbyn grant cymorth a VSO yn derbyn grant) yn hytrach nag yn natur y trafod (cyflenwi nwyddau a gwasanaethau). Ar hyn o bryd mae'r noddwr wedi dweud bod y wybodaeth a roddwyd iddyn nhw yn annigonol i gymeradwyo'r tendr unigol mewn adolwg. Rydym wedi nodi bod y Cyfarwyddwr Cyllid nawr yn gwneud arolwg rheolaidd o'r cofrestr cytundebau, ond rydym yn ystyried bod angen gwell eglurder mewnol yn y maes hwn.

Argymhelliad: Dylid ystyried yr holl wariant i drydydd parti ar gyfer nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd i'r Cyngor fel gwariant cytundebol, er gwaethaf y berthynas fanwl rhwng y Cyngor a'r darparwr. Ein barn ni yw y byddai'r math hwn o wariant yn cael eu cynnwys yng Nghyfarwyddyd Caffael yr UE fel darpariaeth nwyddau a gwasanaethau. Yna dylid gosod y terfynau a nodir yn y Memorandwm Ariannol ar y gwariant hwn. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried geiriad y Memorandwm Ariannol er mwyn sicrhau bod yr holl nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn cael eu cynnwys yn rhan 3.9 ac na ellir eu hosgoi trwy ddefnyddio ariannu grant mewn sefyllfaoedd lle mae'r darparwr hefyd yn cael cymorth grant yn rheolaidd.

- ❑ Nododd yr archwilwyr ei bod yn hwyr glas i'r trefniadau gael eu hadolygu ynghŵd â'r tendro cystadleuol a bod y pwynt hwn wedi ei godi mewn archwiliadau blaenorol. Gosodwyd amcan i ddelio â'r mater hwn erbyn canol 2003. Caiff hyn ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio.

5.25 Rydym yn nodi bod arolwg rheolaidd o gydsynio gyda'r Memorandwm Ariannol a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Dylai hyn fod o help wrth ddelio â'r materion a nodwyd yn yr archwiliad.

Rheolaeth Risg

5.26 Fel a nodwyd gan yr archwilwyr allanol mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud mewn cyflwyno mecanwaith rheoli risg i'r Cyngor. Mae cofrestr o risgiau allweddol wedi ei lunio ac fe'i diweddarwyd fwyaf diweddaraf ym Mis Awst 2002. Mae'n ddogfen sydd wedi ei chynhyrchu'n broffesiynol ac mae'r penawdau canlynol ynddi er mwyn ceisio hybu gweithredu:

- ❑ Natur y risg wedi ei ddsrannu: Corfforaethol, Gweithredol, Cydsynio, Ariannol.
- ❑ Perchennog y maes risg.
- ❑ Effaith, Gwan i Cryf
- ❑ Tebygolrwydd, Isel i Uchel.
- ❑ Mesurau lliniaru mewn bodolaeth.
- ❑ Gweithrediadau parhaol sydd eu hangen.
- ❑ Amseriad gweithredu.

5.27 Mae'r gwaith sydd wedi ei gwblhau hyd yma yn amlwg wedi ei gynnwys yng ngwaith y Pwyllgor Archwilio ac fe'i cymerir i ystyriaeth wrth baratoi'r strategaeth archwilio mewnol.

Mae'n dechrau, felly, i gael effaith ystyriol ar y ffordd mae'r Cyngor yn rheoli ei faterion – felly'n cwrdd â bwriadau clir Adroddiad Turnbull. Mae'r gwaith a wneir yn gychwyn ardderchog, ond mae tipyn o ffordd i fynd cyn bod y broses yn cwrdd â gofynion arfer gorau. Gellir nodi'r agweddau sydd angen eu datblygu fel a ganlyn:

- ❑ Mae ymrwymiad grŵp ehangach o personnel yn y diffiniad o risgiau a'r camau sydd i'w cymryd, os o gwbl. Y gweithredwr allweddol wrth sefydlu'r gwaith hwn yw'r Cyfarwyddwr Cyllid, ond mae nawr yn bwysig i gynnwys grŵp ehangach o bobl a allai nodi rhychwant o risgiau llai, ond o bosib, rhai sylweddol. Fel enghreifftiau byddai risgiau penodol sy'n ymwneud â methiant gwifrwaith TGCh neu weithredu dulliau anaddas o recriwtio neu ddisgyblu yn ychwanegiadau gwerthfawr. Mae'r lefel is hon yn gofyn am mewnbwn ehangach, ond bydd yn darparu ffocws cliriach o anghenion rheolaeth risg.
- ❑ Mae'r pwyslais ar ymwybyddiaeth risg fel rhan o ystyriaethau hyfforddi staff, unai trwy ddatblygiad "yn y swydd" neu trwy fentrau allanol penodol, lle'n addas. Byddai arfer gorau yn cynnwys amser addas, er nid yn ormodol, a dreuliyd mewn gweithdai risg.
- ❑ Cynnwys rheolaeth risg i mewn i raglenni sefydlu staff, a phwysigrwydd rhaglenni lleihau risg. Mae'r Cyngor eisoes yn rhannol gydnabod y pwynt hwn drwy'r pwyslais mae'n ei roi ar hyfforddi iechyd a diogelwch ar gyfer cyflogwyr newydd, ond gallai fynd ymhellach.
- ❑ Sicrhau bod y partneriaid mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda nhw eu hunain yn ymateb yn addas i reolaeth risg, yn enwedig pan fo adeiladau'n cael eu rhannu neu bod yna weithio ar y cyd ar brosiectau neu farchnata.

Argymhelliad: Dylid sefydlu grŵp gweithio bychan traws-swydogaeth i ddatblygu ac asesu'r cofrestr risg, yn cwrdd yn addas o aml, dyweder pob chwech mis. Dylai'r tîm rheolwyr hŷn ddelio â'r angen i ddatblygu agweddau eraill o'r cynllun ar hyd llinellau arfer gorau fel amcan parhaus.

Fframwaith Effeithlonrwydd

5.28 Nid oes fframwaith effeithlonrwydd yn cwmpasu agweddau sylweddol o weithgareddau'r Cyngor. Nid oes fframwaith o adolygiadau costau rhedeg neu o weithgareddau'r Canolfannau Genedlaethol, er bod y rheiny'n gweithredu'n effeithiol fel canolfannau elw ac mae yna anogaeth i godi refeniw ychwanegol gyda'r lleiaf posib o dŵf yn y sail costau. Mae hyn yn enwedig o wir am Plas Menai lle mae yna natur tymhorol i'r gweithgareddau ac fe gymerir camau i addasu costau â'r refeniw.

5.29 Yn achos costau rhedeg does dim cynllun gwerth gorau'n bodoli na chynllun ar gyfer profi'r gweithgareddau yn y farchnad. Mae'r tîm rheolwyr hŷn yn dadlau eu bod nhw wedi bod yn gweithio o dan reolau cyllido sy'n cynyddol dynhau yn y maes hwn a bod hyn wedi gyrru gwerth i fyny yn y meysydd hyn, er nad yw hon yn ddadl argyhoeddiadol dros yr effeithlonrwydd cynhenid yn y meysydd hyn.

5.30 Yn achos prosiectau a lanswyd gan y Cyngor mae'r adran Ymchwil a Gwerthuso yn arolygu'r prosiectau er mwyn canfod a ydyn nhw'n cyflawni'r canlyniadau disgwylidiedig. Mae canlyniadau'r fath werthuso wedi bod yn gadarnhaol ac yn negyddol. Er enghraifft roedd yr adolygiad o Chwaraeon y Ddraig ym Mis Mawrth 2002 yn argymhell ymestyn y prosiect i feysydd eraill. Roedd hyn yn cymharu â'r adroddiad a oedd yn gyffredinol anffafriol ar Clwb Cymru a ddaeth o'i flaen. Mae'r gwerthusiadau o'r fath wedi eu seilio'n bennaf ar gynnyrch heb ganolbwytio'n fanwl ar fecanwaith cyflenwi'r prosiectau. Maen nhw'n canolbwytio braidd ar y lefel o weithgaredd y gall y Cyngor ei gynnal ac ar beth y dylid ei flaenoriaethu. Maen nhw felly'n gwneud cyfraniad defnyddiol o'r lefel o ymdrech sydd ei angen yn y Tîm Gwasanaethau Datblygu Lleol.

5.31 Mae Paragraff 1.31 o Gynllun Gweithredol 2002/3 yn dweud fod:

“Mae effeithlonrwydd ariannol y Cyngor yn cael ei fonitro drwy ei linellau cyllideb costau rhedeg gaiff eu nodi yn yr Atodiad i'r cynllun hwn. Mae'r rhain wedi dangos lleihad sylweddol, flwyddyn ar flwyddyn, mewn costau real ond nawr maen nhw wedi cael eu cynyddu ychydig er mwyn cymhwyso am gynnydd mewn crynswth a chwyddiant.”

Mewn geiriau eraill ystyrir bod effeithlonrwydd wedi cynyddu oherwydd cynydd mewn maint y gweithgaredd yn erbyn lefel o ariannu sefydlog neu un sy'n cynyddu'n raddol iawn. Er nad oes problem gydag egwyddor y ffordd hon o weithio, nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i ddangos effeithiau cynydd mewn effeithlonrwydd yn tynnu costau i lawr, wedi ei gydbwysu â chynydd mewn lefelau o weithgaredd yn codi'r costau. Nid oes arwydd clir o'r hyn sy'n cael ei wneud yn wahanol er mwyn ffrwyno'r gost neu i ddangos sut maen nhw'n anelu'n weithredol at effeithlonrwydd.

5.32 Mae'r broblem hon yn cael ei chymhlethu gan gyflwyniad y Cynllun Corfforaethol. Mae'r rhagolygon tair blynedd yn cael eu cyflwyno fel llinell sylfaenol ar gyfer ariannu ymrwymadau parhaol ac yna fe gânt eu addasu ar gyfer gweithgareddau newydd arfaethedig. Caiff y llinell sylfaenol ei chyflwyno fel lefelau'r flwyddyn bresennol ynghyd â chwyddiant (ac yn achos y Tâl Datblygu yn sylweddol fwy na chwyddiant) heb eglurhad sut y daethpwyd i benderfyniad ynglŷn â'r ffigurau o'r fath fel cyfuniad o ymestyn cynlluniau sy'n bodoli eisoes, effeithlonrwydd a chwyddiant.

5.33 Er nad ydym yn awgrymu bod tystiolaeth o aneffeithlonrwydd sylweddol oddi fewn i'r Cyngor, mae llawer mwy y gellid ei wneud i fodloni noddwyr ar y mater hwn ac i wneud darparu gweithgareddau'n fwy tryloyw.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor greu fframwaith y gellir ei defnyddio i adolygu adrannau ar sail rheolaidd er mwyn gweld a oes opsiynau ar gael ar gyfer darpariaeth mwy effeithlon o weithgareddau, ac i gymharu'r adnoddau sydd ar gael gyda'r newidiadau yn y llwyth gwaith sydd i'w gwblhau oddi fewn i'r adran. Dylai hyn gynnwys asesiad o ffordd eraill o ddarparu gwasanaethau a phenderfynu ai'r llwybr staffio neu gytundebu sydd fwyaf addas. Dylid cynnwys crynodeb o'r gwaith hwn yn y Cynllun Corfforaethol er mwyn darparu tystiolaeth glir o symudiad lefelau effeithlonrwydd dros gyfnod y cynllun.

Cynllunio Corfforaethol

5.34 Mae'r broses gynllunio wedi ei seilio ar y strategaeth. Er hyn, gwelsom fod tipyn o ddrwsych rhwng y strategaeth, y Cynllun Corfforaethol ac Adroddiad Blynyddol y Cyngor. Ceir cryn ailadrodd rhwng y dair ddogfen. Yn benodol mae hyn yn gwneud y Cynllun Corfforaethol yn anodd i'w ddilyn. Mae llawer o'r wybodaeth cyd-destunol nad oes angen ei gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol, ond dylid rhoi mwy o bwyslais ar ailadrodd yr egwyddorion strategol yn fras fel y'u datblygwyd i gwrdd ag amcanion polisi allweddol yr Adran nawdd. Dylai'r Cynllun ganolbwyntio ar newid blaenoriaethau yn weithrediadau, ond mae'n rhoi'r argraff i'r darlennydd bod llawer yn mynd ymlaen ond nad oes syniad clir o flaenoriaethau perthnasol y gweithgareddau. Mae'r synnwyr o pam fod y Cyngor yn dewis y gweithrediadau a'r prosiectau arfaethedig hyn fel ffordd o wireddu'r strategaeth ymhell o fod yn glir. Mae'r cynlluniau ariannol ar gyfer 2003/4 hyd 2005/6 yn cael eu cyflwyno, yn nhermau rhagolygon llinell sylfaen ar dudalen 7, heb gysylltiadau clir â'r prosiectau a'r gweithredu penodol mae'n eu hariannu.

5.35 Mae yna broblemau eraill gyda chyflwyno'r rhagolygon. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau llinell sylfaen, ag eithrio llinellau sy'n berthnasol i gyfalaf a dibrsiad ac eithrio hefyd derbynebau cyfredol, yn cynyddu i gyd-fynd â chwyddiant. Mae'r llinell Tâl Datblygiad

Quinquennial Review – Sports Council for Wales. Stage II report

yn cynyddu'n gynt na chyfradd chwyddiant dros y ddwy flynedd gyntaf ond does dim eglurhad clir o'r cynydd mewn staffio sy'n achosi hyn. Mae'r diffyg mewn cynydd yn y llinell derbynebaw yn berthnasol i'r polisi o gynyddu'r defnydd o GChC gan gyrrff llywodraethol chwaraeon ac felly gyfyngu ar y cyfle i'r cyhoedd gael ei ddefnyddio, ond nid yw hyn yn cael ei egluro'n ddigonol. Mae'r darlennydd yn cael ei orfodi i ddod i'r casgliad bod cyllideb y llinell sylfaen yn ymwneud â'r defnyddiau amgen ar gyfer lefel gosodedig o adnodd yn hytrach na theilwra'r adnodd i gwrdd ag amcanion hanfodol y Cyngor. Byddai o gymorth petai'r cynllun yn cynnwys rhagolwg cyfochrog ar gyfer y cyfuniad o sgiliau gwasanaethau gweithwyr sydd eu hangen dros gyfnod y cynllun i gwrdd a'r anghenion cyfnewidiol.

5.36 Caiff y broblem ei chymhlethu pan fod y cynigion am gyllid ychwanegol yn rhan 7 yn cael eu hychwanegu at y rhagolygon. Mae'r mesurau a gynigir yn canolbwyntio'n bennaf ar fewnbwn ac nid yw'n glir pa ganlyniadau gaiff eu cyflawni mewn ateb i'r buddsoddiadau a gynigir. Nid yw'r cynnig hyfforddi yn rhoi enghreifftiau ymarferol o beth fyddai'n cael ei ddarparu ac ymhle. Mae ffigurau uwchraddio CChC yn gyfuniad o fuddsoddi cyfalaf a cholled incwm o £1m y flwyddyn yn 2004/5 a 2005/6 – ond mae'r cynllun yn aneglur ar fater lleihau y gellir eu disgwyl y tu hwnt i gyfnod y cynllun. Ni chydnabyddir cyllid ar gyfer costau ad-drefnu unigol. Yn fyr, nid yw'r ddogfen yn un llwyddiannus o gwbl wrth geisio gwerthu syniadau newydd ac mae'n tueddu i ganolbwyntio ar ochr negyddol peidio â buddsoddi yn hytrach nag ar ochr positif cynnydd mewn ariannu. Ni chaiff hyn ei ddangos yn well yn unman nag yn yr eitem "Capital Modernisation Fund" lle mae darlleniad cyntaf yr eitem yn awgrymu y dylid gwneud cais oherwydd bod yr arian ar gael – mae'r Cynllun yn cadw'n dawel ar natur y buddion y gellid eu casglu trwy gymhwyso'r cyllid hwn, fel y gwna hefyd ynglŷn â'r £475,000 o gyllido cyfalaf y gwnaed cais amdano yn y cynllun sail o 2003/4.

Argymhelliad: Dylid adolygu proses y Cynllun Corfforaethol er mwyn lleihau'r ailadrodd a'r gwaith yn deillio o gadarnhad o bwrsasau strategol a gyflwynir mewn mwy o fanyldeb mewn man arall. Mae angen mwy o eglurhad ar y cysylltiadau rhwng prosiectau ac amcanion strategol ac ar y buddion a ddaw o fuddsoddi. Yn benodol dylai ddangos lefel yr ariannu, staffio a chanlyniadau mewn perthynas â phob un. Dylai nodi effaith effeithlonrwydd a swm cynyddol y gwaith ar y llwyth gwaith presennol a bod yn benodol iawn ynglŷn â phwrpas, canlyniadau a blaenoriaethau gweithgareddau newydd. Dylai'r holl weithgareddau newydd ddangos effaith cyfan gwbl ar gostau ac incwm, boed rheiny'n gyfalaf neu'n gyfredol.

5.37 Mae'r Cynllun Gweithredol unwaith eto'n mynegi cryn dipyn o gynnwys y Cynllun Corfforaethol am yr hyn ddylai fod yn ffocws ar reolaeth yn hytrach na datblygu strategaeth a pholisi – nid yw testun am faterion megis datblygu rhagoriaeth yn gymwys yn y Cynllun Gweithredol. Yn hytrach dylai gynnwys y blaenoriaethau y cytunwyd arny'n nhw ar y gyfer y flwyddyn i ddod wedi ei seilio ar drafodaeth gydag Adran Nawdd y Cynllun Corfforaethol ynghŷd â'r gweithredoedd a'r cyllidebau y cytunwyd arny'n nhw i gwrdd â'r blaenoriaethau hyn. Mae mater priodoldeb dangosyddion perfformiad yn cael ei drafod mewn man arall yn yr adroddiad hwn. Yn amodol ar y pwynt hwn mae'r mathau o wybodaeth a gynhwysir yn atodiad A a B y Cynllun Gweithredol presennol yn addas. Byddai cyllideb gwasanaethau gweithwyr ar gyfer y flwyddyn yn ychwanegiad pwysig.

Argymhelliad: Dylid adolygu'r Cynllun Gweithredol i gynnwys dim ond hanfodion angenrheidiol fel cyflwyniad i ddogfen ddylai fod yn sail i reoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn i ddod, ond dylai hefyd gynnwys cyllideb staffio fesul adran wedi ei osod ar ffurf calendr am y flwyddyn.

Rheolaeth Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu

5.38 Mae'r materion yn ymwneud â chynnal TGCh yn cael eu disgrifio uchod. Mae'r adran hon yn delio â'r materion allweddol llywodraethol sy'n ymwneud â TGCh.

5.39 Mae côd ymarfer ar gyfer TGCh, yn cynnwys ailgyflwyno'r polisi diogelwch, yn fater o flaenoriaeth uchel sydd wedi ei roi i TGCh, a chyhoeddwyd côd ymarfer llawn gan y Prif Weithredwr ym Mis Rhagfyr 2002. Mae hon yn ddogfen gynhwysfawr sy'n delio â'r materion canlynol, ymhlith eraill:

- ❑ Diogelwch corfforol ac amgylcheddol
- ❑ Diogelwch rhwydwaith
- ❑ Diogelwch y rhynggrwyd, e-bost a pholisi rhynggrwyd
- ❑ Polisi Caffael
- ❑ Rheoli rhwydwaith a pholisi hygyrchedd systemau
- ❑ Polisi diogelu firws
- ❑ Polisi ategiadau a adfer data
- ❑ Cynllun parhad busnes (yn cynnwys adfer wedi trychineb)
- ❑ Polisi cydymffurfio
- ❑ Polisi datblygu a chynnal a chadw systemau

5.40 Mae'r diogelwch o gwmpas systemau'n uchel gyda rheolaeth dda dros hygyrchedd a logiau monitro yn eu lle er mwyn adrodd ar troseddau diogelwch potensial. Mae hygyrchedd corfforol cyfleusterau allweddol wedi eu rheoli'n dda. Mae adroddiadau archwilio mewnol wedi codi rhai pwyntiau ynglŷn â'r ffaith nad yw hygyrchedd rhai sy'n gadael yn cael ei derfynu mewn ffordd amserol, ond yn gyffredinol mae'r dulliau o weithredu sydd mewn bodolaeth yn gyffredinol yn darparu diogelwch heb achosi trafferthion hygyrchedd i'r rhai sy'n wirioneddol ddefnyddio'r systemau. Mae'r strategaeth yn gweithio tuag at ardystiad BS7799 am ddiogelwch gwybodaeth.

5.41 Mae cynlluniau parhad busnes wedi eu cofnodi'n helaeth. Er hynny, mae'n eglur y byddai trychineb yn Athrofa Chwaraeon Cymru yn cael effaith ddramatig ar ffynnonellu gwybodaeth. Mae dau ganolbwynt wedi eu gwahanu'n gorfforol ar gael yng Nghaerdydd, ond byddai dinistrio'r ddau ganolbwynt yr un pryd yn golygu mai'r unig opsiwn fyddai sefydlu cyfleuster amgen ym Mhlas Menai, gan gymryd yn ganiataol na fyddai adeilad CChC yn gallu cael ei ddefnyddio. Mae'r cynllun cysondeb yn cael ei adolygu'n flynyddol.

5.42 Trwy gyfeirio mae'r polisi'n cynnwys gofynion y ddeddf gwarchod data.

Argymhelliad: Am resymau ymarferol byddai'n ddefnyddiol i'r arolwg blynyddol o'r cynllun cysondeb busnes i glustnodi cyfleusterau swyddfa wedi eu seilio yn Ne Cymru fyddai efallai'n addas efallai i ddarparu cyfleusterau argyfwng petai trychineb llwyr yn digwydd yn CChC.

Adnoddau Dynol

5.43 Mae ymddygiad addas materion adnoddau dynol erbyn hyn yn fater o sicrwydd llywodraethol. Yn gefndir i hyn mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi cael sicrwydd eto o'i statws Buddsoddwyr Mewn Pobl.

5.44 Rydym wedi adolygu'r trefniadau sydd mewn bodolaeth eisoes ac wedi cyfweld â rheolwr yr Adnoddau Dynol er mwyn creu barn am y Cyngor.

5.45 Mae'r Cyngor erbyn hyn wedi gweithredu strwythur cyflog adolygedig wedi ei seilio ar ddealltwriaeth JEGS o werthuso swydd. Mae hyn wedi symleiddio'r strwythur ac wedi cael gwared â rhai o'r risgiau i'r strwythur a oedd yn bodoli eisoes oherwydd sialensiau cyflog

cyfartal. Mae pob swydd sy'n cael ei chreu o'r newydd yn cael eu gwerthuso yn yr un modd, ac mae anghenion ieithyddol yn cael eu asesu. Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu'n fewnol ac yn allanol. Mae'r broses cyflogi yn cael ei reoli'n ganolog gan staff Adnoddau Dynol, sydd â gwybodaeth am ddeddfwriaeth cyflogi, ac maen nhw'n sicrhau bod hysbysebion yn cael eu geirio'n gywir ac yn cael eu rhoi mewn cyhoeddiadau addas. Mae pob cynnig yn cael ei wneud trwy swyddog personél.

5.46 O Ebrill 2003 bydd disgwyl i bob aelod o staff sy'n cymryd rhan yn y broses cyfweld fod wedi derbyn hyfforddiant mewn technegau cyfweliad. Mae cyfweliadau'n cael eu gwirio ar fyr rybudd gan y Rheolwr Adnoddau Dynol. Mae sail gwerthuso ymgeiswyr yn cael ei gytuno ar gyfer pob swydd fel y gellir dangos bod y broses yn dryloyw ac y gellir rhoi adborth da.

5.47 Cynhelir rhaglenni rhagarweiniol sydd, ymhob achos, yn cynnwys cyflwyniad bras am waith y Cyngor ar gyfer y staff ynghyd â hyfforddi iechyd a diogelwch a VDU. Caiff hyfforddi diogelwch personol ei roi i staff mewn ardaloedd gweithredol.

5.48 Mae gwerthusiadau blynyddol yn cael eu cynnal ym Mis Ebrill ac maen nhw'n cael eu recordio. Mae'n nhw'n ffurfio'r sail ar gyfer cytundeb am anghenion hyfforddi awgrymedig. Fe fydden nhw hefyd yn delio â gwrthod codiad cyflog ar raddfa chwyddiant (nid yw hyn wedi digwydd). Byddai'r nodiadau'n ffurfio sail i reolwr ddadlau achos am daliad teilyngdod unigol.

5.49 Mae dulliau cywir a chlir mewn bodolaeth ar gyfer materion disgyblaeth a chwyno, gan ddarparu ffyrdd o symud ymlaen a chofnodi unrhyw weithredu. Mae ffyrdd o ddelio ag absenoldeb mewn bodolaeth ac mae cynodau o absenoldeb yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.

5.50 Yn gyffredinol mae newidiaeth staff yn y Cyngor yn isel, ond mae nifer o feysydd trafferthus lle mae lefelau newid staff wedi bod yn broblem. Mewn swyddogaethau lle mae angen wynebu'r cwsmer mae'r rhain yn nodweddiadol wedi bod lle mae yna brinder staff â chymwysterau addas mewn marchnad gystadleuol, mewn meysydd megis gwyddoniaeth chwaraeon a datblygiad cenedlaethol staff. Mae trosiant uchel wedi bod hefyd mewn swyddogaethau canolog megis cyllid. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ei system graddio taliadau yn ei ganiatáu i aros yn gystadleuol mewn meysydd fel hyn a dylid sicrhau hyn trwy adolygiadau blynyddol gan y Pwyllgor Taliadau fel a argymhellwyd uchod.

5.51 Yn gyffredinol roedd rheolaeth adnoddau dynol yn foddhaol.

Cynllun yr Iaith Gymraeg

5.52 Mae'r Cyngor yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Caiff adroddiadau blynyddol ar gynnydd eu paratoi a'u cyflwyno i'r Bwrdd ar ôl eu cymeradwyo gan y Cyngor. Fe wnaethom adolygiad o adroddiad 2001/2. Mae'r adroddiad ar gyfer 2002/3 i'w gyflwyno ym Mis Awst 2003. Mae'r Cyngor hefyd yn weithredol yn trafod materion a datblygiadau â'r Bwrdd. Mae'r sefyllfa adeg yr adroddiad diwethaf wedi ei grynhoi yn y tabl canlynol (nid yw'r sefyllfa bresennol wedi newid llawer):

Adran/Lleoliad	Cyfanswm Staff	Targed Cymraeg	Rhugl yn Gyfredol	Dysgwyr Cyfredol
Caerdydd – Swyddfa'r Prif Weithredwr	7	2	4	1
Caerdydd – Datblygiad Cenedlaethol	22	1	1	2

Caerdydd – Gwasanaethau Corfforaethol	34	1	2	4
Datblygiad Lleol – Caerdydd	13	1	4	3
Datblygiad Lleol – Caerfyrddin	6	1	1	0
Datblygiad Lleol – Glannau Dyfrdwy	5	1	3	0
WIS Caerdydd – Gwasanaethau Cwsmeriaid	15	1	0	1
WIS Caerdydd – Gwasanaethau Cefnogi	46	0	1	0
Plas Menai - Caernarfon	18	2	7	1
Cyfanswm	166	10	23	12

5.53 Mae'r pwyntiau canlynol yn codi o'r dadansoddiad hwn:

- ❑ Mae tua 14% o'r holl staff yn rhugl yn y Gymraeg – Saesneg yw'r iaith mwyaf dylanwadol yn y gwaith
- ❑ Mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg rhugl yn cwrdd â'r targed ym mhob lleoliad ond am ofal cwsmeriaid WIS lle cafwyd anhawster i gyflogi siaradwr Cymraeg rhugl. Mae cyfleuster galw nôl y swyddfa gefn wedi ei ddarparu ond mae hyn ymhell o fod yn foddhaol.
- ❑ Mae targed rhuglder yn y Gymraeg ar hyn o bryd yn isel iawn ac mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn pwysu ar y Cyngor i'w ddyblu i 20 o staff.
- ❑ Mae yna ardaloedd megis De Orllewin Cymru lle mae lefel y defnydd o'r Gymraeg ymhlith y boblogaeth yn cyfiawnhau targed mwy uchelgeisiol.
- ❑ Caiff swyddi sydd angen rhuglder yn y Gymraeg eu nodi gan y Cyngor. Mae gofynion ieithyddol y swyddi newydd sy'n cael eu creu i gyd yn cael eu hasesu ac yn cael eu hysbysebu yn unol â'r arfer gorau ac yn nodi bod y gallu i siarad Cymraeg unai'n hanfodol neu'n ddymunol.

5.54 Mae'n ymddangos bod y Bwrdd yn fodlon bod y Cyngor yn delio'n dda â'r materion cychwynnol yn ymwneud ag arwyddion a chyfathrebu dwyieithog. Y materion pwysig sy'n dod i'r blaen nawr yw:

- ❑ Ymddangosiad polisi mwy uchelgeisiol ar allu ieithyddol staff
- ❑ Ymdriniaeth o faterion ieithyddol yn ymwneud â gweinyddu grantiau
- ❑ Y materion yn ymwneud â'r bartneriaeth.

5.55 Mae'r materion yn ymwneud â'r ddwy Ganolfan Genedlaethol, er enghraifft, yn wahanol iawn. Yn WIS mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddi yn cael ei wneud gan staff y corff llywodraethol cenedlaethol. Er bod y swyddi hyn mewn rhai achosion yn cael eu hariannu gan y Cyngor, mae'r staff yn gyflogwyr y gwahanol gyrff llywodraethu ac maen nhw'n mynnu penodi staff yn bennaf ar eu gallu technegol. Mewn nifer o achosion nid yw'r staff dan sylw yn dod o'r DU ond o hemisffer y De. Mae hyn hefyd yn wir am rai o'r sgiliau arbenigol a gyflogir gan y Cyngor ei hun.

5.56 Yn achos Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai mae'r hyfforddi'n cael ei gynnal gan staff y Cyngor. Mae dau o hyfforddwyr rheolaidd yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac mae un yn dysgu Cymraeg, yn ogystal â thri o staff hyfforddi dan hyfforddiant rhugl sy'n darparu hyfforddiant diogelwch yn ogystal a mathau eraill. Mae'r polisi'n dweud y bydd hyfforddiant Cymraeg yn cael ei ddarparu os yn bosibl, yn amodol ar ragrybudd gan y grwpiau. Problem sylweddol yma yw bod cyrsiau'n llawn myfyrwyr sy'n dod o bob cwr o'r DU. Mae Rheolwr y Ganolfan, oherwydd pwysigrwydd materion iechyd a diogelwch, yn hapus â'r egwyddor o roi

hyfforddiant yn y Gymraeg i gyd neu yn Saesneg i gyd, ond nid â cheisio dysgu grŵp ar sail ymarferol yn y ddwy iaith.

5.57 Mae cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor â darpariaeth cyfieithu ar y pryd oni bai am gyfarfodydd y Cyngor. Mae'r nifer isel o aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu'r cyfarfodydd hyn yn gyffredin i holl ASPB a NDPB yn y DU ac mae'n annhebygol o gael ei ddylanwadu'n sylweddol gan argaeledd darpariaeth cyfieithu ar y pryd.

5.58 Mae'r rhan o waith y Cyngor sy'n gweinyddu grantiau yn cynnwys cytundeb sy'n ymrwmo derbynnydd y grant i arwyddo dwyieithog yn y cyfleuster yr hawliwyd y grant amdano, ac yn achos y cynlluniau mwy mae'n rhoi'r hawl i'r Cyngor bennu enwau Cymraeg a Saesneg y cyfleusterau. Mae'r Cyngor hefyd yn mynnu bod unrhyw sefydliad sy'n defnyddio cyfleusterau'r Cyngor yn cadw at yr angen i ddarparu arwyddo dwyieithog ar gyfer digwyddiadau ac wrth ddefnyddio hysbysfyrddau.

5.59 Mae'r Cyngor wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Bwrdd ynglŷn â'r gwaith mae'n ei wneud ar weinyddu grantiau ac mae wedi gofyn am arweiniad pellach ar beth yn fwy y gellir disgwyl iddo'i wneud ym maes dylanwadu sefydliadau sy'n bartneriaid sydd, mewn nifer o achosion, yn ymarhous o ariannu'r cydymffurfio wrth weithredu eu gweithgareddau eu hunain. Mae'r Cyngor ei hun yn darparu ariannu ar gyfer hyfforddi unrhyw staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg ar sail wirfoddol Cafwyd chwe chwyn ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn 2001/2 a chynhaliwyd tair ohonyn nhw. Hyd yma ni dderbyniwyd yr un gwyn yn 2002/3.

Argymhelliad: Mae'r amser yn addas nawr i symud ymlaen ar bolisi ar yr iaith Gymraeg ac rydym yn credu y dylai'r Cyngor wynebu her y targedau cynyddol ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl, gan ganolbwyntio ar weithgareddau sy'n ymwneud â'r cwsmeriaid wyneb yn wyneb. Mae hyn yn debygol o greu manau mwy trafferthus na'i gilydd fydd angen sylw mewn lleoliadau megis WIS a De Orllewin Cymru sydd angen sylw trwy recriwtio a hyfforddi.

Materion Llywodraethol Eraill

Caffaeliad

5.60 Ag eithrio'r methiant i sicrhau cymeradwyaeth Bwrdd y Cyfarwyddwyr nawdd am un cynnig o dros £50,000 (gweler yr archwiliad allanol uchod), mae'r broses gaffael gaiff eu gweithredu gan y Cyngor yn gweithio i safon derbyniol o arfer gorau. Mae hyn wedi cael ei adolygu'n ddiweddar gan archwiliad mewnol.

Cwynion

5.61 Mae proses mewn bodolaeth ar gyfer categoriedd a chyfeirio unrhyw gwynion a wneir gan y cyhoedd am unrhyw fentrau neu wasanaethau a weithredir gan y Cyngor. Yn y fath achosion mae'r cwynion yn cael eu hidlo trwy'r rheolwr atebol ac yn olaf, os oes rhaid, i'r Prif Weithredwr. Yn achos cwynion yn erbyn gwrthodiadau grant SPORTLOT mae yna Bwyllgor Apeliadau a gadeirir gan Gadeirydd y Pwyllgor. Mae'r lefel o gwynion ffurfiol yn erbyn y Cyngor yn isel iawn.

5.62 Mae mecanweithiau'n bodoli fel y gall staff leisio anfodlonrwydd a gofidiau. Y llwybr arferol i hyn fyddai trwy'r gadwyn rheolaeth atebol. Er hyn, mae cyfleusterau ar gael i staff i

ddilyn llwybr arall, gwahanol i hwn, er mwyn delio â phryderon o natur moesol neu ar ffurf cwyn.

Trefniadau Adrodd a Rhyddid

5.63 Ar y cyfan mae'r rhain yn addas. Ond mae yna oedi sylweddol wedi digwydd mewn ymateb i geisiadau am gymeradwyaeth gan y Cyngor. Un enghraifft, a nodwyd hefyd yn yr archwiliad allanol, oedd cais am gymeradwyaeth i fater yn ymwneud â phensiynau a gymrodd bron i flwyddyn i gael ymateb ffurfiol. Roedd manylion yr achos yn berthnasol i fater ymddeoliad cynnar.

Argymhelliad: Dylai bwrdd y Cyfarwyddwyr adolygu ei brosesau o drafod ceisiadau am gymeradwyaeth gan y Cyngor er mwyn sicrhau bod cyflymder yr ymateb yn addas i fanylion yr achos, ac i sicrhau bod y ffyrdd o gyfathrebu'n gweithio'n effeithiol gydag adrannau eraill sydd angen bod yn rhan o'r ymateb.

5.64 Mae maes ychwanegol o ofid yn ymwneud â buddsoddiadau chwaraeon newydd lle mae'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno cael eu cydnabod. Mewn rhai achosion gall fod mai dim ond ariannu gan y loteri gaiff ei dderbyn ac mae'n bwysig i'r Cyngor wybod ei fod yn gweithredu oddi fewn i'w bwerau wrth fuddsoddi mewn brandio ar gyfer y prosiectau hynny sy'n cael ei hariannu gan y loteri'n unig.

Argymhelliad: Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg yn addunedu i ddatrys problemau sy'n goroesi ynglŷn â brandio ar ddatblygiadau a ariennir gan y loteri gyda'r DCMS er mwyn rhoi arweiniad clir i'r Cyngor ar sut mae rheoli brandio prosiectau newydd.



Atodiad A

Cylch Gorchwyl

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

ADOLYGIAD PUM MLYNYDDOL CYNGOR CHWARAEON CYMRU

CYLCH GORCHWYL

Rhagarweiniad

Mae Adolygiad Pum Mlynnyddol Cyngor Chwaraeon Cymru yn cael ei gwblhau yng nghydestun y Canllawiau ar Adolygiadau Pum Mlynnyddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Canllawiau yn nodi'r broses ar gyfer cwblhau'r adolygiadau. Mae hyn yn cynnwys hunan-asesiad gan y corff a nodir, trafodaeth gydag Aelodau'r Cyngor ac uwch reolwyr, gan wahodd safbwyntiau oddi wrth y prif randdeiliaid gan gynnwys staff a'u hundebau llafur, partneriaid a chwsmeriaid.

Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi'r cwestiynau allweddol y mae'n rhaid i'r Adolygiad fynd i'r afael â hwy. Mae'r materion sy'n gyffredin i bob adolygiad wedi eu nodi yn y Canllawiau, ond mae'r Cylch Gorchwyl hefyd yn rhoi ystyriaeth i faterion sy'n ymwneud yn benodol â Chyngor Chwaraeon Cymru. Bydd yr Adolygiad yn rhoi ystyriaeth i adolygiad Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol o bolisi chwaraeon ac adolygiad yr Is-adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon o arian loteri ac yn ystyried y canlyniadau sy'n dod i'r amlwg o'r ddau adolygiad.

Allbwn allweddol yr adolygiad fydd un adroddiad, wedi ei rannu'n ddwy ran. Bydd rhan gyntaf yr adolygiad ar swyddogaethau (Adolygiad Strategol - Cam I) yn cael ei ystyried yn ystod y cyfnod interim, a bydd hefyd yn nodi'r materion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer gweddill yr adolygiad.

Y cyd-destun ar gyfer yr adolygiad yw cynllun strategol y Cynulliad, ***Cynllun i Gymru 2001***, a dogfennau strategol eraill y Cynulliad megis *Creative Future: Cymru Greadigol*.

Cam I: Yr Adolygiad Strategol

Swyddogaethau

Yng ngoleuni amcanion Siartr Brenhinol Cyngor Chwaraeon Cymru, amcanion y Cynulliad Cenedlaethol ac enghreifftiau o arfer da mewn mannau eraill, a oes yna angen parhaol parhaol am holl swyddogaethau Cyngor Chwaraeon Cymru, ac os oes a yw'r fframwaith trefniadol bresennol yn ddigon addas ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hynny?

- Beth yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli Cyngor Chwaraeon Cymru?
- A oes angen swyddogaethau Cyngor Chwaraeon Cymru erbyn hyn?
- A oes angen i Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ymgymryd â'r swyddogaethau - a oes yna opsiynau eraill ar gyfer mynd i'r afael â'r swyddogaethau sy'n debygol o fod yn fwy effeithiol?
- A fyddai'n well i un corff gyflawni'r swyddogaethau? Oes angen ad-drefnu swyddogaethau rhwng Cyngor Chwaraeon Cymru a chyrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau tebyg yng Nghymru?

- Yn benodol, dylai'r adolygiad archwilio'r Canolfannau Cenedlaethol ac ystyried eu swyddogaethau a'u pwmpas, perfformiad, opsiynau ar gyfer eu rheoli yn y dyfodol, oes lle i ddatblygu trefniadau cytundebol ar gyfer darparu gwasanaethau yn effeithiol ac ystyried opsiynau cyllido yn y dyfodol. Wrth ystyried y materion hyn bydd yr adolygiad yn rhoi ystyriaeth i ganfyddiadau Adolygiad o Reolaeth Ariannol a Pherfformiad Cyngor Chwaraeon Cymru a gwblhawyd yn flaenorol gan y Swyddfa Gymreig.

Cam II: Adolygiad o Effeithiolrwydd Strategol a Llywodraethu Corfforaethol

Effeithiolrwydd Strategol

Yn ddibynol ar y canfyddiadau yng Ngham I: a oes yna unrhyw welliannau y dylid eu gwneud i'r ffordd y cyflawnir swyddogaethau Cyngor Chwaraeon Cymru, gan roi ystyriaeth i amcanion y Siatr, y ffordd y maent wedi'u trosglwyddo yn nodau ac amcanion yn y Cynllun Corfforaethol a gwerthoedd ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol. Oes ffyrdd o fynd ati i wella'r ffordd y mae ei berthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio?

Wrth wneud hyn dylid rhoi ystyriaeth i unrhyw astudiaethau annibynnol, er enghraifft gan y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol, a'r camau a gymerwyd yn dilyn yr Adolygiad blaenorol.

- Beth fu prif gyflawniadau strategol Cyngor Chwaraeon Cymru dros y 5 mlynedd diwethaf? I ba raddau y mae wedi cwrdd â'i amcanion? Sut y mae wedi perfformio yn erbyn ei dargedau? Ym mha ffordd y mae'n cymharu gyda chyrff y mae modd ei gymharu â nhw? A oes yna unrhyw faterion perfformiad sydd angen mynd i'r afael a hwy?
- Pa mor effeithiol yw'r berthynas strategol rhwng Cyngor Chwaraeon Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys canllawiau strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a threfniadau'r Cyngor Chwaraeon ar gyfer ymateb i amcanion strategol y Cynulliad Cenedlaethol, themâu a gwerthoedd arweiniol (gan gynnwys cyfle cyfartal, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a datblygu cynaliadwy)? Ym mha ffordd y gellid eu gwella?
- Pa mor effeithiol y bu cynllunio corfforaethol Cyngor Chwaraeon Cymru wrth ddatblygu cyfeiriad clir a strategol, gosod targedau a neilltuo adnoddau ar gyfer amcanion a blaenoriaethau?
- A yw'r broses gynllunio corfforaethol yn adlewyrchu dull integredig o weithredu tuag at y swyddogaethau a gyflawnwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru?
- A oes yna gyd-ddealltwriaeth effeithiol o rolau aelodau'r Cyngor a'r tîm rheoli hyn wrth osod amcanion corfforaethol a monitro'sut y cânt eu gweithredu? A yw'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn glir ac effeithiol ac a yw'n glir pa faterion sy'n rhai i'r cyngor a pha rhai sydd i'w trafod gan y rheolwyr.
- A yw Cyngor Chwaraeon Cymru yn ddigon ymatebol i'w bartneriaid a'i gwsmeriaid, a ydyw'n deall natur ei berthynas â hwy ac a oes ganddynt hyder ynddo fel corff y gallant weithio gydag ef ac a oes ffyrdd y gellir cryfhau'r berthynas?
- A yw'r trefniadau ar gyfer gwneud adroddiadau rhwng Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddigonol, oes angen mwy o ryddid a gwell hyblygrwydd ar Gyngor Chwaraeon Cymru?
- A yw'r gwahaniaeth rhwng gwahanol rolau a chyfrifoldebau y Cynulliad a'r Is-adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn perthynas â chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo, datblygu polisiau a rheoli ariannol a rheolaeth?

Llywodraethu Corfforaethol

A yw'r trefniadau ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru yn parhau i fod yn addas? A yw Cyngor Chwaraeon Cymru yn rheoli'i arian yn effeithiol ac yn unol â gofynion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian? Pa lwyddiannau a gafodd Cyngor Chwaraeon Cymru wrth wella effeithlondeb gweithredol? Wrth wneud hyn, dylid

rhoi ystyriaeth i dystiolaeth o'r fframwaith rheoli bresennol, fel y nodwyd yn Atodiad 2 o'r Canllawiau.

- A yw'r trefniadau presennol ar gyfer llywodraethu Cyngor Chwaraeon Cymru yn parhau i fod yn addas? A oes digon o atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer ymddygiad Cyngor Chwaraeon Cymru?
- Ydy'r trefniadau rheoli arian a rheolaeth rhwng Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn bodloni'r anghenion sefydledig?
- A yw adroddiadau archwilio mewnol ac allanol yn ennyn hyder bod Cyngor Chwaraeon Cymru yn rheoli'i arian yn unol â'r hyn y mae'r Cynulliad yn ei ddisgwyl oddi wrth gyrff cyhoeddus? A yw pwyllgor archwilio mewnol Cyngor Chwaraeon Cymru'n gweithio'n effeithiol?
- A yw Cyngor Chwaraeon Cymru yn rheoli'i arian a'i asedau'n effeithiol? A ymdrinnir â materion gwerth am arian (gan gynnwys gwerthuso polisi) a rheoli risg yn drylwyr?
- A yw dull y Cyngor Chwaraeon o gynnal ei fusnes yn bodloni'r safon yr arferion a ddisgwylir o gyrff cyhoeddus mewn perthynas â chaffael, bod yn agored, codau ymarfer a delio â chwynion (gan gynnwys datgelu camarfer)?
- A yw costau rhedeg a lefelau staffio Cyngor Chwaraeon Cymru yn cael eu rheoli a'u harchwilio? Oes modd gwneud cymhariaeth ddefnyddiol â chostau gweithredu cyrff tebyg?
- A oes gan y Cyngor Chwaraeon drefniadau da ar gyfer monitro/herio ei ansawdd a'i effeithlondeb wrth ddarparu'i wasanaethau?
- A yw Cyngor Chwaraeon Cymru wedi profi'i hunan wrth wella effeithlondeb ac a oes ganddo gynlluniau cadarn ar gyfer gwella effeithlondeb?



Atodiad B

Crynodeb Gweithredol o Adroddiad Rhan 1 o'r Arolwg Pum Mlynedd

1. Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion

Cyd-destun

1.1 Mae Cyngor Chwaraeon Cymru, a sefydlwyd ym 1971 o dan Siarter Brenhinol, yn gweithredu nifer o swyddogaethau sy'n cynnal gwaith datblygu arwyddocaol a dosbarthu grantiau cronfa'r Loteri Genedlaethol. Mae'n derbyn dros £20m o nawdd yn flynyddol - £8.6m mewn grant-mewn-cymorth gan Lywodraeth y Cynulliad a thua £12m o gronfa'r Loteri Genedlaethol.

1.2 Mae newidiadau mawr yn digwydd yn strwythur a chyfeiriad chwaraeon yn y DU. Mae'r rhain yn creu hinsawdd lle mae angen newid yng Nghymru os yw'n mynd i fod yn gystadleuol ac hefyd yn mynd i gyfrannu i'r amcanion ehangach megis ffordd o fyw iach a hygyrchedd i bawb.

1.3 Bydd angen i'r Cynulliad a holl sefydliadau chwaraeon yng Nghymru reoli'r newid strategol hwn mewn modd gofalus a threfnus, gan ystyried cymhlethdod y farchnad chwaraeon. Bydd angen datblygu a chytuno ar goliau tymor hir a gwneud buddsoddiad ac ymrwymiad i'r rhain. Tra bod hyn yn digwydd bydd angen buddsoddiad tymor byr a chanolig er mwyn sicrhau nad yw Cymru'n llusgo'i thraed.

1.4 Oddi fewn i'r cyd-destun hwn rydyn ni wedi adolygu Cyngor Chwaraeon Cymru ac wedi datblygu ein argymhellion.

Cyngor Chwaraeon Cymru

1.5 Mae aelodaeth y cyngor yn eang ei brofiad a'i gynrychiolaeth ddaearyddol. Mae gan yr aelodaeth amrywiaeth o sgiliau i berfformio'i rôl yn effeithiol ac mae o faint addas.

1.6 Mae'r Cyngor yn atebol i Lywodraeth y Cynulliad ac i'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) am ei weithgareddau. Ei fudd-ddeiliaid allweddol yw cyrff llywodraethol cenedlaethol chwaraeon Cymru, awdurdodau lleol Cymru, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach a'r goreuon ym myd chwaraeon dynion a merched Cymru.

